

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

61/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

15/06/2023

Gwerthuso Cyfrifon Dysgu Personol

Adroddiad Terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-127-7

Teitl: Gwerthuso Cyfrifon Dysgu Personol
Is-deitl: Adroddiad Terfynol

Awduron: Oliver Allies, Anna Burgess, Megan Clark,
Paula Gallagher, Chloe Maughan

wavehill

Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Allies, O., Burgess, A., Clark, M., Gallagher, P. & Maughan, C. (2023). Gwerthuso Cyfrifon Dysgu Personol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 61/2023.
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gyfrifon-dysgu-personol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Kimberley Wigley

Is-adran: Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 257095

E-bost: KASEmployabilityandSkillsResearch@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	3
Geirfa	5
1. Cyflwyniad/Cefndir	6
2. Cyd-destun.....	13
3. Dylunio a Gweithredu PLA	26
4. Canfyddiadau – Ymgysylltu a Chyflenwi Gwasanaethau	52
5. Canfyddiadau - Profiad Y Dysgwr/Cyflogwr	83
6. Deilliannau ac Effeithiau'r Rhaglen.....	90
7. Crynodeb o Ganfyddiadau ac Argymhellion	107
Adran Gyfeiriadau	121
Atodiad 1: Damcaniaeth Newid y Rhaglen.....	123
Atodiad 2: Canllawiau Trafod	128
Atodiad 3: Hysbysiadau Preifatrwydd	158

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Dyraniadau cyllid PLA yn ôl coleg AB	34
Tabl 4.1: Cofrestriadau cyrsiau yn ôl coleg	56
Tabl 4.2: Proffil o ddysgwyr PLA yn ôl rhywedd	58
Tabl 4.3: Proffil dysgwyr ELA yn ôl rhywedd	59
Tabl 5.1: Dull dysgu yn ôl rhywedd	83
Tabl 5.2: Pryd oedd dysgwyr fel arfer yn cyrchu'r cwrs yn ôl rhywedd	85
Tabl 6.1: Sefyllfa'r dysgwr	91
Tabl 6.2: Statws dysgwr yn ôl tarddiad ethnig.....	95
Tabl 6.3: Budd cyflog net fesul cost dysgwr	104

Rhestr o ffigurau

Ffigur 4.1: Cofrestriadau fesul blwyddyn galendr yn ôl rhywedd	54
Ffigur 4.2: Cyfran y cofrestriadau PLA ac ELA yn ôl cyfanswm y cofrestriad bob blwyddyn	54
Ffigur 4.3: Cofrestriadau cwrs dros amser	55
Ffigur 4.4: Nifer y dysgwyr PLA dan arweiniad dysgwyr	57
Ffigur 4.5: Cymhwyster uchaf ymhlith dysgwyr PLA a'r boblogaeth economaidd weithgar yng Nghymru.....	60
Ffigur 4.6: Sector diwydiannol dysgwyr PLA ar adeg cofrestru yn ôl rhywedd.....	62
Ffigur 4.7: Statws cyflogaeth adeg cofrestru ar PLA yn ôl rhywedd	63
Ffigur 4.8: Dadansoddiad galwedigaethol o ddysgwyr PLA ac ELA o'i gymharu â'r holl weithwyr yng Nghymru	65
Ffigur 4.9: Dadansoddiad galwedigaethol o ddysgwyr PLA yn ôl rhywedd	66
Ffigur 4.10: Bandiau cyflog blynyddol ymhlith dysgwyr ar adeg cofrestru yn ôl rhywedd.....	67
Ffigur 4.11: Llwybrau i'r rhaglen PLA	69
Ffigur 4.12: Sut glywsoch chi am y rhaglen am y tro cyntaf?	70
Ffigur 4.13: Beth oeddech chi'n gobeithio ei gael o'r hyfforddiant? (yn ôl rhywedd).....	72
Ffigur 4.14: Cofrestriadau cyrsiau yn ôl maes pwnc sector (PLA ac ELA)	79
Ffigur 4.15: Cynrychiolaeth fenywaidd ar gyrsiau yn ôl maes pwnc sector – PLA a'r holl ddarpariaeth dysgu ôl-16 yng Nghymru	80
Ffigur 4.16: Cymhwyster cyfatebol canfyddedig cyrsiau PLA	81
Ffigur 4.17: Beth fyddai dysgwyr wedi ei wneud yn absenoldeb PLA?	82
Ffigur 5.1: Pryd oedd dysgwyr fel arfer yn cyrchu'r cwrs.....	85
Ffigur 5.2: Sut fydddech chi wedi hoffi i'r cwrs gael ei gyflenwi? (yn ôl rhywedd)	87
Ffigur 5.3: Sawl awr o ddysgu ac addysgu gawsoch chi? (n=311)	88
Ffigur 6.1: Statws dysgwr yn ôl coleg AB.....	92
Ffigur 6.2: Pam wnaethoch chi adael y cwrs yn gynnar? (yn ôl rhywedd).....	93
Ffigur 6.3: I ba raddau y mae'r hyfforddiant a gawsoch trwy PLA wedi arwain at ...? (a rhai a gwblhaodd yn unig; n= 382)	96
Ffigur 6.4: Cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi newid gyrfaoedd ers cofrestru mewn dysgu PLA yn ôl sector (sylfaen=18).....	99
Ffigur 6.5: O ganlyniad i'r cwrs, a oes unrhyw un o'r newidiadau isod wedi digwydd? (yn ôl rhywedd)	102

Ffigur 6.6: I ba raddau y mae cyfranogiad eich gweithwyr yn yr hyfforddiant wedi arwain at y canlynol?	106
Ffigur A1: Enghraifft o damcaniaeth newid linol	124
Ffigur A2: Rhesymeg ganolog damcaniaeth newid PLA	125
Ffigur A3: Damcaniaeth newid – Ffrwd PLA dan arweiniad dysgwr.....	126
Ffigur A4: Damcaniaeth newid – ffrwd ELA	127

Geirfa

Talfyriad	Diffiniad
FfCChC	Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru
AdAS	Yr Adran Addysg a Sgiliau
EAL	Excellence Achievement & Learning Ltd.
ELA	Cyfrifon Dysgu Cyflogwyr
AB	Addysg Bellach
FSP	Rhaglen Sgiliau Hyblyg
GLIM	Grŵp Llandrillo Menai
ILA	Cyfrifon Dysgu Unigol
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
NVQ	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol
PAC	Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
PLA	Cyfrifon Dysgu Personol
UKCES	Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Ym mis Mawrth 2021 comisiynodd Llywodraeth Cymru Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol (PLA). Yn ymrwymiad yng [Nghynllun Cyflogadwyedd](#) Llywodraeth Cymru, lansiwyd PLA gyda'r nod o ddarparu cyllid ar gyfer ailhyfforddi pobl gyflogedig (sy'n ennill llai na £26,000 y flwyddyn) yn alwedigaethol mewn sectorau diwydiannol lle mae prinder sgiliau amlwg. Ar ben hynny, lansiwyd y rhaglen gyda'r nod o gefnogi pobl gyflogedig i ennill sgiliau a chymwysterau lefel uwch, a thrwy hynny ddarparu cyfleoedd i bobl newid gyrfaoedd.
- 1.2 Dechreuodd y rhaglen PLA ym mis Medi 2019 fel cynllun peilot (am ddwy flynedd i ddechrau) dan arweiniad Coleg Gwent yn Ne Ddwyrain Cymru a Grŵp Llandrillo Menai (GLIM) yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws (COVID-19), gwnaeth Llywodraeth Cymru'r penderfyniad i gyflymu'r broses o gyflwyno'r rhaglen PLA ledled Cymru cyn cwblhau'r cam peilot. Yn y pen draw, rhedodd y peilot am chwe mis tan fis Mawrth 2020, ac yna cafwyd cyfnod o drawsnewid mewn ymateb i'r pandemig rhwng mis Mawrth ac Awst 2020 cyn i'r rhaglen lawn ddechrau ym mis Hydref 2020. Yn ystod y cyfnod trosiannol hwnnw, daeth y rhaglen ar gael i bob gweithiwr ar ffyrlo ledled Cymru, waeth beth fo'u cyflog, ac, fel rhan o'r ehangu, daeth y rhaglen yn gymwys i gyflogwyr. Cyfeirir at ffrwd cyflogwr y rhaglen wedi hynny fel ffrwd cymorth Cyfrifon Dysgu'r Cyflogwr (ELA).

Y gwerthusiad

- 1.3 Comisiynwyd y gwerthusiad gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth gadarn i Lywodraeth Cymru am y cynllun peilot a gweithredu'r rhaglen sy'n cynnig dealltwriaeth o effaith gychwynnol PLA, ac i adnabod gwersi o ran sut y gellid gwella'r cynllun. Yn fwy penodol, amcanion y gwerthusiad yw:
- Cynnal proses a gwerthusiad o ganlyniadau peilot Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) fel yr oedd rhwng 16 Medi 2019 a 31 Gorffennaf 2020.
 - Ymchwilio i effeithiau'r 'cyfnod trosiannol' (Mawrth 2020 i Orffennaf 2020), a'r penderfyniadau a wnaed, ar y rhaglen PLA.

- Cynnal gwerthusiad o'r rhaglen PLA fel y mae wedi'i rhedeg o fis Awst 2020 ymlaen i asesu ei heffeithiolrwydd, ei heffeithlonrwydd, ei gwerth am arian, a'i heffaith gychwynnol.
- Archwilio i ba raddau y mae rhywedd yn ffactor yn natblygiad a chyflawniad y peilot a'r rhaglen.
- Darparu fframwaith i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal dadansoddiad cost a budd a gwerthuso effaith.

Dull methodolegol

1.4 Cyflwynwyd y gwerthusiad dros ddau gam:

- Cam cwmpasu a oedd yn defnyddio ymgynghoriadau cychwynnol ac ymchwil desg i ddatblygu damcaniaeth newid, fframwaith gwerthuso, a chynllun gwaith llawn ar gyfer cam nesaf y gwerthusiad; a
- Chanolbwyntiodd cam terfynol ar y broses a'r gwerthuso deilliannau, gyda chanfyddiadau allweddol a meysydd amlwg o bob cam o'r ymchwil, ochr yn ochr ag argymhellion y gellir eu gweithredu.

1.5 Ar draws y ddau gam, defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Cyfweiliadau cwmpasu gyda 30 o gynrychiolwyr allweddol o Lywodraeth Cymru, partneriaid cyflenwi (colegau AB a Gyrfa Cymru), a chynrychiolwyr o'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i archwilio dyluniad a gweithrediad y cynllun peilot/rhaglen yn ogystal â chysylltiadau ac amcanion polisi.
- Adolygiadau o wybodaeth reoli/data a gedwir gan Lywodraeth Cymru, a gasglwyd yn bennaf trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i asesu ei gyflawnrwydd yn erbyn y gofynion a nodir yng nghanllawiau'r rhaglen. Ceisiodd yr adolygiad cychwynnol yn ystod y cyfnod cwmpasu sicrhau bod data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol fel rhan o'r gwerthusiad er mwyn osgoi dyblygu a gwneud y mwyaf o werth ychwanegol o'r ymchwil. At hynny, roedd yr adolygiad yn llywio'r gwaith o ddiweddarau damcaniaeth newid (gweler Atodiad 1). At hynny, mae'r adolygiad o wybodaeth reoli wedi adnabod yr hyn sy'n ymarferol ar hyn o bryd o ran y fframwaith gwerthuso effaith a pha welliannau i'r wybodaeth reoli fyddai eu hangen i gynyddu cadernid y fframwaith hwnnw. Mae'r wybodaeth reoli wedi cael

ei hailystyried yng ngham olaf y gwerthusiad fel rhan o'r asesiad o gynnydd ac effaith PLA.

- Ceisiwyd am gwybodaeth reoli ychwanegol hefyd gan golegau AB na chafodd eu cynnwys yn y LLWR i roi cipolwg ar ei ehangder a'r rôl bosibl y gallai ei chwarae wrth ddatblygu fframwaith effaith ar gyfer y rhaglen. Cafodd taflenni costio'r cwrs eu hadolygu a'u dadansoddi hefyd i hysbysu asesiad cychwynnol o werth am arian y rhaglen.
- Mae dogfennaeth bolisi a rhaglen wedi cael ei hadolygu ar gyfer y project. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth ehangach i adolygu profiad rhaglenni tebyg i PLA blaenorol a sut mae'r rhain wedi hysbysu dyluniad y rhaglen hon, yn ogystal ag adolygiad o'r cysyniad, y dull a'r arfer da sy'n gysylltiedig â chyllidebu ar sail rhyw.
- Mae ymchwil desg hefyd wedi cynnwys adolygiad o ddeunyddiau marchnata a gweithgaredd hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol ym mhob coleg AB, gan fyfyrion ar sut maen nhw'n herio (neu'n cefnogi) stereoteipiau rhywedd mewn rhai sectorau.
- Cynhaliwyd gweithdy datblygu damcaniaeth newid gyda chynrychiolwyr allweddol o fewn Llywodraeth Cymru i brofi a mireinio'r rhesymeg y tu ôl i'r rhaglen a'i model rhesymeg a hysbysu'r fframwaith gwerthuso esblygol.
- Trwy gydol mis Mai a mis Mehefin 2022, casglodd arolwg ffôn o 391 (roedd 311 ohonynt wedi cwblhau eu cwrs ac roedd 80 yn dal ar eu cwrs) o ddysgwyr PLA adborth ar eu siwrneion ac yn benodol eu cymhellion i gofrestru mewn PLA, yn ogystal â'u profiad o gyrchu a gwneud y dysgu, ac i nodi'r hyn sydd wedi digwydd ers cwblhau eu dysgu. Adnabuwyd cyfranogwyr PLA a oedd wedi cofrestru a dechrau eu dysgu rhwng 1 Ionawr 2020 a 15 Rhagfyr 2021 fel y boblogaeth gymwys ar gyfer yr arolwg. Yna haenwyd y boblogaeth gymwys fesul coleg AB, a gosodwyd cwtâu i sicrhau bod digon o ddysgwyr (o leiaf 15) yn cael eu cynnwys drwy'r arolwg o bob coleg AB. Mae'r arolwg wedi ymgysylltu â dysgwyr o'r cyfnodau peilot, pontio a chyflwyno.

- Ochr yn ochr â'r gwaith maes gyda dysgwyr, perfformiwyd arolwg ffôn o 112 o ddysgwyr PLA a gofnodwyd yn y wybodaeth reoli fel y rhai a adawodd yn gynnar i archwilio a chymharu eu siwrneion a'u profiad â'r rhai a oedd wedi cwblhau eu cyrsiau. Cafodd y rhai a adawodd yn gynnar eu samplu ar hap o bob coleg addysg bellach.
- Ceisiodd arolwg ffôn o 75 o gyflogwyr a gofrestrodd eu gweithwyr yn y ffrwd ELA o PLA yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2022 gasglu safbwyntiau cyflogwyr ar PLA. Darparwyd manylion cyswllt i gyflogwyr gan golegau AB a'u samplu ar hap.
- Cafodd rhanddeiliaid gyda phersbectif strategol, gwybodus ar y rhaglen eu hadnabod gan Lywodraeth Cymru a'u rhannu gyda Wavehill. Cynhaliwyd 19 cyfweiliad gyda rhanddeiliaid strategol naill ai dros y ffôn neu drwy fideo-gynadledda yn ystod mis Medi 2022.

Cyfyngiadau Methodolegol

- 1.6 Mae cael gwybodaeth reoli ar gyfer y rhaglen PLA wedi profi yn broblemus ac wedi arwain at oedi o ran cynnydd y gwerthusiad. Darparwyd canllawiau i golegau AB ar natur gwybodaeth reoli sy'n angenrheidiol ar gyfer y rhaglen PLA; fodd bynnag, mae hyn yn cael ei chasglu a'i chadw gan bob coleg mewn gwahanol fformatau. Mae tystiolaeth graidd a gesglir drwy'r LLWR yn cael ei chasglu gan golegau addysg bellach a'i huwchlwytho'n ganolog i borth Llywodraeth Cymru. Mae'r data fel arfer yn gynhwysfawr, ond mae bylchau allweddol yn y dystiolaeth yn ogystal â phryderon ynghylch cywirdeb rhai elfennau.
- 1.7 Anghyson yw'r wybodaeth reoli arall nad yw'n ymwneud â LLWR sy'n cael ei chasglu, mae'n anghyflawn, ac mae'n parhau i gael ei chadw gan golegau AB mewn ffurfiau amrywiol (electronig a chopi caled). Mae adnabod llwybr addas i'r gwerthuswyr gael gafael ac adolygu'r wybodaeth hon wedi profi'n heriol. Yn y pen draw, mabwysiadwyd dull hybrid o gasglu gwybodaeth reoli, lle rhannwyd yr holl ddata a gasglwyd trwy'r LLWR gyda'r gwerthuswyr trwy Lywodraeth Cymru, tra bod data nad yw'n LLWR, lle bo ar gael, wedi'i gasglu o golegau AB.

1.8 Mae nifer o feysydd o fewn y Wybodaeth Reoli lle nodwyd bylchau:

- Ar gyfer elfen PLA y rhaglen, nid oes unrhyw wybodaeth yn y wybodaeth reoli ar gymhwyster uchaf 87 y cant o'r cyfranogwyr cyn cofrestru. Byddai hyn yn ddangosydd allweddol i hysbysu mesur cynnydd a pherfformiad y 'grŵp triniaeth' (y rhai sy'n derbyn cefnogaeth) yn erbyn grŵp rheoli neu gymharu (unigolion sydd â set debyg o nodweddion nad oeddent wedi derbyn y gefnogaeth), gan fod lefel y cymhwyster yn cael ei chydabod yn eang fel un sy'n cael dylanwad ar botensial enillion.
- Nid oes unrhyw ddata yn cael ei gadw o fewn Llywodraeth Cymru ar lefel academaidd gyfatebol y cyrsiau a gynhelir drwy'r rhaglen PLA. Mae lefel academaidd (ochr yn ochr â chymhwyster blaenorol) darpariaeth y cwrs yn debygol o ddylanwadu ar dwf enillion. Mae data gwybodaeth reoli ar hyd y cwrs ar gyfer cyrsiau a gynigir trwy PLA yn anghywir. Mae dadansoddiad o ddyddiadau dechrau a gorffen (a gofnodir o fewn y wybodaeth reoli) ar gyfer yr un cyrsiau yn dangos amrywiad enfawr; felly, maent yn annibynadwy fel dangosydd o hyd y cwrs. Mae cysylltiad mawr rhwng hyd y cwrs ac oriau addysgu â dwyster y gefnogaeth a dderbynnir gan ddysgwyr yn y rhaglen PLA, a fydd, yn ei dro, yn cael dylanwad cryf ar gostau cymorth y mae dysgwyr wedi'i dderbyn a'r budd tebygol y gallant ei gael.
- Ymhlith cyfranogwyr ffrwd ELA y rhaglen nid oes unrhyw fanylion am enw'r cyflogwr sy'n cymryd rhan ar gyfer 86 y cant o'r cyfranogwyr a ddelir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y gwerthusiad fanylion cyflogwyr gan golegau AB; fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata eilaidd ar gael i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ar nifer y dysgwyr yr oedd cyflogwyr wedi'u cofrestru yn ffrwd ELA y rhaglen, a thrwy hynny gyfyngu ar y gallu i werthuso'r ffrwd hon.
- Mae rhai achosion lle mae'n ymddangos bod y rhai yn elfen ELA y rhaglen wedi cael eu cam-ddyrannu i PLA, ac i'r gwrthwyneb. Mae'n ymddangos bod yr anghysonderau hyn yn ynysig (amcangyfrifir eu bod tua 5%) ond maent yn golygu bod nodyn o rybudd yn gysylltiedig â dadansoddi'r wybodaeth reoli.

- Mae'r data nad yw'n ymwneud â LLWR yn cynnwys galwedigaeth ymgeisydd, y sector y maent yn cael eu cyflogi ynddo, a'u braced cyflog ar adeg cofrestru yn y rhaglen. At hynny, mae'n ofynnol i chi gasglu'r un wybodaeth dysgwr chwe mis ar ôl cwblhau'r cwrs. Byddai'r wybodaeth yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i effeithiau'r rhaglen PLA sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, os yw'r data yn cael ei gasglu, gwneir hynny'n anghyson; felly, ni ellir eu defnyddio ar gyfer asesiad o effaith ar draws y rhaglen.
- Mae gwybodaeth reoli LLWR hefyd yn cynnwys cyfran uchel o gyrsiau (34 y cant; 3,011/8,815) sydd heb eu neilltuo i sector (maent yn cael eu cofnodi fel rhai generig/eraill). Gyda thros draean o ddarpariaeth y cwrs wedi'i chodio fel hyn, mae risg i gadernid dadansoddi proffil dysgwyr yn ôl maes pwnc y sector.

- 1.9 Mae'r materion sy'n ymwneud â'r wybodaeth reoli wedi cyfyngu ar gwmpas a chadernid effaith ac asesiad gwerth am arian y rhaglen. Mae'r papur technegol yn amlinellu fframwaith effaith a dull gwerth am arian ar gyfer y rhaglen i gryfhau'r asesiad o PLA yn y dyfodol.
- 1.10 Roedd y boblogaeth o'r rhai a adawodd yn gynnar a oedd yn gymwys ar gyfer yr arolwg yn annigonol i alluogi dull samplu tebyg i'r un a fabwysiadwyd ar gyfer dysgwyr a oedd wedi cwblhau eu cwrs neu a oedd yn parhau â'u dysgu. Gyda phoblogaeth fach i samplu ohoni, mabwysiadwyd dull samplu ar hap. Fodd bynnag, nid oedd dosbarthiad y rhai a adawodd yn gynnar ymhlith colegau addysg bellach yn adlewyrchu dosbarthiad y rhai a gwblhaodd y cwrs, gan fod rhai colegau yn dibynnu'n fwy helaeth ar ddarpariaeth o bell (sy'n tueddu i fod â chyfradd uwch o'r rhai a adawodd) nag y gwnaeth colegau addysg bellach eraill.
- 1.11 Datblygwyd y rhaglen PLA cyn cynnwys a mabwysiadu'r dull cyllidebu ar sail rhyw. Mae rhai cyfyngiadau yn asesiad y gwerthusiad o sut mae rhywedd wedi cael ei ystyried wrth ddylunio a chyflwyno'r rhaglen.
- 1.12 Nid oedd y dull methodolegol yn cynnwys gwaith maes wedi'i dargedu at ddysgwyr ELA oherwydd cyfyngiadau adnoddau. Efallai byddai ymgysylltu â'r grŵp hwn wedi helpu i bennu i ba raddau yr oedd ymgysylltu wedi cael ei arwain gan gyflogwyr neu gan ddysgwyr, gan ei bod yn debygol nad yw hwn yn benderfyniad deuaidd syml

(naill ai gan gyflogwr neu gan ddysgwyr), gyda graddau amrywiol o ddylanwad cyflogwyr yn debygol ymhlith y grŵp hwn a'r grŵp o ddysgwyr PLA.

1.13 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn rhoi trosolwg o darddiad rhaglenni tebyg i PLA yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd o'u cyflawni, a hefyd yn ystyried y cyd-destun polisi yng Nghymru lle mae PLA yn eistedd a tharddiad cyllidebu ar sail rhyw a'i rôl ddymunol o fewn y rhaglen PLA.
- Mae Adran 3 yn myfyrio ar ddylunio a gweithredu'r rhaglen PLA drwy gyfnodau peilot, pontio a chyflwyno'r rhaglen.
- Mae Adran 4 yn dadansoddi adborth ar y broses o gofrestru yn y rhaglen PLA, gan ddadansoddi gwybodaeth reoli i adnabod patrymau wrth gyflawni cyrsiau ac ym mhroffil y dysgwyr hynny sy'n cymryd rhan.
- Mae Adran 5 yn archwilio'r profiad o ddysgu, yn bennaf o safbwynt dysgwyr a chyflogwyr.
- Mae Adran 6 yn dadansoddi'r deilliannau a'r effeithiau sy'n deillio o'r rhaglen hyd yma.
- Mae Adran 7 yn crynhoi canfyddiadau'r ymchwil ac yn darparu cyfres o argymhellion ar gyfer y rhaglen PLA.

2. Cyd-destun

Crynodeb

- Cyflwynwyd Cyfrifon Dysgu Personol yn wreiddiol yn y DU yn 2000. Roedd lefelau'r galw y tu hwnt i'r disgwyliadau, ond daeth tystiolaeth o ymarfer i'r amlwg nad oedd yn adlewyrchu ethos y rhaglen, gan arwain at ei hatal ym mis Hydref 2001.
- Cynhaliwyd iteriadau dilynol o gynlluniau PLA gyda llwyddiant amrywiol yng Nghymru tan 2007.
- Roedd yr awydd i ailgyflwyno Cyfrifon Dysgu Personol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn adlewyrchu tuedd hirdymor o gyfranogiad (a chyllid) yn gostwng mewn addysg oedolion, gyda gostyngiad o 38 y cant mewn dysgu oedolion yng Nghymru rhwng 2013/14 a 2019/20.
- Mae'r rhaglen PLA yn cyd-fynd yn agos â pholisi Llywodraeth Cymru ac yn enwedig yr un sy'n gysylltiedig â'r nod o gyflawni Cymru Ffyniannus. Roedd y Cynllun Cyflogadwyedd, a gyhoeddwyd yn 2018, yn nodi'r ymrwymiad i dreialu rhaglen PLA, tra bod y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau diweddaraf (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022) yn cynnig ehangu'r rhaglen PLA.
- Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rhaglen PLA yn gyfle da i dreialu cyllidebu ar sail rhyw. Canfuwyd bod gan PLA berthnasedd ehangach i'r dull cyllidebu ar sail rhyw oherwydd ei ffocws ar gefnogi oedolion cyflogedig i gael cyflogaeth â chyflog uwch a sgiliau uwch mewn sectorau blaenoriaeth gydag effeithiau hysbys ar y rhywiau.
- Gan mai PLA yw'r rhaglen gyntaf gan Lywodraeth Cymru i ymgorffori dull cyllidebu ar sail rhyw, mae canfyddiadau o'r hyn yw cyllidebu ar sail rhyw wedi datblygu dros amser.

Cyflwyniad a rhesymeg y tu ôl i'r ymyrraeth

- 2.1 Mae'r adran hon yn archwilio'r rhesymeg a'r cyd-destun polisi a arweiniodd at lansio'r rhaglen PLA. Yn ogystal, mae'n adlewyrchu ar iteriadau blaenorol o fentrau PLA yn y DU.

Cyfrifon Dysgu Unigol

- 2.2 Cyflwynwyd Cyfrifon Dysgu Personol yn wreiddiol yn y DU (fel Cyfrifon Dysgu Unigol (ILA)) ym mis Medi 2000. Roedd y rhaglen wreiddiol yn cynnig darpariaeth gyffredinol i bawb sy'n 19 oed neu'n hŷn, gyda'r unigolyn yn gallu dewis sut mae'n

gwario ei ILA (taleb yn y bôn) ar hyfforddiant. Gallai hyn fod yn gymhorthdal llywodraethol o hyd at £200 ar gyfer cyrsiau sy'n costio hyd at £250. Gosododd Llywodraeth y DU un targed ar gyfer y rhaglen, sef 1 miliwn ILA erbyn mis Mawrth 2002. Fodd bynnag, cyhoeddwyd y miliynfed cyfrif ym mis Mai 2001 ac erbyn i'r cynllun gael ei atal ym mis Hydref 2001 roedd 2.5 miliwn o gyfrifon wedi'u cofnodi.

- 2.3 Nododd yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) ar y pryd fod “natur ysgafn, an-fiwrocraataidd y rhaglen a gynlluniwyd i gyrraedd dysgwyr annhraddodiadol yn llwyddiannus [...] ond yn anffodus, roedd hyn hefyd yn galluogi lleiafrif o ddarparwyr dysgu diegwyddor i weithredu yn erbyn ethos y rhaglen”. Roedd y cyfeiriad at weithredwyr diegwyddor yn ymwneud â sefyllfaoedd lle, er enghraifft:

[...] byddai'n rhaid i gwsmer dalu £50 ymlaen llaw a gallai dderbyn hyfforddiant a oedd yn werth [er enghraifft], £150, gan gostio £100 yn fwy i'r darparwr na'r £50 a gafodd gan y cwsmer. Gallai'r darparwr hawlio £200 gan y Llywodraeth, yn ogystal â'r £50 gan y cwsmer. Felly, byddai'r cwsmer wedi derbyn hyfforddiant gwerth tair gwaith yr hyn a dalodd, a gallai'r darparwr hawlio dwywaith yr hyn a gostiodd iddo ddarparu'r hyfforddiant. Nid oedd unrhyw wiriad nac archwiliad a fyddai wedi datgelu cam-drin systematig o'r fath ar y cynllun. Nid oedd unrhyw wiriad ar y darparwr i roi gwerth da am arian, ac nid oedd unrhyw gymhellant i'r cwsmer gwyno.¹

- 2.4 Roedd mater arall a nodwyd ar gyfer ILA yn ymwneud â'r gwahanol lefelau o gymorthdaliadau a chyfaint y ceisiadau cwrs a gyflwynwyd. Yr oedd rhai darparwyr yn cael cymorthdaliadau ar gyfer cyrsiau anghymwys oherwydd y dryswch cychwynol ynghylch cymhwyster, tra bod y broses ymgeisio a'r system ganolog ar gyfer asesu cymhwyster wedi methu sylwi ar y defnydd amhriodol o'r gostyngiad o 80 y cant.²

¹ [Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus \(2002\) Trydydd Adroddiad – Cyfrifon Dysgu Unigol, pwyllgor dethol, trydydd adroddiad](#)

² Ibid.

- 2.5 Ymhelaethodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) ymhellach ar rai o'r materion a ddaeth i'r amlwg mewn adroddiad dilynol yn nodi nifer o faterion, gan gynnwys³:
- Cynllunio a threialu gwael: Rhuthrwyd gweithrediad y cynllun. Arweiniodd yr heriau a adnabuwyd yn y peilot at newidiadau, ond datblygwyd a lanswyd y model newydd heb gael ei brofi.
 - Cred y byddai'r farchnad yn codi safonau ac yn arwain at ddarparwyr analluog ac aneffeithiol yn cael eu gyrru allan (a ddisgrifiwyd yn naif).
 - Arweiniodd cymhellion i ddarparwyr recriwtio dysgwyr at lawer o ddarparwyr yn ymateb gyda strategaethau marchnata ymosodol.
- 2.6 Roedd rhaglen ILA ddilynol (dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd) yn gweithredu yng Nghymru o 2003. I ddechrau, cynigiwyd lefelau cymorth mewn perthynas ag amgylchiadau unigolyn (o 100 y cant o'r costau cymwys i'r rhai ar Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Pensiwn hyd at 50 y cant o'r costau cymwys i'r rhai nad oeddynt yn derbyn budd-daliadau lles). Yna sefydlwyd newidiadau yn y rheolau cymhwyster ym mis Gorffennaf 2005, a arweiniodd at gyflwyno cyfraniad trothwy uchaf at hyfforddiant ac addysg y flwyddyn (£200 y flwyddyn i'r rhai oedd yn derbyn budd-daliadau a £100 y flwyddyn i'r rhai nad oeddent) i ymgymryd â dysgu hyd at Gymhwyster Cenedlaethol Lefel 3 (sy'n cyfateb i ddwy Lefel A).
- 2.7 Roedd y diwygiadau i'r rhaglen yn ymwneud â'r awydd i sicrhau "ffocws tynnach ar grwpiau dysgwyr difreintiedig i gynyddu "ychwanegedd" cyllid a system weinyddol dynnach", er bod y dystiolaeth yn awgrymu llwyddiant cymysg wrth gyflawni hyn. Pan ddechreuwyd y rhaglen yn wreiddiol yn 2003, roedd bron i ddwy ran o dair o ddysgwyr (63 y cant) yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig; fodd bynnag, gostyngodd y ffigur hwn i 45 y cant yn 2006-07 yn dilyn tynhau cymhwyster. I'r gwrthwyneb, cynyddodd y gyfran a oedd yn ddi-waith wrth gofrestru o 26.5 y cant o ddysgwyr i 40.8 y cant dros yr amserlen honno. Fodd bynnag, roedd y rhai a gofrestrodd yn 2006-2007 yn fwy tebygol o fod wedi ymgymryd â dysgu blaenorol yn y 12 mis diwethaf ac yn llai tebygol o feddu ar gymwysterau islaw Lefel 2 FfCChC na'r rhai a gofrestrodd yn 2003-2004. O ran dadansoddiad rhywedd, roedd

³ [Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus \(2003\) Cyfrifon Dysgu Unigol, pwyllgor dethol, degfed adroddiad.](#)

y rhaglen yn cael ei dominyddu gan fenywod, a oedd yn cynrychioli tua dwy ran o dair o'r rhai a gofrestrodd yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen.

2.8 Ymhlith y cyfranogwyr, nododd 75 y cant eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â dod o hyd i swydd newydd/well; ar ben hynny, nododd hanner y dysgwyr eu bod yn annhebygol neu yn bendant na fyddent wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu heb yr arian. Roedd yr ychwanegedd hwn yn canolbwyntio'n arbennig ar ddysgwyr:

- A oedd yn eu 50au
- A oedd yn ddi-waith ar adeg gwneud cais am eu Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru
- Nad oedd wedi ymgymryd ag unrhyw ddysgu o'r blaen am o leiaf bum mlynedd
- Yn meddu ar NVQ Lefel 1 fel eu cymhwyster uchaf neu heb unrhyw gymwysterau o gwbl ar adeg y cais.⁴

2.9 Ystyriwyd felly bod ILA Cymru yn “fodd rhagorol i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd – gan alluogi i'r rhai na fyddent wedi dysgu fel arall, ymgymryd â dysgu”.⁵ Serch hynny, daeth y rhaglen i ben yn 2007.

2.10 Yn 2010, cyhoeddodd Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU (UKCES) bapur⁶ ar gynigion ar gyfer menter PLA ymarferol a adeiladodd ar wersi gan ILA yn y DU. Nododd y papur y canlynol:

- Gall cynlluniau tebyg i PLA fod yn llwyddiannus wrth annog unigolion i fanteisio ar gyfleoedd dysgu na fyddent efallai wedi'u gwneud fel arall trwy ddarparu cymhelliant ariannol uniongyrchol i'r unigolyn.

⁴[Llywodraeth Cymru \(2007\) Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru: Y Pedwerydd Prif Adroddiad Gwerthuso, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd.](#)

⁵ [Individual Learning Accounts, Cedefop Panorama Series; 163 Luxembourg: Swyddfa Cyhoeddiadau Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd, 2009.](#)

⁶ Consulting in Place (2010) Personal Learning Accounts: Building on Lessons Learnt, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau.

- Mae cymorthdaliadau cyffredinol yn tueddu i ffafrio'r rhai sydd â sgiliau cymharol uchel eisoes ac nad ydynt yn darparu digon o gymhelliant i unigolion â sgiliau isel, incwm isel neu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel arall gymryd rhan.
- Byddai system dalebau neu gynllun credyd/benthyciad (gydag ad-daliadau yn ddibynnol ar incwm) yn fwy effeithiol wrth ddenu grwpiau a dangynrychiolir; fodd bynnag, mae rhaglenni wedi'u targedu yn dod â pheryglon cymhlethdod a biwrocratiaeth ormodol, a all fod yn wrthgynhyrchiol.
- Mae cydbwysu'r angen i wneud y gorau o fuddion dewis unigol ac argaeledd darpariaeth gyda'r angen i sicrhau bod dysgu â chymhorthdal o ansawdd derbyniol a/neu berthnasol i anghenion y farchnad lafur yn her enfawr.

2.11 Yn dilyn yr adolygiad, mae'r papur yn amlinellu cyfres o nodweddion eang ar gyfer gweithredu rhaglen PLA yn ymarferol, gan gynnwys:

- Hawl gyffredinol ar lefelau amrywiol yn ôl amgylchiadau personol, math o sgil a lefel, a ffactorau perthnasol eraill.
- Cymysgedd o grantiau a benthyciadau, gyda nenfwd ar werth cyfanredol cymhorthdal y wladwriaeth.
- Targedu i sicrhau cyfranogiad grwpiau economaidd-gymdeithasol sydd â thueddiad isel i ddechrau dysgu.
- Cyfeirio at wybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd uchel, wedi'i deilwra i'r unigolyn.
- Cyfraniadau cymedrol y wladwriaeth i ddechrau, gydag opsiwn integredig i ymgorffori ystod ehangach o gyllid y wladwriaeth ar gyfer dysgu, gan gynnwys prentisiaethau, ac o bosibl cyllid ar gyfer addysg uwch.
- Gweithio o fewn y systemau presennol i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ddysgu.

- 2.12 Mae'r awydd i ailgyflwyno PLA neu ILA yn adlewyrchu tuedd hirdymor o ostwng cyfranogiad (a chyllid) mewn addysg oedolion. Mae tystiolaeth o adroddiad [Social Market Foundation](#)⁷ yn dangos bod cyfranogiad mewn addysg oedolion wedi gostwng o 29 y cant yn 2004 i 15 y cant yn 2020. Ers 2010, y rhai sydd â'r cyrhaeddiad addysgol isaf (Lefelau NQF 0 -2) sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf mewn cyfranogiad (mewn termau canran). Yn ychwanegol, yn ddiweddar adroddodd [WCPP](#)⁸ bod nifer y dysgwyr sy'n oedolion mewn rhyw fath o ddarpariaeth AB yng Nghymru wedi gostwng o fwy na 177,000 yn 2013/14 i 109,000 yn 2019/20: gostyngiad o 38 y cant.
- 2.13 Efallai bod gostyngiad mewn cyllid grant refeniw ar gyfer y sector AB ynghyd â newid mewn dyraniad adnoddau i ddarpariaeth AB llawn amser (y tu hwnt i ddysgu oedolion rhan-amser)⁹ wedi dylanwadu ar y gostyngiad hwnnw mewn dysgu oedolion. Adnabu Arolwg Cenedlaethol (y DU) o Ddysgwyr sy'n Oedolion¹⁰ hefyd ddylanwadau ar y gostyngiad hwnnw mewn cyfranogiad:
- Cost (58 y cant o'r ymatebwyr).
 - Diffyg amser (42 y cant o'r ymatebwyr ond yn fwy cyffredin ymhlith dynion (46 y cant) na menywod (39 y cant)).
 - Yr anallu i ffitio dysgu o amgylch swydd (29 y cant o'r ymatebwyr ond yn fwy cyffredin ymhlith dynion (35 y cant) na menywod (16 y cant)).
 - Bywyd teuluol (25 y cant o'r ymatebwyr, gan gynyddu i 33 y cant o'r ymatebwyr benywaidd).

⁷ [Bhattacharya, A., Coffee, S., Norman, A. \(2020\) \[Adult\] education, education, education, Social Market Foundation.](#)

⁸ [Pember, S., et al. \(2021\) Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#)

⁹ Am ragor o fanylion, gweler: Archwilydd Cyffredinol Cymru (2017) 'Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach', Swyddog Archwilio Cymru.

¹⁰ [2010 Arolwg Cenedlaethol \(DU\) o Oedolion sy'n Dysgu.](#)

- 2.14 Yn Arolwg Addysg Oedolion 2016,¹¹ tra bod y drefn o ran nifer y rhwystrau yn aros yr un fath, roedd y rhwystrau'n fwy cyffredin ymhlith yr ymatebwyr, gyda dros hanner (54%) yr ymatebwyr yn nodi diffyg amser, 42 y cant yn nodi costau, a 34 y cant yn nodi cyfrifoldebau teulu/gofalu.¹²
- 2.15 Lle mae oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu, mae cyfranogiad wedi'i ddsbarthu'n anwastad. Mae oedolion mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch ddwywaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu na'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Mae'r rhai a adawodd addysg llawn amser yn 21 oed neu'n hŷn yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn dysgu na'r rhai a adawodd addysg yn 16 oed neu'n iau.¹³
- 2.16 At hynny, dengys tystiolaeth nad yw bron i hanner yr oedolion o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf wedi cael unrhyw hyfforddiant ers iddynt adael addysg llawn amser, a chredai 12 y cant o oedolion heb unrhyw gymwysterau y byddent yn debygol iawn o dderbyn dysgu/hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.¹⁴

Y Cyd-destun Polisi

- 2.17 I ddechrau, arweiniwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r materion hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy [Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol sy'n mynd â Chymru yn ei blaen](#) (a gyhoeddwyd yn 2017).¹⁵ Sefydlodd y strategaeth bedair thema allweddol a fyddai'n cyfrannu at ffyniant i bawb ac yn gwella llesiant pobl Cymru. Mae un thema yn cyd-fynd yn arbennig â'r rhaglen PLA - Uchelgeisiol ac yn Dysgu — gyda'r nod o “feithrin angerdd i ddysgu drwy gydol eu hoes” gyda thri amcan llesiant sylfaenol:
- Cefnogi pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial
 - Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes
 - Rhoi i bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid.

¹¹ Dylid nodi bod arolwg 2016 yn ymwneud â gwaith maes yn Lloegr yn unig a gofynnwyd y cwestiwn gan ddefnyddio mân newidiadau i'r geiriad.

¹² DoE (2018) Arolwg Addysg Oedolion 2016: Adroddiad Ymchwil, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

¹³ Ibid.

¹⁴ Centenary Commission on Adult Education (2021) yn Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2020) Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Mae amlygrwydd yr amcanion llesiant hyn yn sicrhau diben cyffredin rhwng amcanion y Cynllun a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) (2015), yn enwedig y nod sy'n gysylltiedig â Chymru Ffyniannus: “datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas”.¹⁶

- 2.18 Mae'r strategaeth hefyd yn nodi cyfres o gamau gweithredu sy'n sail i'r thema Uchelgeisiol a Dysgu, gan gynnwys “datblygu cynllun cyflogadwyedd newydd i Gymru gan ganolbwyntio ar anghenion amrywiol unigolion, ac yn ymatebol i anghenion sgiliau penodol pob rhan o'r wlad”.¹⁷
- 2.19 Cyn cyhoeddi'r Cynllun Cyflogadwyedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y [Cynllun Gweithredu ar yr Economi](#), a oedd yn cynnwys, fel un o'i cholofnau allweddol, yr awydd i “feithrin uchelgais ac annog dysgu am oes” ac, wrth wneud hynny, galluogi pobl yng Nghymru i ennill cymaint ag y gallant o ddysgu a gwaith. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn amlinellu'r uchelgais i “arfogi pawb â'r sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid”, ac unwaith eto yn cyfeirio at y Cynllun Cyflogadwyedd sydd ar ddod (ar y pryd).
- 2.20 Cyhoeddwyd y [Cynllun Cyflogadwyedd](#) yn y pen draw ym mis Mawrth 2018¹⁸ ac mae'n amlinellu rhai o'r heriau y mae poblogaeth oedolion Cymru yn eu hwynebu, gan ddisgrifio sut, ar y pryd, yr oedd 40 y cant o bobl yng Nghymru a oedd yn byw mewn tlodi mewn cyflogaeth.¹⁹ Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn disgrifio rôl a photensial dysgu gydol oes a datblygu sgiliau i gamu ymlaen yn eu gyrfa ac enillion uwch. Mae'r Cynllun hefyd yn sôn am y rôl y gall uwchsgilio'r gweithlu ei chwarae wrth gynyddu cyfraddau cynhyrchiant, rôl a chyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithwyr, pwysigrwydd ymateb i fylchau sgiliau cyfredol a rhagamcanol a pharatoi ar gyfer newid radical ym myd gwaith, a hefyd yr angen i unigolion gael mynediad at gyfleoedd datblygu sgiliau a dysgu gydol oes wrth weithio.

¹⁶ Sefydliad Dysgu a Gwaith (2016) Power to the People – The Case for Personal Learning Accounts, Sefydliad Dysgu a Gwaith, Caerlŷr.

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2020) Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

¹⁸ [Cynllun Cyflogadwyedd 2018](#).

¹⁹ SYG (2015) Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2015 Chwarter 2 data, Swyddfa Ystadegau Gwladol.

- 2.21 Mae cydnabyddiaeth hefyd yn y Cynllun o'r angen i symud oddi wrth system sgiliau sy'n cael ei gyrru gan ffactorau macro-gyflenwi a galw, sy'n tueddu i gyfyngu ar hyblygrwydd ac ymatebolrwydd darpariaeth sgiliau wrth ymateb i ofynion unigolion a'r economi ehangach.
- 2.22 Mewn ymateb i'r materion hyn, nododd y Cynllun Cyflogadwyedd yr ymrwymiad i dreialu rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) i weithwyr i ariannu ailhyfforddi galwedigaethol personol mewn sectorau lle mae prinder sgiliau.
- 2.23 Ar 20 Rhagfyr 2018, ailddatganodd cytundeb wedi'i ddiweddarau (i'r hyn a ddisgrifiwyd fel 'cytundeb blaengar' yn 2016) rhwng y Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg²⁰ yr awydd i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy ymrwymo i archwilio sut y gall Llywodraeth Cymru gyflwyno hawl newydd i ddysgu gydol oes yng Nghymru — buddsoddi mewn sgiliau, y mae ar bobl eu hangen drwy gydol eu hoes, er budd unigol, cymdeithasol ac economaidd.
- 2.24 Yn dilyn lansio'r rhaglen PLA, mae polisi Llywodraeth Cymru wedi cadw ei hymrwymiad i'r rhaglen gydag ehangu PLA wedi'i nodi yn y [Rhaglen Lywodraethu](#) ddiweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. At hynny, ym mis Mawrth 2022, nododd y [Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau](#) a oedd wedi'i ddiweddarau "meithrin diwylliant dysgu am oes" fel un o'i bum blaenoriaeth allweddol, gydag ehangu PLA yn cael ei ailadrodd yn y Cynllun hwnnw. Nododd yn benodol y bydd Llywodraeth Cymru yn:
- “Ehangu Cyfrifon Dysgu Personol i gefnogi gweithwyr i uwchsgilio neu ailsgilio i gael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd gwaith gyda chyflog uwch, ymateb i heriau allweddol i Gymru gan gynnwys cryfhau adnoddau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a galluogi unigolion i fanteisio ar gyfleoedd newydd mewn sectorau fel digidol, adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddadwy. Parhau i archwilio gyda Sefydliadau Addysg Bellach a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sut i wneud y mwyaf o'r ddarpariaeth a chynhyrchu'r budd mwyaf mewn ymateb i alw economaidd sy'n esblygu.”²¹

²⁰ [Cytundeb PW gyda'r Gweinidog Addysg](#) .

²¹ [Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogadwyedd 2022](#).

Cyllidebu ar sail rhyw

- 2.25 Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rhaglen PLA yn gyfle da i dreialu cyllidebu ar sail rhyw o fewn ei hymyriadau rhaglen. Defnyddiwyd y dull cyllidebu ar sail rhyw yn gyntaf fel rhan o fenter cyllidebu ar sail rhyw yn Awstralia ym 1984. Gorchmynnodd y fenter hon fod adrannau llywodraethol yn dadansoddi effaith eu cyllideb flynyddol a gwariant cyhoeddus ar fenywod a merched i sicrhau gwell dealltwriaeth ac sy'n newid pwyslais o effaith penderfyniadau polisi ar rywedd.²² Dilynwyd y fenter hon gan Bedwaredd Gynhadledd y Byd ar Fenywod yn Beijing yn 1995, lle pwysleisiodd Llwyfan Gweithredu Beijing yr angen i ystyried persbectif rhywedd ac anghenion menywod mewn polisiau a rhaglenni cyllidebol.²³ O ganlyniad i hyn, cynyddodd momentwm dull cyllidebu ar sail rhyw ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cenhedloedd Unedig a mwy na 80 o wledydd, yn fwyaf cyffredin yn Ewrop. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan O'Hagan (2018), er bod hyn wedi creu 'fframwaith normadol', mae cyllidebu ar sail rhyw wedi'i weithredu mewn amrywiaeth o ffyrdd ac, mewn rhai achosion, wedi'i weithredu'n wan.²⁴
- 2.26 Amlinellodd Gyngor Ewrop ddiffiniad sydd bellach wedi'i sefydlu'n dda o gyllidebu ar sail rhyw yn 2009. Mae hyn yn ystyried cyllidebu ar sail rhyw fel "asesiad ar sail rhyw o gyllidebau, gan ymgorffori persbectif rhywedd ar bob lefel o'r broses gyllidebol ac ailstrwythuro refeniw a gwariant i hyrwyddo cydraddoldeb ar sail rhyw".²⁵ Yn yr un modd, mae arolwg OECD 2016 o wledydd sy'n defnyddio cyllidebu ar sail rhyw yn disgrifio'r dull cyllidebu ar sail rhyw, y cyfeirir ato fel arall fel prif ffrydio rhywedd, fel proses o "ddylunio pob polisi cyhoeddus, a defnyddio offerynnau polisi, gyda hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn golwg".²⁶ Fel yr archwiliwyd yn astudiaeth yr OECD, bwriedir i'r dull hwn fod nid yn unig yn amldimensiwn ond hefyd yn egwyddor ganolog o lywodraethu cyhoeddus modern. O safbwynt yr OECD, mae tri 'chategori' o gyllidebu ar sail rhyw:

²² Stotsky, J. (2016) [IMF Working Paper, Gender Budgeting: Cyd-destun Cyllidol a Chanlyniadau Cyfredol, Gorffennaf 2016](#).

²³ Am fwy o fanylion ar hyn, cyfeiriwch at: [Cynhadledd Pedwerydd Byd y Cenhedloedd Unedig ar Fenywod](#).

²⁴ [O'Hagan, A., Klatzer, E. \(eds.\) Gender Budgeting in Europe, 2018](#).

²⁵ Cyngor Ewrop. Gender budgeting: practical implementation, Llawlyfr, Cyngor Ewrop, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Hawliau Dynol a Materion Cyfreithiol, 2009.

²⁶ Downes, R., Lisa von Trapp and Scherie Nicol (2016) 'Gender budgeting in OECD countries'. OECD Journal on Budgeting – Cyfrol 2016/3.

- Dyrannu adnoddau ar sail rhyw: Mae penderfyniadau polisi unigol a/neu ddyraniadau cyllid yn ystyried effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb rhywiol.
- Cyllidebau a asesir ar sail rhyw: Mae effaith y gyllideb gyfan yn amodol ar rywfaint o ddadansoddiad rhywedd.
- Cyllidebu ar sail anghenion rhywedd: Yn sail i benderfyniadau cyllidebol y mae asesiad blaenorol o anghenion rhywedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i adeiladu ar wybodaeth o ble mae anghydraddoldebau rhywedd yn bodoli, ac yn tynnu sylw at y meysydd polisi lle mae anghydraddoldebau rhywedd amlycaf.²⁷

2.27 Yng Ngham Un Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol Llywodraeth Cymru, tynnwyd sylw at ddiwygio prosesau cyllidebol fel elfen allweddol o'r newid gofynnol i sicrhau bod persbectif cydraddoldeb, a phrif ffrydio rhywedd, yn ganolog i benderfyniadau a pholisïau'r llywodraeth. Ym mis Mehefin 2019, cyflwynodd Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol²⁸ Llywodraeth Cymru gyfres o argymhellion i Drysorlys Cymru er mwyn hyrwyddo'r nod hwn. Argymhellodd yr adolygiad y dylai'r Trysorlys weithredu fel arweinydd “wrth ddatblygu a gweithredu cyllidebu ar sail rhyw ac y dylid diffinio a chyfathrebu hyn yn eang o fewn y llywodraeth a dylai capasiti penodol ar gyfer cyllidebu ar sail rhyw fod yn ei le o fewn y Trysorlys”.²⁹

2.28 I ymateb i'r argymhellion hynny, adolygodd Trysorlys Cymru brosiectau peilot a gynlluniwyd i asesu a fyddai'n gyfle da i dreialu'r dull cyllidebu ar sail rhyw. Er bod y cynllun peilot PLA eisoes wedi'i gynllunio, nododd rhanddeiliaid gan nad oedd y cynllun peilot wedi'i lansio'n ffurfiol, roedd yn ymddangos fel cyfle da i gymryd rhan mewn rhaglen o gam cynnar. Yn dilyn hyn, deallir bod Trysorlys Cymru a Llywodraeth Cymru yn parhau i asesu sut y gall dull cyllidebu ar sail rhyw helpu i adnabod gwahanol effeithiau posibl i gefnogi dysgu ar sut i flaenoriaethu a dyrannu adnoddau'n effeithiol i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol.

²⁷ Fel yr archwiliwyd yn adran 2.23, mae'r diffiniadau hyn o gyllidebu ar sail rhyw wedi'u hen sefydlu a'u cydnabod mewn cyd-destunau polisi ac academaidd, a dyna pam eu bod yn cael eu defnyddio yn yr ymchwil hon.

²⁸ Ymgwymerwyd gan Chwarae Teg. [Adroddiad Cryno Gwneud nid Dweud](#).

²⁹ [Chwarae Teg, Adroddiad Cryno Gwneud nid Dweud, Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru \(Camu Dau\), Mehefin 2019](#).

- 2.29 Dewiswyd y peilot PLA i dreialu'r dull cyllidebu ar sail rhyw oherwydd bod amseriad y peilot yn teimlo'n briodol. Canfuwyd bod gan y Cynllun berthnasedd ehangach i'r dull cyllidebu ar sail rhyw oherwydd ei ffocws ar gefnogi oedolion cyflogedig i gael cyflogaeth â chyflog uwch a sgiliau uwch mewn sectorau blaenoriaeth gydag effeithiau hysbys ar rywedd. Mewn cyfweiliadau, disgrifiodd rhanddeiliaid sut, yn y lle cyntaf, y deallwyd bod y peilot cyllidebu ar sail rhyw yn ddarn addysgol i hysbysu polisi diweddarach trwy archwilio sut y gallai'r dull hysbysu darpariaeth a'r effeithiau (bwriadol ac anfwriadol) y mae'n eu cynhyrchu.
- 2.30 Datblygwyd y rhaglen PLA cyn cynnwys a mabwysiadu'r dull cyllidebu ar sail rhyw. Gan hynny, bydd rhai cyfyngiadau yn asesiad y gwerthusiad o sut mae rhywedd wedi cael ei ystyried wrth ddylunio a chyflwyno'r rhaglen. Er enghraifft, mae'r dull cyllidebu ar sail rhyw traddodiadol yn gofyn am ymyrraeth i ddefnyddio lens rhywedd a chroestoriadol o'r cyfnod dylunio prosiect cychwynnol i sicrhau bod dyluniad ac amcanion prosiect yn ymwneud yn uniongyrchol ag anghydraddoldeb rhywedd ac yn ymateb iddo. Gan na chynhaliwyd hyn ar ddechrau'r cyfnod dylunio peilot PLA, bydd yn rhaid i'r gwerthusiad ystyried i ba raddau y cafodd y dull cyllidebu ar sail rhyw ei ymgorffori'n llwyddiannus wrth gyflawni ac wrth ddylunio'r cam pontio a cham cyflwyno'r rhaglen PLA.
- 2.31 Mae nodau'r cynllun peilot PLA a chynnwys dull cyllidebu ar sail rhyw yn cyd-fynd yn agos â'r dull rhywedd ar sail anghenion a amlinellir uchod. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, gan mai PLA yw'r rhaglen gyntaf gan Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r dull hwn, bod canfyddiadau o beth yw cyllidebu ar sail rhyw wedi datblygu dros amser. Adroddodd rhanddeiliaid fod datblygu'r dull hwn wedi bod yn iteraidd, gyda gwersi allweddol yn cael eu dysgu o ran sut i gymhwyso cyllidebu ar sail rhyw wrth gyflawni'n ymarferol. Dywedodd un o'r rhanddeiliaid:
- “Roedd gan Lywodraeth Cymru farn glir o beth oedd cyllidebu ar sail rhyw oherwydd ein bod yn gynnar iawn ar y daith — mae'r ddamcaniaeth yn hawdd iawn i'w deall, ond mae sut rydym yn ei chymhwyso i gyd-destun Llywodraeth Cymru yn beth gwahanol iawn.” (Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru)

2.32 Amlinellodd Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol Llywodraeth Cymru fod angen i'r dull cyllidebu ar sail rhyw a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru fod yn gadarn yn seiliedig ar ddata a "dealltwriaeth gyffredin o gysyniadau a diben".³⁰ Ar ben hynny, cydnabuwyd y byddai'r dull hwn yn cymryd cryn amser i'w ddatblygu gan y byddai'n gofyn am nodau ac amcanion clir ar y cyd. Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu, er bod y dull cyllidebu ar sail rhyw PLA wedi cyflwyno'r cysyniad yn gadarnhaol i raglenni Llywodraeth Cymru, bod angen amser ac adnoddau sylweddol o hyd i sicrhau bod dull a gweledigaeth unedig ar gyfer cyllidebu ar sail rhyw yng Nghymru yn bosibl.

³⁰ Ibid.

3. Dylunio a Gweithredu PLA

Crynodeb

- Dyfarnwyd y rhaglen beilot i ddau goleg AB, sef GLLM a Choleg Gwent, i brofi PLA mewn dwy ardal ddaearyddol wahanol.
- Roedd y rhaglen yn targedu tri sector blaenoriaeth i ddechrau, ond ehangwyd y rhain i bump i ymateb i faterion yn ymwneud â phrinder sgiliau a thuedd gynhenid o ran rhywedd o fewn y sectorau targed gwreiddiol.
- Ehangwyd y meini prawf cymhwyster ar gyfer PLA o ganol mis Mai 2020 mewn ymateb i bandemig COVID-19, gyda chyflogwyr yn dod yn gymwys i gael mynediad i'r rhaglen.
- Roedd y gyfradd ehangu yn arbennig o gyflym, gan gynyddu o raglen £2m yn y flwyddyn beilot i £17.4m yn 2021 -22. Sicrhawyd cyllid ychwanegol o £10m hefyd yn 2021-22, gan ddod â chyfanswm y rhaglen i £27.4m. Y gyllideb graidd ar gyfer 2022-23 yw £17.9m.
- Ni chynyddodd nifer y personél sy'n rheoli'r rhaglen yn Llywodraeth Cymru ac, o ganlyniad, mae'r tîm wedi profi anhawster gyda rhai agweddau ar lywodraethu'r rhaglen, gan gynnwys dadansoddi cynnydd a llwyddiant PLA.
- Arweiniodd colli staff LIC wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno i'r garfan ehangach o golegau AB at golli gwybodaeth am y dull cyllidebu ar sail rhyw, ac ni chanfuwyd ei bod wedi'i hymgorffori'n llawn wrth gyflwyno rhaglenni.
- Yn dilyn cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu, arweiniodd hyblygrwydd y ddarpariaeth at nifer uchel o gymeradwyaethau cyrsiau, gan ei gwneud yn heriol arfarnu'r cyrsiau a chostau cyrsiau.
- Croesawyd rowndiau ymgeisio cystadleuol ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol yn eang ac ystyriwyd eu bod yn arbennig o lwyddiannus.

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r adran hon yn archwilio'r ddamcaniaeth y tu ôl i ddyluniad y rhaglen PLA yn ogystal â phrofiad ei gweithredu cychwynnol a'i hesblygiad dros amser, yn enwedig ei thrawsnewidiad a'i hehangiad cyflym o'r peilot hyd at ei chyflwyno'n llawn.

Dylunio PLA

3.2 Ochr yn ochr â myfyrdodau ar ddysg o iteriadau blaenorol o raglenni PLA, cafodd dyluniad PLA hefyd ei hysbysu gan ymchwil ac ymarfer mewn mannau eraill, gan gynnwys o fodelau cymharydd yn Ffrainc a Singapore.³¹ Cynhaliodd y Sefydliad Dysgu a Gwaith adolygiad manwl, a oedd yn cynnwys gwaith maes gyda grwpiau o bobl³² ym Mangor a Chasnewydd.³³ Adnabu'r adolygiad mai darpariaeth gyfyngedig oedd ar gael mae'n debyg i'r rhai mewn cyflogaeth a allai fod yn ceisio newid gyrfaoedd. Ymhlith y canfyddiadau allweddol eraill oedd:

- Galw cryf am raglenni i gefnogi oedolion mewn gwaith i hyfforddi er mwyn symud gyrfaoedd neu wella eu gallu i ennill cyflog yn eu sector presennol.
- Yr angen i ddysgwyr sy'n oedolion ymgysylltu â PLA i gael sicrwydd y bydd buddsoddi amser a chost amser a dreulir yn dysgu yn arwain at gyfleoedd gwaith ystyrlon yn y farchnad lafur leol.
- Pwysigrwydd darpariaeth hyblyg (a gyflwynir ar y penwythnosau/gyda'r nos, ar-lein a thrwy ddysgu o bell) i helpu dysgwyr i gydbwyso gofynion swyddi presennol neu gyfrifoldebau teuluol/gofalu ac i osgoi cymryd rhan mewn darpariaeth sy'n effeithio ar eu cyflogaeth bresennol.
- Yr angen i gyflogwyr ymgysylltu ar bob cam o'r rhaglen i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ystyrlon ac yn arwain at ganlyniadau cyflogaeth da — gan ddangos pwysigrwydd deallusrwydd cryf y farchnad ar gyflogau, cyfleoedd cyflogaeth, a llwybrau camu ymlaen yn eu gyrfa posibl i unigolion.

Codwyd nifer o negeseuon allweddol gan gyflogwyr:

- Ar y pryd, roedd tuedd nad oedd cyflogwyr yn chwilio am staff newydd i dyfu eu busnes, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar recriwtio staff profiadol i fodloni problemau capasiti tymor byr (yn hytrach na recriwtio newidwyr gyrfa nad oes ganddynt y profiad angenrheidiol o bosibl).

³¹ OECD (2019) Cyfrifon Dysgu Unigol: Panacea or Pandora's Box, OECD.

³² Mae'r adroddiad yn nodi bod yr holl fynychwyr yn y grwpiau ffocws mewn gwaith, gyda chyflogau blynyddol yn llai na'r cyfartaledd canolrifol a lle yr adroddwyd bod amrywiaeth wedi'i sicrhau ar draws nifer o nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys oedran, rhywedd ac ethnigrwydd.

³³ Hagendyk, D. and Lees, C. (2019) Personal Learning Accounts Pilot, Learning and Work Institute.

- O fewn rhai sectorau a rhai rhannau o Gymru, gall cyfleoedd cyflogaeth sy'n uwch na'r trothwy cyflog fod yn gyfyngedig.
- Pwysigrwydd (o safbwynt cyflogwr) bod y rhaglen yn hyblyg, gyda'r rhestr o gyrсияu cymwys yn cael ei diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu galw'r farchnad lafur.

Opsiynau PLA

- 3.3 Adroddodd rhanddeiliaid fod amryw opsiynau wedi'u hystyried wrth ddylunio'r rhaglen PLA, gan gynnwys ymarfer caffael i ddarparwyr dysgu gyflwyno cais, cynllun benthyciad i oedolion (er bod pryderon ynghylch pa effaith y gallai hyn ei chael ar y galw am ddysgu), a darparu talebau (er bod pryderon yn parhau ynghylch gweithgaredd twyllodrus a darpariaeth dysgu sy'n sicrhau ansawdd).
- 3.4 Arweiniodd myfyrio ar y gwahanol ymchwil a phrofiad rhaglenni blaenorol o fath PLA at y casgliad y byddai adnoddau'n cael eu buddsoddi'n well trwy sefydliadau (colegau AB), yn hytrach nag yn uniongyrchol i unigolion. Teimlwyd y byddai unigolion yn cael eu gwasanaethu'n well trwy anogaeth (trwy ymgyrch farchnata) a chyfeiriad, e.e. trwy Gymru'n Gweithio ac wrth ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol.

Gweithredu'r rhaglen

Peilota PLA

- 3.5 Dewiswyd dau goleg AB i dreialu PLA gyda'r bwriad o brofi'r rhaglen mewn dau leoliad daearyddol. Roedd dyfarnu'r rhaglen beilot i GLIM a Choleg Gwent yn gyfle i brofi'r rhaglen mewn ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru yn ogystal ag ardaloedd trefol yn Ne Ddwyrain Cymru, a thrwy hynny ddarparu sbectwm defnyddiol i brofi effeithiolrwydd y rhaglen. At hynny, roedd modd profi'r rhaglen mewn dau sefydliad gwahanol, gyda Choleg Gwent yn un sefydliad gyda sawl campws ac ysgol, a GLIM yn sefydliad ymbarél o dri choleg sy'n aelodau.
- 3.6 Cafodd y rhaglen ei thargedu i ddechrau at dri sector blaenoriaeth (peirianeg, adeiladu a digidol) lle ystyriwyd bod swyddi gwag oherwydd prinder sgiliau a chyfleoedd gyrfa gyda photensial cyflog cryf ac, felly, gwerth ychwanegol uwch i'r economi yn fwyaf aciwt. Cafodd y sectorau hyn eu hehangu wedyn i gwmpasu sectorau blaenoriaeth ychwanegol iechyd a gwasanaethau ariannol.

Cyllidebu ar sail rhyw

- 3.7 O fewn y cynllun peilot PLA, mynychodd cynrychiolwyr o Drysorlys Cymru gyfarfodydd grŵp llywio i hysbysu partneriaid cyflenwi o'r dull o gyllidebu ar sail rhyw. Disgrifiodd rhanddeiliaid yr elfen hon fel agwedd allweddol ar weithredu'r rhaglen, gan ei bod yn caniatáu i'r colegau addysg bellach a rhanddeiliaid drafod pwysigrwydd cynhwysiant o fewn y rhaglen. Edrychodd y colegau addysg bellach a rhanddeiliaid hefyd ar yr anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu o ran y dull cyllidebu ar sail rhyw, gan dynnu sylw'n arbennig at y sectorau blaenoriaeth a ddominyddir gan ddynion a oedd yn ganolbwynt o fewn PLA. O fewn hyn, bu colegau addysg bellach a rhanddeiliaid yn archwilio pwysigrwydd agwedd datblygu sgiliau'r rhaglen a sut y gallent hyrwyddo cyfleoedd i ystod eang o gyfranogwyr er mwyn osgoi bod ochr datblygu sgiliau'r rhaglen yn ymddangos yn 'canolbwyntio ar ddynion'.
- 3.8 Adroddodd rhanddeiliaid fod darparu cyrsiau galwedigaethol i uwchsgilio unigolion mewn ffordd a oedd yn gysylltiedig â blaenoriaethau RSP a thrwy lens rhywedd croestoriadol yn gofyn am newid diwylliannol sylweddol ar ran colegau. Felly, roedd rhanddeiliaid o'r farn bod ymgysylltu â cholegau AB ar ddechrau gweithredu'r PLA yn hanfodol i sicrhau 'prynu i mewn' i'r rhaglen a'r dull cyllidebu ar sail rhyw.
- 3.9 Yn draddodiadol, mae sectorau blaenoriaeth gwreiddiol y rhaglen (adeiladu, peirianeg a TGCh) yn cael eu dominyddu gan ddynion. Arweiniodd hyn, fel y cydnabu rhanddeiliaid, at ystod o feirniadaeth allanol, gan ei bod yn ymddangos bod hyn yn cael ei gam-linio â nodau dull cyllidebu ar sail rhyw lle defnyddir lens rhywedd a chroestoriadol o'r dechrau i sicrhau bod dyluniad a nodau prosiect yn cysylltu'n uniongyrchol ac yn ymateb i anghydraddoldeb rhywiol. Cafwyd ehangiad yn y sectorau blaenoriaeth:
- “[Fe wnaethom gynnwys] [sector —] iechyd - yn draddodiadol mae'n fwy benywaidd. Pe byddem yn ei wneud eto, byddem yn sicrhau bod mwy o gydbwysedd, ond mae hynny wedi'i gywiro rhywfaint. Mae lletygarwch a chyllid nawr hefyd i sicrhau bod cymysgedd eang, a hefyd y peth allweddol oedd mai'r sectorau oedd yno oedd y sectorau blaenoriaeth.” (Cyfweliadau â rhanddeiliaid)

3.10 Yn draddodiadol, mae iechyd a lletygarwch yn sectorau â chyflog is na pheirianeg a TGCh. Felly, er bod ystod ehangach o sectorau blaenoriaeth wedi'u cynnwys yn y rhaglen, gallai cynnydd a llwyddiant mewn gwahanol sectorau amrywio.

Pontio a chyflwyno PLA

3.11 Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gweithredwyd ehangu meini prawf cymhwyster ar gyfer PLA (o ganol mis Mai 2020), gan arwain at y rhaglen PLA yn agored i unrhyw weithwyr ar ffyrlo, waeth beth fo'u cyflog. Ym mis Mehefin 2020, dywedodd Llywodraeth Cymru fod PLA “yn gwneud cynnydd da, gyda dros 1,250 o geisiadau (ar ddiwedd Mehefin 2020) rhwng y ddau goleg [peilot], gyda chyrsgiau a chymwysterau'n cael eu darparu yn amrywio o gymwysterau gwerthwr³⁴ i gymwysterau lefel 4”.³⁵

3.12 Yna, o fis Awst 2020, cyflwynwyd y rhaglen PLA mewn 13 o golegau AB ledled Cymru ac roedd ar gael i unigolion sy'n byw yng Nghymru ac sydd naill ai'n:

- Bobl gyflogedig sy'n ennill llai na'r incwm canolrifol (£26,000),³⁶ neu
- Gweithwyr ar ffyrlo, neu
- Weithwyr ar gontractau dim oriau, neu
- Staff asiantaeth, neu
- Mewn perygl o gael eu gwneud yn ddi-waith, neu
- Unigolion cyflogedig sydd wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan yr economi, e.e. o fewn y sectorau lletygarwch neu o fewn yr economi sylfaenol.

3.13 Ystyriwyd opsiynau eraill hefyd o ran ehangu cymhwyster, gan gynnwys y di-waith, cael gwared ar y trothwy cyflog, a gofalwyr llawn amser. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch gallu'r rhaglen i ymateb i lefel y galw y byddai hyn yn ei greu.

³⁴ Mae cymwysterau gwerthwr fel arfer yn gymwysterau sy'n gysylltiedig â chyflogwr neu system fasnachol benodol.

³⁵ Cyngor Gweinidogol Llywodraeth Cymru.

³⁶ Cynyddwyd y trothwy wedyn i £29,534 yn 2021.

- 3.14 Deallir bod diwygiadau i gymhwyster “wedi arwain at gynnydd hynod gadarnhaol yn nifer yr ymholiadau a cheisiadau am y cyrsiau/cymwysterau”.³⁷ Yn wir, nododd randdeiliaid ddechrau cymharol araf i'r rhaglen yn y cyfnod peilot; fodd bynnag, arweiniodd y pandemig ac ehangu cymhwyster at gynnydd cyflym mewn ceisiadau — adroddwyd bod ceisiadau i Goleg Gwent, er enghraifft, wedi cynyddu o 20 yr wythnos i 300 y dydd.
- 3.15 Mae'r cynnydd mewn cyfranogiad dysgu yn y rhaglen PLA yn dilyn COVID-19 yn y DU yn adlewyrchu cynnydd mwy cyffredinol mewn cyfranogiad oedolion mewn darpariaeth ddysgu. Gwelir hyn yn fwyaf diweddar trwy arolwg o gyfranogiad oedolion mewn dysgu a ymgysylltodd â thua 5,000 o oedolion o bob rhan o'r DU (gwaith maes a gynhaliwyd ym mis Hydref 2021).³⁸ Mae arolwg 2021 yn dangos y gyfradd cyfranogiad uchaf (cyffredol a diweddar) mewn dysgu mewn 20 mlynedd. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut y gallai hyn fod yn berthnasol i bandemig COVID-19, gyda phobl yn myfyrio ar eu nodau gwaith a gyrfa a/neu'n datblygu diddordebau newydd.³⁹

Cyllidebu ar sail rhyw

- 3.16 Er bod cyflwyno'r ddarpariaeth yn gyflym yn angenrheidiol ac wedi cael croeso, o ystyried pandemig COVID-19, nododd rhanddeiliaid fod cyllidebu ar sail rhyw yn dod yn llai amlwg. Adroddodd dros hanner staff coleg addysg bellach a gyfwelwyd yng ngham olaf y gwerthusiad hwn mai ychydig o wybodaeth a roddwyd iddynt am y dull cyllidebu ar sail rhyw a/neu nad oeddent yn siŵr sut yr oedd yn berthnasol yn ymarferol i'w cyflawni. Mewn lleiafrif o achosion, dywedodd staff eu bod wedi dod yn fwy ymwybodol yn ddiweddar o'r dull cyllidebu ar sail rhyw oherwydd bod staff Llywodraeth Cymru yn rhoi cyflwyniadau ychwanegol ar y pwnc yng nghamau olaf y rhaglen. Mae'n bosibl, wrth gyflwyno PLA ôl-beilot, nad chafodd y dull cyllidebu ar sail rhyw ei egluro na'i drafod yn ddigonol gyda cholegau AB, gan arwain at ddealltwriaeth gyfyngedig o sut i ddefnyddio'r dull yn ymarferol.

³⁷ PLA Papurau Cynghori Gweinidogol (heb eu cyhoeddi).

³⁸ Hall, S., Jones, E. and Evans, S. (2021) Adult Participation in Learning Survey 2021, Learning and Work Institute.

³⁹ Fodd bynnag, dylid nodi bod yr arolwg yn cynnwys newid yn y dull cyflwyno (o'r ffôn i ar-lein), sy'n golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau o flynyddoedd blaenorol.

3.17 Awgrymodd rhanddeiliaid, oherwydd trosiant staff, na wnaeth cyflwyno'r rhaglen PLA yn ehangach a datblygu ffrwd ELA o gefnogaeth ac arweiniad ynghylch cyllidebu ar sail rhyw erioed drosi o ddisgrifiadau damcaniaethol a chyffredinol i gyngor ymarferol a disgwyliadau clir. Fel yr amlinellir yn Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol Llywodraeth Cymru, mae dull cyllidebu ar sail rhyw yn cymryd cryn amser i'w ddatblygu, gan ei fod yn gofyn am nodau ac amcanion clir a chyffredin. Pan fo dull cyllidebu ar sail rhyw yn cael ei fabwysiadu mewn cynlluniau pilot rhaglenni yn y dyfodol, dylid pennu nodau ac amcanion clir, ynghlwm wrth y dull a thu hwnt i wybodaeth ddamcaniaethol, cyn gweithredu'r rhaglen.

Ymgysylltu â chyflogwyr ac 'ELA'

3.18 O fis Medi 2020, daeth cyflogwyr a gafodd eu heffeithio'n andwyol gan y pandemig a'r cyfyngiadau dilynol yn gymwys ar gyfer y rhaglen drwy ffrwd ELA. Ceisiodd y ffrwd ELA alluogi cyflogwyr i uwchsgilio/aillsgilio eu gweithlu i fodloni heriau gofynion gweithredu newydd yn ystod ac ar ôl COVID-19. Disgwyliwyd felly y byddai llawer o'r ddarpariaeth yn gysylltiedig â rhoi'r sgiliau a'r arbenigedd sy'n gysylltiedig ag arferion gwaith digidol ac o bell i weithwyr (ac felly cyflogwyr).

3.19 Er mwyn darparu adnoddau ar gyfer cyflwyno ac ehangu PLA, defnyddiodd Llywodraeth Cymru adnoddau a neilltuwyd yn flaenorol i'r Gronfa Datblygu Sgiliau (SDF). Wedi'i gyflwyno yn 2018/19, galluogodd y SDF y sector AB i ddatblygu darpariaeth a oedd yn ceisio mynd i'r afael â bylchau sgiliau penodol i swyddi ar lefel ranbarthol, fel y nodwyd gan RSP. Ceisiodd y SDF ddarparu darpariaeth hyblyg, ymatebol ac i gefnogi unigolion cyflogedig a di-waith a allai ymgymryd â'r dysgu yn llawn amser neu'n rhan-amser. Roedd y dysgu'n cynnwys darpariaeth AB gyffredinol, cymwysterau gwerthwyr, a NVQs yn y gweithle. Felly roedd tebygrwydd clir rhwng y rhaglenni, a thrwy hynny roi'r cyfle i alinio'r PLA a'r SDF fel un rhaglen. Er mwyn helpu i hwyluso trosglwyddiad llyfn o'r rhaglen i PLA, cafodd rhai cyrsiau SDF eu cymeradwyo ymlaen llaw i'w defnyddio yn y rhaglen PLA, sy'n un o'r ffactorau y tu ôl i'r cynnydd cyflym yn nifer y cyrsiau cymwys trwy PLA, tra bod dysgwyr presennol yn gallu parhau â'u dysgu trwy'r rhaglen PLA.

- 3.20 Cymeradwywyd ELA i ddechrau ar gyfer blwyddyn gyntaf cyflwyno rhaglenni (o fis Medi 2020) yn unig a'i gadw ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021/22 i gydnabod “yr heriau parhaus a achosir gan Covid-19 a'r cyfleoedd sy'n deillio o benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd”. Nid yw ffrwd ELA y rhaglen wedi'i symud ymlaen i flwyddyn academiaidd 2022/23.
- 3.21 Cododd nifer o randdeiliad bryderon yn gysylltiedig â ffrwd ELA y rhaglen mewn perthynas â'r graddau yr oedd y ddarpariaeth yn gorgyffwrdd ac, felly, yn cystadlu â'r ddarpariaeth bresennol ac yn enwedig yr hyn sy'n gysylltiedig ag uwchsgilio gweithwyr trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Disgrifiodd rhanddeiliaid werth y rhaglen cyllid ôl-Ewropeaidd, pan nad yw'r ymyriadau sy'n bodoli eisoes ar waith mwyach; fodd bynnag, mae rhoi'r gorau i ffrwd ELA yn cyd-fynd yn fras â chau'r mwyafrif o ymyriadau ESF o'r math hwn (gydag ymyriadau fel arfer yn cau yn ystod y chwe mis nesaf).

Cyllid

- 3.22 Roedd cam peilot y rhaglen PLA werth £4m, wedi'i rannu'n gyfartal rhwng y ddau goleg AB dros y cyfnod o ddwy flynedd. Roedd cyflwyno'r rhaglen yn gynnar (ac felly terfynu'r cynllun peilot) yn golygu mai dim ond £2m o'r cyllid ar gyfer y cynllun peilot oedd wedi'i ddyrannu.
- 3.23 Yn dilyn cyflwyno'r rhaglen, ategwyd at y dyraniad blynyddol o £2m i'r colegau AB peilot drwy drosglwyddo £10m o'r Gronfa Datblygu Sgiliau (SDF) i greu rhaglen £12m. Mae dwy elfen i'r dyraniad SDF: roedd y dyraniad craidd yn waddol o'r rhaglen SDF ac yn adlewyrchu cario dyraniadau o'r rhaglen honno i PLA, tra bod y dyraniad ychwanegol yn seiliedig ar fformiwla debyg i fformiwla'r dyraniad ar gyfer darpariaeth AB ran-amser, wedi'i chysylltu â niferoedd dysgwyr ym mhob coleg a phoblogaeth lleol.
- 3.24 Daeth arian ychwanegol ar gael yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21 i dargedu'r sectorau blaenoriaeth cenedlaethol ar gyfer PLA. Dyrannwyd yr arian ychwanegol (gwerth £3.05m y flwyddyn yn 2020/21 a 2021/22) i golegau addysg bellach drwy ddyraniad cyllid tebyg. Mae Tabl 3.1 isod yn cyflwyno'r dosbarthiad blynyddol o gronfeydd craidd ac ychwanegol gan goleg AB ym mlynnyddoedd academiaidd 2020/21 a 2021/22.

Tabl 3.1: Dyraniadau cyllid PLA yn ôl coleg AB

Coleg	Dyranriad Blynyddol Cychwynnol 20/21 & 21/22 (£)	Dyranriad Blynyddol Ychwanegol 20/21 & 21/22 (£)	Cyfanswm Dyranriad Blynyddol 20/21 & 21/22 (£)	Canran y Gyllideb
Coleg Pen-y-bont	1,085,268.72	156,183.55	1,241,452.27	8.2%
Coleg Caerdydd a'r Fro	2,347,857.14	444,932.16	2,792,789.30	18.6%
Coleg Cambria	1,071,467.22	367,289.28	1,438,756.50	9.6%
Coleg Gwent	1,372,430.72	394,659.79	1,767,090.51	11.7%
Coleg Sir Gâr	551,279.93	165,141.73	716,421.66	4.8%
Coleg y Cymoedd	646,577.20	258,369.70	904,946.90	6.0%
Coleg Gŵyr Abertawe	815,530.45	192,026.37	1,007,556.82	6.7%
Grŵp Llandrillo Menai	2,072,444.80	319,083.77	2,391,528.57	15.9%
Grŵp NPTC	1,136,488.65	254,423.20	1,390,911.85	9.2%
Coleg Merthyr Tudful	258,446.50	46,015.00	304,461.50	2.0%
Coleg Sir Benfro	330,767.96	93,829.96	424,597.92	2.8%
Addysg Oedolion Cymru	311,440.71	258,045.51	569,486.22	3.8%
Coleg Dewi Sant		100,000.00	100,000.00	0.7%
Cyfanswm	12,000,000	3,050,000	15,050,000	100.0%

- 3.25 Cyfanswm y gyllideb a oedd ar gael ar gyfer 2021/22 oedd £17.39m. Cadwodd Llywodraeth Cymru £2.34m ar gyfer blaenoriaethau wedi'u targedu, marchnata a gwerthuso, tra bod £1.97m o gyfanswm y gyllideb ar gael i dargedu sectorau blaenoriaeth cenedlaethol. Cafodd yr arian ei dargedu at sectorau gwyrdd/sero-net a chafodd ei ddyrannu drwy broses ymgeisio gystadleuol, gyda chyllid yn cael ei ddyfarnu yn seiliedig ar y cyrsiau, y cymwysterau, y costau, a nifer targed y dysgwyr yr oedd colegau addysg bellach wedi cynnig eu cyflwyno. Sicrhaodd Coleg Gŵyr dros draean (38 y cant) o'r cyllid hwnnw, tra bod Coleg Sir Gâr (31 y cant) a Choleg Caerdydd a'r Fro (19 y cant) hefyd wedi llwyddo i sicrhau cyfran sylweddol o'r adnoddau oedd ar gael.
- 3.26 Darparwyd dyranriad dilynol o £9.9m ym mis Rhagfyr 2021 i golegau wneud cais amdano mewn ymateb i anghenion sectoraidd o fewn:

- Adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddadwy
- Logisteg (yn enwedig cerbyd nwyddau trwm (HGV) a gyrru cerbyd nwyddau hir (LGV))
- Lletygarwch
- Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch
- Y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Sicrhodd Coleg Sir Gâr bron i draean o'r gyllideb hon (33%), tra bod Grŵp NPTC wedi sicrhau 21% a Choleg Gŵyr Abertawe 15%.

3.27 Gyda'i gilydd, arweiniodd y dyraniadau atodol o gyllid at ehangu'r rhaglen PLA yn gyflym o gyllideb flynyddol o £2m yn 2019/20 i raglen o £27m ym mlwyddyn academaidd 2021/22 ac roedd yn adlewyrchu'r angen i ymateb yn gyflym i'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan economi Cymru.

Astudiaeth achos: Gwella sgiliau ar gyfer yr economi werdd newydd

Roedd John yn drydanwr cymwys a oedd yn ceisio symud ymlaen yn ei rôl bresennol a datblygu sgiliau yn y diwydiant gosod gwefrydd cerbydau trydan sy'n tyfu. Cafodd ei annog a'i gefnogi gan ei gyflogwr ond roedd ef hefyd yn gadarnhaol am y manteision posibl i'w ragolygon gyrfu ei hun yn y dyfodol. Gwnaeth gais i astudio Dyfarniad Lefel 3 EAL (Excellence Achievement & Learning Ltd) yng Ngofynion Gosod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan (a gyflwynwyd trwy ddarparwr hyfforddiant allanol).

“Roedd y cwrs a ariennir gan PLA yn fuddiol iawn i mi a'r cwmni ac roedd yn gyfle gwych.” Roedd angen y dystysgrif arno i symud ymlaen yn ei yrfa ac roedd yn gallu cael mynediad at y cwrs o fewn pythefnos i wneud cais amdano. Gallai gwblhau'r cwrs yn ystod y dydd ac yn ystod yr wythnos oherwydd ei fod yn cael ei gefnogi gan ei gyflogwr i ddilyn y cwrs, a oedd yn golygu nad oedd yn ymgymryd ag unrhyw oriau ychwanegol.

Dywedodd John, pan gwblhaodd y cwrs, ei fod wedi cael cydnabyddiaeth gadarnhaol gan ei reolwr a'i gyfoedion. Nawr ei fod wedi gorffen y cwrs, mae wedi dod yn arbenigwr yn ei weithle, sydd wedi cefnogi ei allu i symud ymlaen yn ei yrfa. Roedd John yn hynod gadarnhaol am y cyfle y mae'r cwrs hwn yn ei gynnig i'r diwydiant adeiladu, a dywedodd ei fod yn rhoi dyheadau cliriach iddo yn ei yrfa.

Llywodraethu

- 3.28 Er mwyn helpu i ddatblygu'r cynllun peilot PLA, sefydlwyd grŵp prosiect. Roedd y grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y ffordd orau o ddatblygu'r peilot. Roedd yn cynnwys colegau AB, y Sefydliad Dysgu a Gwaith, Cymru'n Gweithio, a swyddogion Llywodraeth Cymru. Tua diwedd y cyfnod peilot, sefydlwyd grŵp gweithredu, a oedd yn gweithredu trwy gydol y cyfnod pontio ac yna trwy'r misoedd cychwynol yn dilyn cyflwyno'r rhaglen (hyd at fis Rhagfyr 2020). Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob coleg AB, yr RSP, a Chymru'n Gweithio ynghyd â Llywodraeth Cymru. Canmolodd rhanddeiliaid y dull hwn yn eang, gyda cholegau'n ei ddisgrifio fel llwybr defnyddiol i gyflwyno barn a siapiaio dyluniad y rhaglen ac i helpu i archwilio siwrneion cwsmeriaid trwy'r rhaglen.
- 3.29 Arweiniodd newid mewn personél o fewn tîm Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â graddfa gyflym y rhaglen at rywfaint o fwlch yn y cyfarfodydd hyn. Cafodd y rhain eu hail-sefydlu wedyn yng ngwanwyn 2021 — gyda newid i gyfarfodydd rhanbarthol rhwng tîm y rhaglen PLA gan Lywodraeth Cymru, colegau AB, a'r RSP priodol i drafod materion a risgiau a rhannu blaenoriaethau neu fylchau yn y ddarpariaeth yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.
- 3.30 Roedd dylanwad pellach ar y gallu i gynnal y model llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r cwota o staff yn ymwneud â rheoli'r rhaglen PLA o fewn Llywodraeth Cymru. I ddechrau, roedd y tîm yn cynnwys arweinydd polisi ar gyfer y rhaglen; fodd bynnag, roedd bwlch o chwe mis yn y rôl honno ar ddechrau 2021 cyn sicrhau rhywun arall. Cafodd y swydd ei llenwi wedyn tan fis Gorffennaf 2022. Ochr yn ochr â'r rôl honno, bu Uwch Reolwr PLA yn gyson drwy gydol y rhaglen yn ogystal â chymorth gweinyddol.
- 3.31 Nid yw'r tîm wedi sicrhau unrhyw ehangu ystyrlon o'r hyn a neilltuwyd i'r rhaglen yn ystod y cyfnod peilot. Ffactor dylanwadol yn y diffyg ehangu mewn personél fu rhewi recriwtio yn Llywodraeth Cymru, gan gyfyngu ar y gallu i ehangu nifer y staff a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen, ac adleoli staff i ymateb i'r heriau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Deallir, fodd bynnag, fod rheolwr rhaglen wedi'i benodi'n ddiweddar (Hydref 2022).

3.32 Mae lefel yr adnoddau a neilltuwyd i reoli'r rhaglen wrth iddi gynyddu o £2m i raglen graidd o £17.9m y flwyddyn (gyda £9.9m ychwanegol o gyllid ar gael yn 2021–22) wedi effeithio ar lywodraethu'r rhaglen mewn nifer o ffyrdd:

- Mae wedi ymestyn gallu'r tîm i werthuso ceisiadau am gyrsiau newydd mewn modd prydlon ac ymatebol.
- Mae wedi cyfyngu ar allu'r tîm i gasglu, dadansoddi a chynnal adroddiadau rheoli a monitro ar gynnydd a llwyddiant cymharol y rhaglen ac, felly, i rannu'r wybodaeth honno gyda phartneriaid allweddol.
- Mae wedi cyfyngu ar y gallu i gyfathrebu'n rheolaidd â phartneriaid coleg addysg bellach.
- Mae wedi cyfyngu ar allu'r tîm i fyfyrwyr a mireinio canllawiau rhaglenni a rennir yn flynyddol gyda cholegau AB.

3.33 Bydd yr adnoddau staffio ychwanegol a sicrhawyd yn ddiweddar yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn; fodd bynnag, mae risg o hyd a all y rhaglen weithredu'n effeithiol yn y modd ymatebol, hyblyg a ddymunir gyda'r cwota staffio.

Systemau gwybodaeth reoli

3.34 Darparwyd canllawiau yn flynyddol i golegau AB o ran natur y wybodaeth sydd i'w chasglu ar gyfer y rhaglen PLA. Fodd bynnag, mae cyflwyno a gweithredu PLA yn gyflym wedi golygu bod angen rhai addasiadau yn ystod y flwyddyn i natur y data a gasglwyd. Er bod llawer o wybodaeth yn cael ei chasglu drwy'r LLWR, ar gyfer y rhan fwyaf o golegau mae hefyd wedi golygu bod angen datblygu systemau MI pwrpasol i gasglu data nad yw'n ymwneud â LLWR. Mae hyn fel arfer wedi arwain at ôl-groniad yn y wybodaeth a gasglwyd neu at fylchau gwybodaeth.

3.35 Er bod rhesymeg glir y tu ôl i gasglu data nad yw'n LLWR o safbwynt monitro a gwerthuso, nid yw hyn yn amlwg yn y canllawiau. Nid oes eglurder yn y canllawiau ar gasglu gwybodaeth fonitro nad yw'n LLWR ac mae'n agored i'w dehongli. Mae'n ymddangos bod hyn wedi dylanwadu ar lefel yr anghysondeb a welir yn y data sy'n cael ei gasglu.

- 3.36 Mae'r canllawiau hefyd yn disgrifio sut mae colegau addysg bellach yn destun trefniadau monitro tymhorol lle caiff data ei rewi ar ddiwedd pob tymor yn ogystal ag adolygiad gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r tymor canlynol. Disgrifir yr adolygiadau yn y canllawiau fel rhai sy'n helpu Llywodraeth Cymru i adnabod partneriaid cyflenwi ac a oes angen ailddosbarthu unrhyw adnoddau rhwng colegau er mwyn hwyluso gwariant mor agos â phosibl, gan na ddylid trosglwyddo adnoddau i'r flwyddyn academaidd ganlynol.

Cyllidebu ar sail rhyw – dylunio

- 3.37 Adroddodd rhanddeiliaid fod colli staff Llywodraeth Cymru wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno i'r garfan ehangach o golegau AB hefyd wedi arwain at golli gwybodaeth ynghylch y dull cyllidebu ar sail rhyw. Pan gyflwynwyd PLA i golegau eraill, ni welwyd bod y dull cyllidebu ar sail rhyw wedi'i ymgorffori'n llawn wrth gyflwyno rhaglenni. O ganlyniad i gyfuniad o ymateb brys i COVID-19, partneriaid cyflenwi newydd, a diffyg gwybodaeth staff a rhaglen wrth gefn am gyllidebu ar sail rhyw, gwelwyd bod y dull gweithredu yn llai o flaenoriaeth.
- 3.38 Gan fyfyrion ar ddata monitro a gasglwyd ar gyfer PLA, nododd rhanddeiliaid a staff colegau AB y byddai'r rhaglen yn elwa o gefnogi a grymuso partneriaid cyflenwi i archwilio eu gwybodaeth fonitro eu hunain trwy lens rhyngadrannol i ddatblygu eu dulliau cyllidebu ar sail rhyw. Byddai hyn yn cynnwys partneriaid cyflenwi yn ystyried yn rheolaidd ac yn feirniadol ar eu hymgysylltiad â chyrsgiau drwy nodwedd ddemograffig ac archwilio a allai a sut y gallai gweithgareddau cymorth ac ymgysylltu ychwanegol gefnogi unigolion i gymryd rhan. Trwy gefnogi partneriaid cyflenwi i greu'r ddolen adborth hon i ddechrau, byddai'r rhaglen yn grymuso colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant i gymryd perchnogaeth o gyllidebu ar sail rhyw a hwyluso newid ymddygiad yn y tymor hwy.

Sicrhau cyrsiau newydd

- 3.39 Mae colegau addysg bellach yn nodi cyrsiau newydd ar gyfer y rhaglen PLA mewn sawl ffordd. Mae gan o leiaf bedwar o'r colegau fynediad at offer gwybodaeth y farchnad lafur (EMSI⁴⁰ yn fwyaf cyffredin) ac mae hyn fel arfer yn cael ei ategu gan adborth gan fforymau neu fyrddau cynghori cyflogwyr a thrwy'r RSP (yn benodol Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau priodol pob RSP). Mae cywirdeb gwybodaeth y farchnad lafur wrth ddeall lle mae prinder sgiliau yn bodoli ar hyn o bryd a lle bydd twf swyddi yn debygol o godi yn y dyfodol agos yn allweddol i gyflawni amcanion y rhaglen PLA. Fodd bynnag, mae sectorau twf yn arbennig o heriol; er enghraifft, mae'r economi werdd wedi'i hadnabod fel sector blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer arian PLA ers dechrau 2021. Fodd bynnag, dengys [data SYG](#) nad oedd unrhyw newid sylweddol mewn cyflogaeth na throsiant o fewn yr economi carbon isel ac ynni adnewyddadwy rhwng 2014 a 2020, tra bod dadansoddiad o hysbysebion swyddi gwyrdd yn awgrymu bod nifer y swyddi gwyrdd a hysbysebwyd yng Nghymru wedi mwy na dyblu mewn blwyddyn.⁴¹ Mae'r negeseuon cymysg ar y farchnad lafur a'r sectorau blaenoriaeth yn dangos rhai o'r anawsterau a wynebir.
- 3.40 Tan yn ddiweddar (gaeaf 2021/22), roedd proses tri cham yn gysylltiedig â sicrhau cymeradwyaeth i gyrsiau newydd yn y rhaglen PLA. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys y coleg addysg bellach yn llenwi ffurflen gais. Mae'r cais yn cael ei adolygu gan yr RSP, a'i gylch gwaith yw penderfynu i ba raddau y mae'r cwrs yn diwallu anghenion yr economi yn ei ranbarth. Yna caiff argymhelliad yr RSP ynghylch a ddylid cymeradwyo'r cwrs ai peidio ei rannu â Llywodraeth Cymru (ynghyd â'r rhesymau i'w gefnogi). I ddechrau, roedd yn ofynnol i gyrsiau gyd-fynd â'r sectorau blaenoriaeth a nodwyd gan RSP a cholegau AB ym mhob rhanbarth. Fodd bynnag, mae symudiad wedi bod oddi wrth y sectorau blaenoriaeth rhanbarthol i sicrhau mwy o unfurfiaeth ledled Cymru (yn hytrach na gweithredu gyda thair rhestr o gyrsiau penodol⁴²). At hynny, bu ffocws o'r newydd wrth i'r rhaglen PLA symud

⁴⁰ Mae offer gwybodaeth y farchnad lafur fel arfer yn cynnig y data diweddaraf ar wybodaeth y farchnad lafur sydd ar gael (data diwydiannol, galwedigaethol, addysgol a demograffig), hysbysebion swyddi ar-lein, a lefelau cyflog ar gyfer galwedigaethau (gan gynnwys hysbysebion swyddi). Maen nhw wedi'u cynllunio i hysbysu darparwyr hyfforddiant, unigolion, a busnesau am benderfyniadau ar hyfforddiant, gyrfaoedd a buddsoddiad.

⁴¹ [Datganiad i'r wasg PWC: Wales Sees Green Jobs Surge.](#)

⁴² Dylid nodi bod pedwerydd RSP (ar gyfer Canolbarth Cymru) wedi ei sefydlu yn ystod y rhaglen PLA.

ymlaen i gefnogi unigolion i ennill uwchlaw'r trothwy cyflog, sydd bellach wedi cael mwy o flaenoriaethu na dilyn darpariaeth cyrsiau o fewn sectorau blaenoriaeth.

- 3.41 Er bod meini prawf penodol i golegau strwythuro cynigion cyrsiau newydd o'u cwmpas, soniodd RSPs y gall ansawdd a dyfnder y wybodaeth a rennir gan golegau AB ar gyfer cyrsiau newydd amrywio. At hynny, roedd mwy o gynigion am gyrsiau newydd nag a ragwelwyd. Mae gan bob rhanbarth gannoedd o gyrsiau ar gael (gyda rhywfaint o ddyblygu rhwng pob rhanbarth), sydd gyda'i gilydd yn cyfateb i oddeutu 1,000 o gyrsiau cymeradwy. Mae dadansoddiad o wybodaeth reoli yn awgrymu cyfranogiad dysgwyr mewn tua 977 o gyrsiau unigryw (mae hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif, gan y bydd rhai cyrsiau'n cael eu camsillafu neu eu cofnodi ychydig yn wahanol); felly, mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o gyrsiau a gafodd eu cymeradwyo wedi sicrhau cofrestriad dysgwyr.
- 3.42 Roedd nifer y cymeradwyaethau cyrsiau yn ei gwneud yn heriol, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ddarparu adolygiad atodol o'r cyrsiau hynny. Disgrifiodd Llywodraeth Cymru y dull o adolygu'r cwrs a fabwysiadwyd yn y flwyddyn gyntaf honno yn eu canllawiau fel un "hyblyg a goddefol". O fis Medi 2021, fodd bynnag, gofynnodd Llywodraeth Cymru am dystiolaeth (er nad yw'r canllawiau'n glir ynghylch natur benodol y dystiolaeth) y byddai unrhyw gymwysterau newydd yn arwain at bobl yn cael eu talu uwchlaw enillion canolrifol Cymru cyn iddynt gael eu hychwanegu at y rhestr gymeradwy.
- 3.43 Wedi hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddull mwy strwythuredig o gymeradwyo cyrsiau lle mae ceisiadau am gyrsiau yn cael eu hanfon gan golegau addysg bellach at Lywodraeth Cymru a'u hadolygu gan banel bob pythefnos dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Yn y cyfnod cyn yr adolygiad panel, rhennir cais y cwrs gyda'r RSP, sy'n rhoi barn i'r panel sy'n cael ei ystyried fel rhan o'r broses gymeradwyo panel.
- 3.44 Mynegodd sawl coleg addysg bellach bryderon ynghylch cymeradwyo cyrsiau. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Y dilyniant o gamau sy'n angenrheidiol (yn enwedig lle mae adnabod cwrs yn cael ei arwain gan ddysgwyr) i gael tystiolaeth ddigonol gan gyflogwyr o'r galw am y cwrs.

- Yr amser a gymerir i sicrhau cymeradwyaeth cyrsiau, yn enwedig mewn achosion lle gall ffocws tymhorol neu amser-hanfodol fod yn gysylltiedig ag angen sgiliau.
- Diffyg rhestr o gyrsiau cymeradwy y gellid eu rhannu gyda cholegau AB fel bod colegau'n ymwybodol o'r holl gyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo, ac nid dim ond y cyrsiau hynny yr oedd y coleg wedi'u sicrhau neu yr oedd y coleg wedi trosglwyddo ar eu cyfer o'r rhaglen SDF flaenorol.

- 3.45 Her arall o fewn y broses hon yw cymeradwyo cyrsiau newydd, a fyddai'n gofyn am unigolion sydd ag arbenigedd yn y pwnc ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn y broses arfarnu. Byddai darparu dyfarniad gwrthrychol, gwybodus ynghylch ansawdd cwrs ar draws ystod mor eang o feysydd pwnc yn cyfiawnhau galw ar arbenigwyr fel rhan o'r broses arfarnu honno. Mae hyn yn debygol o ymestyn yr amser a gymerir i gymeradwyo cwrs.
- 3.46 Roedd y rhaglen yn rhagweld cyrsiau yn bennaf o Lefel 3 (cyfwerth â Safon Uwch) i Lefel 5 (Diploma Cenedlaethol Uwch neu ail flwyddyn gradd); fodd bynnag, mae'r canllawiau'n nodi y gallai fod angen cyrsiau Lefel 2 mewn sectorau sy'n gysylltiedig â'r economi sylfaenol. At hynny, nododd rhanddeiliaid bwyslais cryfach ar godiadau cyflog tebygol sy'n deillio o gyrsiau nag ar lefelau cwrs ar gyfer blwyddyn academaidd 2021–22 y rhaglen.
- 3.47 Disgrifiwyd y broses lle cymeradwywyd cyrsiau newydd gan leiafrif o randdeiliaid fel “cyfle a gollwyd” i ymgorffori cyllidebu ar sail rhyw. Er y gwnaed penderfyniadau ar gyrsiau newydd wrth ystyried blaenoriaethau sgiliau a sector, nododd rhanddeiliaid nad oedd y broses hon fel arfer yn ystyried cyfraddau ymgysylltu â chyrsiau amrywiol ar draws rhywedd, ethnigrwydd, oedran ac anabledd. Credwyd bod ymgysylltiad cyfyngedig â'r RSP mewn perthynas â'r dull yng nghamau cynnar gweithredu a chyflawni rhaglenni yn rhwystro ymdrechion i ymgorffori cyllidebu ar sail rhyw. Yng nghamau olaf cyflwyno rhaglenni, fodd bynnag, deallir bod staff Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynnwys RSP yn yr agenda hwn. Mae hwn yn gam cadarnhaol oherwydd ei fod yn sicrhau y gellir gweld blaenoriaethau sgiliau ar y lefel hon trwy lens croestoriadol a rhywedd.

Cyllid cwrs

- 3.48 Mae'r dull o gyllido cyrsiau yn cynrychioli newid sylweddol o ddulliau traddodiadol o gyllido darpariaeth dysgu oedolion (rhan-amser) mewn colegau. Dyfarnwyd cyllidebau yn flaenorol ar sail blanced, pro rata gyda rhwymedigaeth gyfyngedig o ran natur y cwrs a astudiwyd. Adeiladwyd y model traddodiadol o gwmpas cyllid fesul dysgwr (yn hytrach na chyllid fesul cwrs). Ar gyfer y rhaglen PLA, trwy ddyfarnu cyllid fesul cwrs, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio tynnu'r perygl o ddarpariaeth cyrsiau newydd ar gyfer colegau addysg bellach heb gyfaddawdu ar brofiad dysgwyr (yn y bôn, ariannu costau cyrsiau waeth beth fo'r nifer sy'n eu hastudio). Deallir y gall costau'r cwrs fod yn eang (mae colegau AB yn awgrymu bod y costau'n amrywio rhwng £120 a £5,000). Ystyrir bod costau datblygu hefyd yn gymwys o fewn y dyraniad cyllido, a thrwy hynny ganiatáu i golegau AB arloesi a threialu darpariaeth newydd.
- 3.49 Fodd bynnag, mae risg gyda'r model hwn y bydd cwrs drud yn sicrhau cymeradwyaeth ariannol ond mai ychydig o unigolion fydd yn cofrestru. O safbwynt cost-effeithiolrwydd (cul) (cost fesul allbwn), byddai hyn yn cynrychioli gwerth gwael am arian.
- 3.50 Er y gallai'r dull hwn ddileu'r perygl o weithredu cyrsiau newydd gan golegau AB, nododd un coleg yr heriau o drosglwyddo i'r dull hwn, gan dynnu sylw at y gofynion adnoddau sy'n gysylltiedig â'r broses gostio, anawsterau wrth olrhain costau, a'r amrywioldeb posibl o ran yr amcangyfrifon.
- 3.51 Mae templed costio'r cwrs yn cael ei ddefnyddio'n eang ar draws colegau sy'n defnyddio dull cyson o lunio costau. Gall colegau AB hefyd gynnwys costau offer a chostau datblygu cysylltiedig eraill, yr oedd nifer ohonynt yn arbennig o gadarnhaol amdanynt. Fodd bynnag, cododd tri choleg bryderon hefyd ynghylch i ba raddau y mae'r templed costio'r cwrs yn caniatáu ar gyfer amrywiad yn y dull o ymdrin â chostau cyrsiau ac, felly, y costau y gwneir cais amdanynt, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys costau offer a meddalwedd, gydag awydd am ffiniau i fynd i'r afael â rhywfaint o'r gwahaniaethu canfyddedig mewn dulliau costio'r cwrs:

"Dyma'r un maes y mae angen ei wella'n sylweddol gyda PLA. Os gwnaethoch gymryd cyllid rhan-amser, mae gennych werthoedd cyllido y bydd LIC yn eu cysylltu â phob cwrs. Os ydych chi'n [gysylltiedig â] technoleg ddigidol, rydych chi'n gwybod y gwerth cyllido fesul awr - gallwch chi wneud y costio hynny ac rydych chi'n gwybod y sylfaen honno i weithio arni. Os yw'r PLA yn wahanol nid oes unrhyw ganllawiau — mae gennych ffurflen gostio ond mater i bob coleg unigol [...]. Rydych chi'n ceisio sicrhau eich bod chi'n prisio'n briodol. Pe bai mwy o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru, gallai fod yn ffin yn unig; er enghraifft, os ydych chi'n cynnal cwrs AAT, dylai eich costio fod rhwng x a x — ond ar y ffurflen, gall sefydliadau ychwanegu offer a meddalwedd. Mae lle i lawer o hyn gael ei ychwanegu." (Ymatebydd Coleg AB)

- 3.52 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r amrywiad yng nghostau cyrsiau, mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i sefydlu bandiau ar gyfer gwahanol gyrsiau gyda'r disgwyliad y bydd darparu'r cwrs yn cael ei neilltuo i fand cost.
- 3.53 Mae'r dull o gwblhau templed costio'r cwrs hefyd yn amrywio'n sylweddol. Mae'r templed yn cynnwys nifer darged o ddysgwyr a nifer gwirioneddol o ddysgwyr. Ar draws templedi costio'r cwrs ar gyfer rhai cyrsiau, mae colegau'n cofnodi'r nifer targed a nifer gwirioneddol y dysgwyr. Ar gyfer rhai cyrsiau, fodd bynnag, dim ond y nifer targed sy'n cael ei gynnwys. Ar ben hynny, ar gyfer rhai cyrsiau, ni chofnodir unrhyw ffigur. Ar hyn o bryd nid oes dadansoddiad cyson o union nifer y dysgwyr fesul cwrs, gan danseilio'r gallu i bennu effeithlonrwydd ariannol cyflwyno cyrsiau ar draws y rhaglen.
- 3.54 Yn dilyn cyfrifo costau'r cwrs, mae Llywodraeth Cymru, yn gyfnewid am hynny, yn talu'r holl gostau gwirioneddol a ysgwyddir wrth ddarparu darpariaeth drwy gyllid rhaglen PLA, gan gynnwys costau datblygu'r cwrs, gorbenion, a chostau sicrhau tiwtoriaid arbenigol neu allanol. At hynny, mae cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi costau pob coleg wrth gyflawni'r rhaglen, gan gynnwys (er enghraifft) ariannu cyflog rôl sy'n ymroddedig i reoli'r rhaglen (hyd at 10 y cant o ddyraniad pob coleg, hyd at uchafswm o £200,000).

3.55 Newid pellach yn y model PLA o ddarpariaeth draddodiadol y cwrs yw'r gallu i gynnig cymwysterau gwerthwr drwy'r rhaglen. Mae'r rhain yn gymwysterau a ddarperir fel arfer gan gyrff neu gwmnïau diwydiannol sydd yn aml â mwy o berthnasedd a gwerth canfyddedig yn y farchnad lafur, o'i gymharu â chymhwyster traddodiadol, ond nad yw llywodraethau wedi eu hariannu yn hanesyddol (cwrs cyfrifiadura gan Microsoft, er enghraifft). Mae'r amharodrwydd i ariannu cyrsiau o'r math hwn yn y gorffennol wedi ymwneud â'r her o sicrhau ansawdd yr athrawon/hyfforddwyr neu'r cymhwyster. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, teimlai Llywodraeth Cymru y byddai casglu canlyniadau gan gyfranogwyr yn y math hwn o gwrs yn ffordd fwy addas o farnu eu hansawdd a'u heffeithiolrwydd.

Cyflenwi gan drydydd parti

3.56 Fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adran hon, mae pob rhanbarth wedi cymeradwyo cannoedd o gyrsiau i'w cyflwyno drwy'r rhaglen PLA. Mae'r gyfradd hon o ddarpariaeth cwrs newydd yn debygol o fod yn adlewyrchu'r cyd-destun y mae PLA yn gweithredu ynddo. Fel rhaglen mae'n ceisio ymateb i anghenion sgiliau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ac, felly, yn ôl yr angen, bydd angen iddo addasu'n gyflym mewn tirwedd economaidd a pholisi sy'n newid yn gyflym. Er mwyn ymateb i'r materion hyn, yn ogystal â sefydlu, costio a sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cwrs newydd, mae angen hefyd nodi hyfforddwyr/tiwtoriaid sydd â'r arbenigedd i gyflawni'r cwrs hwnnw. Mae'r angen hwn wedi arwain at golegau AB yn gorfod is-gontractio cyflwyno cyrsiau i sefydliadau neu ymgynghorwyr eraill. Mae'r graddau y mae colegau addysg bellach yn is-gontractio yn amrywio'n eang, gyda rhai colegau yn darparu'r holl ddarpariaeth eu hunain, tra bod un coleg addysg bellach yn disgrifio is-gontractio tua 90 y cant o'r ddarpariaeth PLA.

3.57 Ystyriodd damcaniaeth newid (Atodiad 1) y potensial y gallai is-gontractio ddarparu cyfleoedd ar gyfer meithrin gallu ar gyfer colegau AB yng Nghymru fel rhan o'r broses hon (trwy gysgodi cyrsiau, er enghraifft). Er y gallai hyn fod yn digwydd mewn lleiafrif o achosion, mae'r perthnasoedd is-gontractio yn amrywio'n fawr, gyda rhai yn cynnig lle cyfyngedig i hyn ddigwydd.

Darpariaeth dan arweiniad dysgwyr a darpariaeth hyblyg

- 3.58 Ceisiodd y rhaglen hefyd sicrhau newid sylweddol mewn dull gweithredu ar gyfer colegau drwy gael ei arwain gan ddysgwyr. Gosodwyd hygyrchedd i ddarpariaeth ddysgu fel blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer y rhaglen gan ddisgwyl y byddai cyrsiau'n cael eu cynnig ar-lein a gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- 3.59 Disgwylir i golegau addasu darpariaeth i ddarparu ar gyfer gofynion ymgeiswyr, e.e. trwy ddarpariaeth pan fyddant eisiau dysgu, ar ddiwrnodau pan fyddant ar gael, ac ar gampws sydd fwyaf addas iddynt, ac i ddarparu ar gyfer anghenion ychwanegol dysgwyr. Roedd pandemig COVID-19 a'r newid i ddysgu o bell yn cynnig llwybr poblogaidd at ddarpariaeth dan arweiniad dysgwyr; fodd bynnag, roedd colegau yn teimlo eu bod eisoes yn gweithredu yn y modd hwnnw:

"Nid yw'n rhywbeth a ychwanegwyd gennym ar gyfer PLA. Busnes fel arfer yw hwn beth bynnag. Trefniadau mynediad ni waeth a ydych chi'n gwneud awr neu fis, rydych chi'n ddysgwr [coleg AB] ac rydych chi'n agored i unrhyw un o'r mecanweithiau cymorth sydd gennym ni. Cymorth ADY, tlodi digidol, ac ati, ond hefyd cyngor ac arweiniad — mae gennym raglen gyrfaoedd a syniadau enfawr a [chyllid] i helpu gyda chostau eraill, e.e. gofal plant. Mae'n ymwneud â thorri'r rhwystrau hynny. Y ffordd rydyn ni'n cynllunio popeth, rydyn ni'n gynhwysol trwy'r amser." (Ymatebydd Coleg AB)

"Yn ôl ei natur, mae'r coleg wedi arfer gwneud yr addasiadau hynny i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd â phob math o rwystrau i ddysgu, boed yn amser, yn ariannol, ymrwymiad teuluol, anawsterau dysgu, anabledd. Felly'r hyn yr ydym wedi gallu ei wneud trwy PLA yw gwneud yr un peth yn union ag y byddem yn ei wneud ar draws y coleg [...] gan ddefnyddio mecanweithiau cymorth fel technolegau cynorthwyol lle mae ei angen neu i greu dysgu cyfunol fel y gall pobl gael mynediad at ddysgu a pharhau i gyflawni eu hymrwymadau eraill [...] dyma fara a menynd yr hyn a wnawn ar draws y cwrs. Mae yna lawer o fecanweithiau cymorth, strategaethau technoleg, asiantaethau allanol y gallwn eu defnyddio i sicrhau y gallwn oresgyn unrhyw rwystrau." (Ymatebydd Coleg AB)

3.60 Yn y cyfamser, mae rhai addasiadau yn amlwg:

"Rydym yn bendant wedi gweithredu gwahanol ddulliau cyflwyno: ar-lein, dysgu ar eich cyflymder eich hun [ochr yn ochr] wyneb yn wyneb yn y coleg [ar gyfer cyrsiau hirach]. Rydym wedi addasu mwy o gymorth dysgu — ond ar gyfer y cyrsiau byrrach nid ydym wedi cael yr angen hwnnw. Rydym hefyd yn cynnal cyrsiau nos — a ddarperir [yn rhithiol] gyda'r nos trwy Zoom neu Teams."
(Ymatebydd Coleg AB)

3.61 Disgwylir i unigolion wneud cais am un cwrs ar y tro; fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth yng nghanllawiau'r rhaglen y gall amgylchiadau personol newid, gan arwain at gyfranogwyr yn methu parhau â'r cwrs mwyach. Pan fydd unigolyn yn tynnu'n ôl o gwrs ac yn gwneud cais wedi hynny am gwrs PLA arall, mae'n parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen (yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwyster); fodd bynnag, pe bai'n gadael cwrs fwy nag unwaith, byddai Llywodraeth Cymru yn cynghori na ddylai fod ganddynt hawl i gael cyllid yn y dyfodol drwy PLA.⁴³

3.62 Mae disgwyl hefyd i golegau ymgysylltu â chyflogwyr fel rhan o'r rhaglen i helpu i hwyluso cysylltiad cyfleoedd dysgu PLA mewn sectorau penodol sy'n cyd-fynd â'u cynllun hyfforddi. Adroddodd rhai colegau fod y dull hwn yn newydd iddynt ac nad oeddent yn siŵr sut y maent yn ymgysylltu â chyflogwyr neu sut y gellid mesur perfformiad. Fodd bynnag, cydnabuwyd pwysigrwydd cryfhau ymgysylltiad cyflogwyr a'r rôl y gall y rhaglen PLA ei chwarae wrth annog hyn.

Marchnata a hyrwyddo

3.63 Cynhaliwyd ymgyrch genedlaethol sy'n gysylltiedig â lansio cam cyflwyno PLA rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021 (wedi'i hategu gan weithgaredd hyrwyddo lleol gan bob un o'r colegau) i helpu i hybu niferoedd sy'n ymgysylltu â'r rhaglen. Roedd yr ymgyrch yn aml-ffrydio ei natur, gan ddefnyddio cyfryngau traddodiadol (teledu a radio) ochr yn ochr â chyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo ar-lein.

3.64 Aseswyd llwyddiant gweithgaredd hyrwyddo trwy arolwg omnibws a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021. Canfu'r arolwg ymwybyddiaeth ddigymell o PLA ymhlith 17 y

⁴³ Cyfrifon Dysgu Personol Llywodraeth Cymru (2021) 2021-22 – Canllawiau.

cant o'r boblogaeth (gyda'r uchaf (25 y cant) ymhlith y rhai 16–24 a'r rhai (23 y cant) mewn cyflogaeth llawn amser) gyda negeseuon allweddol (“gwella'ch sgiliau” a “helpu os ydych chi'n gymwys/ennill o dan/£26 mil/ar incwm isel”). Roedd yr apêl a'r tueddiad i ystyried cymryd rhan mewn PLA yn y dyfodol yn uchel, gyda thraean o'r rhai a arolygwyd wedi gweld hysbyseb yn hyrwyddo PLA, gan gredu ei bod yn fwy tebygol y byddent yn ystyried cymryd rhan yn PLA yn y dyfodol.⁴⁴

- 3.65 Roedd chwech o'r colegau addysg bellach yn teimlo bod yr ymgyrch genedlaethol wedi cael effaith gyfyngedig ar godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a'r galw amdani. Roedd sawl coleg yn teimlo y gallai COVID-19 a'r cyfnod clo cysylltiedig ar y pryd wedi cael dylanwad ar ei heffaith. Fodd bynnag, roedd sawl coleg addysg bellach yn teimlo bod effaith yr ymgyrch genedlaethol yn sylweddol, gyda'r galw am PLA wedi gostwng yn ystod y misoedd diwethaf yn unig.
- 3.66 Deallir bod ail ymgyrch farchnata wedi digwydd 12 mis ar ôl y cyntaf, a soniodd dau goleg am sut roeddent yn teimlo o'i gymharu: roedd yr ail ymgyrch wedi bod yn fwy effeithiol (o ran hybu lefelau galw) na'r cyntaf. Mae pob coleg AB wedi ategu at yr ymgyrchoedd cenedlaethol gyda'u gweithgareddau hyrwyddo eu hunain, yn bennaf trwy sianeli ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Disgrifiodd un coleg addysg bellach sut yr oeddent wedi hyrwyddo PLA fel cwrs rhan-amser (yn hytrach na darpariaeth am ddim) mewn ymgais i sicrhau diddordeb gwirioneddol ac i geisio lliniaru'r risg canfyddedig o gyfraddau gadael uwch sy'n gysylltiedig â darpariaeth am ddim.

Cyllidebu ar sail rhyw – gweithredu

- 3.67 Disgrifiodd hanner yr holl staff coleg AB a gyfwelwyd yng ngham olaf y gwerthusiad fod y dull cyllidebu ar sail rhyw wedi'i “ymgorffori” i ryw raddau yn eu darpariaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd staff colegau AB fod hyn yn amlwg yn y “dull cynhwysol” a gymerant a bod hyn eisoes wedi'i ymgorffori yn eu darpariaeth bresennol cyn y PLA. Fodd bynnag, awgrymodd staff hefyd, er bod cyllidebu ar sail rhyw yn amlwg wrth eu cyflawni, eu bod yn “cael trafferth” i wybod sut i fabwysiadu dull cyllidebu ar sail rhyw yn llawn. Dywedodd un aelod o staff y coleg AB:

⁴⁴ Golley Slater (2001) Cymru'n Gweithio: Cyfrifon Dysgu Personol – Canlyniadau Omnibws – Mehefin 2021.

“Gyda chyllidebu ar sail rhyw, rwy'n credu ein bod ni i gyd yn mynd i'r afael ag ef ac yn ceisio dysgu beth rydyn ni'n ei olygu wrth hynny. Fel coleg, ein peth cyntaf i'w wneud yw bod yn gynhwysol ac mae hynny'n rhan o sut rydym yn cynllunio ar gyfer darpariaeth. Rydym yn gwasanaethu cymunedau amrywiol iawn ac mae hynny ar flaen y gad yn y coleg. [Rydym] yn ymwybodol o amseroedd dechrau cyrsiau a sut y gallent wrthdaro â darpariaeth gofal plant. Mae'n rhan annatod o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau a sesiynau briffio ar [gyllidebu ar sail rhyw], rwy'n credu ein bod wedi cael trafferth ei roi ar waith.” (Ymatebydd Coleg AB)

- 3.68 Disgrifiwyd y defnydd o'r dull cyllidebu ar sail rhyw yn aml gan staff colegau AB fel un sy'n debyg i hyrwyddo cyfle cyfartal, fel sy'n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) mewn gweithrediadau diweddar a ariannwyd drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mewn rhai achosion, nododd staff hefyd fod y dull hwn yn cyd-fynd ag agendâu cyfle cyfartal a/neu ehangu cyfranogiad mewn colegau addysg bellach. Dywedodd un aelod o staff:

“Mae'n ddull coleg cyffredinol. Mae hyn yn rhywbeth enfawr yr ydym wedi'i wneud yn ESF. Rydym wedi annog menywod ifanc i ddod drwy beirianeg.” (Ymatebydd Coleg AB)

- 3.69 Mae gweld dull cyllidebu ar sail rhyw'r un fath â hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn dangos dealltwriaeth ymhlyg y dylai'r ddarpariaeth ddarparu ar gyfer pob dysgwr. Fodd bynnag, mae dull cyllidebu ar sail rhyw yn gofyn am archwiliad a dealltwriaeth benodol o'r effeithiau a'r rhwystrau ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr, e.e. dysgwyr benywaidd, dysgwyr anabl, a dysgwyr o gefndiroedd ethnig amrywiol, o ddechrau eu dylunio. Mae'r ddealltwriaeth benodol hon yn llywio cyfeiriad adnoddau i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl ac yn arwain at annog a galluogi cyfranogiad i bawb. Dylid deall bod y dull hwn yn mynd ymhellach na hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn sail i holl ddarpariaeth y rhaglen mewn modd ymwybodol. Lle defnyddir dull cyllidebu ar sail rhyw mewn rhaglenni yn y dyfodol, bydd angen atgoffa partneriaid cyflenwi nad yw hyrwyddo cyfle cyfartal a chyllidebu ar sail rhyw yr un peth, yn ogystal â chael arweiniad ymarferol i ddangos sut y gellir defnyddio'r dull hwn.

- 3.70 Mewn adolygiad o farchnata a chyhoedduswydd, mae tystiolaeth gref, gan gynnwys delweddau sy'n herio rolau cyflogaeth traddodiadol, o stereoteipiau rhywedd sy'n bodoli ar draws llawer o'r colegau. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth hyrwyddo rolau menywod yn y sector adeiladu.
- 3.71 Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o bartneriaid cyflenwi yn gallu manylu ar sut roedd y dull cyllidebu ar sail rhyw wedi'i ymgorffori yn eu darpariaeth. Awgrymodd rhanddeiliaid a staff colegau AB yn gyffredinol, er bod y ddamcaniaeth sy'n gysylltiedig â chyllidebu ar sail rhyw wedi'i hamlinellu yn y canllawiau cychwynnol, mai ychydig o enghreifftiau ymarferol o sut roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i hyn gael ei wneud oedd yn cael ei rannu â phartneriaid cyflenwi. Dywedodd un aelod o staff y coleg AB:
- “Mae gennym ddarlithwyr a pheirianwyr benywaidd, sy'n rhwystr sydd eisoes wedi'i oresgyn yn yr isymwybod. Ond ar gyfer y rhaglen PLA, rwy'n credu [bod y dull yn cael ei ychwanegu] fel atodiad. Nid yw'n cael ei wthio na'i gwestiynu ac ni chawsom enghreifftiau wedi'u hystyried yn llawn. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol deall yr hyn a oedd yn arfer da neu'n arfer gwael yn eu barn nhw - roedd yn teimlo fel ychydig o ôl-ystyriaeth.” (Ymatebydd Coleg AB)
- 3.72 Roedd cyfyngu ar ledaenu enghreifftiau a gofynion ymarferol yn golygu bod colegau addysg bellach yn aneglur ynghylch disgwyliad Llywodraeth Cymru ohonynt a'r ffordd orau o ddangos eu bod yn ymgymryd â dull cyllidebu ar sail rhyw. Mae'n bwysig nodi bod rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi wedi adrodd mwy o esboniadau ac enghreifftiau ymarferol sy'n cael eu rhannu mewn sesiynau llywodraethu rhanbarthol mwy diweddar.
- 3.73 Dylai rhaglenni yn y dyfodol geisio cynnwys canllawiau ymarferol ac enghreifftiau o ran ymgorffori dull cyllidebu ar sail rhyw mewn canllawiau cynnar a roddir i bartneriaid cyflenwi. Dylid trafod hyn yn gyson ac yn aml mewn cyfarfodydd diweddar i sicrhau bod dull cyllidebu ar sail rhyw yn weladwy ac yn cael ei ystyried yn rhan annatod o'r ddarpariaeth (yn hytrach nag yn atodol).

Cynigion cystadleuol ar gyfer sectorau blaenoriaeth cenedlaethol

3.74 Croesawyd yn gyffredinol y rowndiau cynigion cystadleuol ar gyfer cyllido'r ddarpariaeth tuag at sectorau blaenoriaeth penodol gan golegau addysg bellach, gyda llawer yn ystyried bod y rowndiau yn llwyddiannus iawn. Roedd rhai pryderon yn codi o ran yr amserlenni ar gyfer ymateb i'r cyfleoedd, ond roedd colegau addysg bellach yn cydnabod eu bod, ar y cyfan, wedi gallu ymdopi â'r rhain.

“Rwy'n credu iddo fod yn eithaf effeithiol o ran darparu rhywfaint o'r hyfforddiant i ddiwallu anghenion penodol [...]. Mae'r ffordd gomisiynu honno o weithio o amgylch eitemau penodol wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi caniatáu inni ganolbwyntio a ffocysu ar feysydd penodol mewn gwirionedd.” (Ymatebydd Coleg AB)

“Roeddwn i'n meddwl ei fod yn eithaf slic. Roedd yr amserlenni'n amlwg yn fyr, [ond] nid oedd yn rhy feichus.” (Ymatebydd Coleg AB)

“Roedd yr amserlen yn her roedd [...] y galw am y meysydd hynny, [yn arbennig] HGV i ni, lle'r oedd y galw yn sicr yn uwch na'r disgwyl o bell ffordd, ac (yn amlwg) roedd digidol yn bwysig, a [y] sector gwyrdd.”
(Ymatebydd Coleg AB)

Astudiaeth achos: Cefnogaeth i ddod yn yrrwr HGV ar ôl bygythiad o ddileu swydd

Roedd Gethin yn gweithio yn y diwydiant adeiladu ac roedd mewn perygl o golli ei swydd oherwydd effaith COVID-19 a Brexit ar y sector adeiladu. Roedd wedi bod gyda'r un cyflogwr am 20 mlynedd ac roedd yn wynebu gorfod dod o hyd i gyflogwr neu yrfa newydd. Roedd hefyd ar ffyrlo, a roddodd hynny amser a lle i feddwl iddo ystyried beth i'w wneud nesaf.

Dewisodd ddilyn cwrs i fod yn yrrwr HGV oherwydd ei fod yn ymwybodol o'r prinder gyrwyr a chredai y byddai tebygolrwydd uchel o sicrhau swydd newydd yn fuan ar ôl y cwrs. Oherwydd iddo golli swydd, ni fyddai wedi gallu fforddio'r cwrs heb y cyllid PLA.

"Yr unig beth y byddwn i'n ei ddweud yw ei fod yn mynd yn rhy araf a dim ond nawr, ym mis Mai 2022, rwy'n dechrau ar yr ochr ymarferol ac mae hynny ers Tachwedd 21! [...] Ond [rwy'n] ddiolchgar iawn fy mod wedi cael y cyfle hwn ac yn edrych ymlaen at orffen a dod yn yrrwr HGV."

Cyflwynwyd y cwrs trwy ddarparwr allanol, lle cyflwynwyd y theori ar-lein a chyflwynwyd yr ymarferol yn bersonol yng nghanolfan y darparwr allanol. Er bod Gethin yn gyffredinol yn gadarnhaol am y cwrs a'r cyfle, nododd fod yr amser rhwng y theori a'r ymarferol yn uchel oherwydd y nifer uchel o ddysgwyr sydd wedi tanysgrifio i'r cwrs.

- 3.75 Pe bai rowndiau ymgeisio cystadleuol yn y dyfodol, cyfeiriodd sawl coleg at awydd am fwy o dryloywder, yn enwedig o ran cymhwyster i wneud cais am yr arian. Deallwyd bod rhywfaint o ddryswch ynghylch ai dim ond y rhai a oedd yn cyrraedd targedau'r rhaglen ac yn cyflawni eu dyraniad oedd yn gymwys. At hynny, fe wnaeth diffyg eglurder rhwng colegau addysg bellach o ran lle'r oeddent o ran bodloni eu dyraniad ychwanegu at y diffyg tryloywder canfyddedig, ac ni wnaed colegau yn ymwybodol o lefel y cyllid a ddyfarnwyd i bob coleg.

4. Canfyddiadau – Ymgysylltu a Chyflenwi Gwasanaethau

Crynodeb

- Erbyn 31 Awst 2022, bu mwy na 22,000 o gofrestriadau a mwy na 16,000 o ddysgwyr unigryw yn y rhaglen PLA.
- Mae'r cydbwysedd rhwng dysgwyr PLA a dysgwyr yn y ffrwd ELA yn amrywio'n eang ar draws colegau AB, gyda rhai colegau heb gofrestru unrhyw un trwy ELA, ond gydag eraill, roedd dros 40 y cant o'r cofrestriadau trwy'r ffrwd ELA.
- Mae patrymau daearyddol anwastad o gofrestru mewn PLA, ac mae oedolion yn Sir Gaerfyrddin 33 gwaith yn fwy tebygol o gofrestru mewn PLA na'r rhai yn Sir y Fflint.
- Mae dysgwyr dan arweiniad dysgwyr mewn PLA yn fwy amrywiol yn ethnig, yn fwy tebygol o fod yn fenywod, ac yn iau na'r dysgwyr hynny sydd wedi'u cofrestru yn ffrwd ELA dan arweiniad cyflogwyr y rhaglen.
- Mae menywod yn fwy cyffredin o ran darpariaeth dysgu yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc sector drwy'r rhaglen PLA nag y maent mewn addysg oedolion yn gyffredinol.
- Roedd bron i chwarter yr holl ddysgwyr PLA (a thraean o'r holl ddysgwyr benywaidd) yn cael eu cyflogi yn y sector iechyd ar adeg cofrestru yn y rhaglen PLA.
- Dywedodd bron i 40 y cant o ddysgwyr PLA (a dwy ran o dair o'r holl ddysgwyr benywaidd) eu bod yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau gofal, hamdden, gweinyddol neu ysgrifenyddol. Mae'r sectorau galwedigaethol hyn i gyfrif am lai nag 20 y cant o'r holl weithwyr ledled Cymru.
- Cafodd bron i dri o bob 10 dysgwr yn y rhaglen PLA wybod am y rhaglen trwy eu rheolwr/goruchwyliwr llinell.
- Yn absenoldeb PLA, ni fyddai bron i hanner yr ymatebwyr i'r arolwg (46 y cant; 231/499) wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant. Roedd menywod a'r rhai mewn cyflogaeth lai diogel yn fwy tebygol o beidio â dilyn hyfforddiant arall yn absenoldeb y rhaglen.


Cyflwyniad

- 4.1 Mae'r adran hon yn dadansoddi patrymau perfformiad a chynnydd yn y rhaglen PLA. Mae'n archwilio teithiau a phrofiad cyfranogwyr yn y rhaglen yn ogystal â phroffil dysgwyr a'r cyrsiau a ddarperir.

Perfformiad a chynnydd

- 4.2 Nid oes targedau ar draws y rhaglen ar gyfer y cyllid craidd drwy'r rhaglen PLA y tu hwnt i wariant y dyraniad cyllid gan bob coleg AB. Er mwyn asesu cynnydd y rhaglen, cynhaliwyd dadansoddiad o wybodaeth reoli (LLWR yn bennaf a data nad ydynt yn LLWR) sydd ar gael.
- 4.3 Mae'r dadansoddiad o ddata gwybodaeth reoli hyd at 31 Awst 2022 yn nodi'r canlynol:
- Mae cyfanswm o 22,229 o gofnodion dysgwyr (sy'n cynnwys dyblygu, lle mae dysgwr wedi cofrestru ar fwy nag un cwrs). Mae tri chwarter y rhain (16,733) yn gofrestriadau dysgwyr yn y rhaglen PLA, gyda'r gweddill yn cael ei gofnodi fel cofrestriadau yn ffrwd ELA y rhaglen.
 - Mae 16,241 o ddysgwyr unigryw, y mae 12,015 ohonynt yn yr elfen dysgwr unigol PLA o'r rhaglen, tra bod 4,457 yn ffrwd ELA y rhaglen (mae 231 o ddysgwyr yn ymddangos yn y PLA a'r ELA, sy'n awgrymu bod lleiafrif o unigolion wedi cymryd rhan yn nwy elfen y rhaglen).
 - Cynhaliwyd ychydig dros saith y cant o'r holl ddysgwyr (1,194) a naw y cant o'r holl gofrestriadau (1,983) yng ngham peilot y rhaglen.
- 4.4 Mae ffigur 4.1 isod yn dangos y dadansoddiad o gofrestriadau unigryw o raglenni PLA yn ôl rhywedd, yn ôl blwyddyn galendr. Mae'n rhoi ymdeimlad o faint y cynnydd mewn cofrestriadau mewn PLA dros amser. Mae'r siart yn dangos yr hyn sy'n cyfateb i un rhan o bump o'r holl fynychwyr (4,437) a gofrestrwyd yn 2019 neu 2020, tra roedd 11,285 o gofrestriadau unigryw yn ystod 2021 (sy'n cyfateb i bron 51 y cant o gyfanswm y cofrestriadau). Er nad yw 2022 yn flwyddyn lawn o gofrestriadau, mae'n amlwg bod cofrestriadau benywaidd wedi gostwng yn y flwyddyn honno i'r gyfran isaf o'r holl gofrestriadau ers i'r rhaglen ddechrau (35 y cant neu 2,244 o gofrestriadau o'r 6,496 a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn honno).


Ffigur 4.1: Cofrestriadau fesul blwyddyn galendr yn ôl rhywedd



Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

4.5 Mae ffigur 4.2 isod yn dangos y dadansoddiad o gofrestriadau yn ôl ffrwd dan arweiniad dysgwyr (PLA) a dan arweiniad cyflogwyr (ELA). Mae'n dangos bod cofrestriadau ELA yn 2022 yn ffurfio bron i draean o gyfanswm cofrestriadau rhaglenni.


Ffigur 4.2: Cyfran y cofrestriadau PLA ac ELA yn ôl cyfanswm y cofrestriad bob blwyddyn



Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

4.6 Mae dadansoddiad blynyddol o amrywiadau yn cuddio cofrestriadau yn ystod y flwyddyn. Mae Ffigur 4.3 isod yn cyflwyno cofrestriadau cyrsiau misol ac yn dangos maint yr amrywiad, gyda chynnydd clir ym mis Mawrth ac Awst bob blwyddyn. Mae'r sbigynnau ym mis Awst yn debygol o fod yn gysylltiedig â dechrau traddodiadol y flwyddyn academaidd, tra rhagdybir bod y sbigynnau ym mis Mawrth yn cael eu dylanwadu gan y cyllid blaenoriaeth cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ariannol (Ebrill–Mawrth). Mae'r patrymau hyn yn awgrymu rhywfaint o aliniad parhaus o ran darparu rhaglenni â thymhorau academaidd, er y cydnabyddir y gallai hyn gael ei ddylanwadu gan ddisgwyliadau dysgwyr yn ogystal â pharmedrau cyflenwi colegau AB.

Ffigur 4.3: Cofrestriadau cwrs dros amser



Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

4.7 Wrth archwilio cofrestriadau cyrsiau gan golegau AB, mae lefel uchel o amrywiad yng nghyfanswm y cofrestriadau ac yn y dadansoddiad cyfrannol o gofrestriadau rhwng PLA dan arweiniad dysgwyr a'r ffrwd ELA. Er enghraifft, mae Coleg Gwent wedi darparu bron i un rhan o bump o'r holl bresenoldeb PLA ond nid yw wedi cyflenwi unrhyw ddarpariaeth drwy'r ffrwd ELA. Mae Grŵp NPTC wedi cyflenwi 16 y cant o'r holl gofrestriadau cyrsiau; fodd bynnag, mae'r rhain wedi'u cyflenwi'n bennaf trwy ffrwd ELA, y mae'r coleg wedi cyflwyno 41 y cant o'r holl gofrestriadau ELA ledled Cymru.

Tabl 4.1: Cofrestriadau cyrsiau yn ôl coleg


	Presenoldeb Unigryw (n=22,229)	PLA (n=16,733)	ELA (n=5,496)
Coleg Caerdydd a'r Fro	24%	19%	37%
Coleg Gwent	19%	25%	0%
Coleg Sir Gâr	17%	20%	8%
Grŵp NPTC	16%	8%	41%
Grŵp Llandrillo Menai	7%	7%	4%
Coleg y Cymoedd	6%	8%	2%
Coleg Gŵyr Abertawe	6%	7%	4%
Coleg Sir Benfro	2%	1%	4%
Coleg Cambria	2%	3%	0%
Coleg Pen-y-bont	1%	1%	0%
Coleg Merthyr Tudful	0%	0%	0%
Cyfanswm	100%	100%	100%

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

Lleoliad y dysgwr

4.8 Mae'n ymddangos bod clystyrau daearyddol o ddysgwyr yn y rhaglen PLA. Mae ffigur 4.4 isod yn dangos nifer y dysgwyr PLA dan arweiniad dysgwyr fesul 1,000 o'r boblogaeth oedolion preswyl ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae'r map yn dangos crynodiadau yn Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Blaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd. Yn Sir Gaerfyrddin bu ymgysylltiad arbennig o uchel, gydag oedolion cyflogedig sy'n byw yn y sir dros 33 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn cwrs PLA na'r rhai sy'n byw yn Sir y Fflint.

Ffigur 4.4: Nifer y dysgwyr PLA dan arweiniad dysgwyr



Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

- 4.9 Roedd preswylwyr o Gaerdydd yn dominyddu cofrestrïadau yn y ffrwd ELA, gyda bron i ddau o bob pump o ddysgwyr ELA yn byw yno, ac (o leiaf) yn adlewyrchu'n rhannol amlygrwydd CAVC (Tabl 4.1 uchod) wrth gyflenwi darpariaeth ELA. Ar ben hynny, mae 16 y cant o ddysgwyr ELA yn dod o Sir Gaerfyrddin ac roedd 5% o gofrestrïadau ELA yn ddysgwyr sy'n byw mewn awdurdodau lleol heblaw Caerdydd a Sir Gaerfyrddin.

Proffil y dysgwr

- 4.10 Mae'r tablau isod yn cynnig dadansoddiadau o broffil dysgwyr unigryw yn ffrwd PLA y rhaglen dan arweiniad dysgwyr (Tabl 4.2) ac yn ffrwd ELA y rhaglen dan arweiniad cyflogwyr (Tabl 4.3). Maent yn nodi bod y cyfranogwyr hynny dan arweiniad dysgwyr yn ffrwd graidd y rhaglen yn fwy amrywiol yn ethnig, yn fwy tebygol o fod yn fenywod, ac yn iau na'r rhai yn ffrwd ELA dan arweiniad cyflogwyr y rhaglen. Mae'r anallu i ddylanwadu ar bwy y mae cyflogwr yn cofrestru yn y ffrwd ELA yn dangos yr heriau o gymhwyso dull cyllidebu ar sail rhyw i'r ffrwd benodol hon o'r rhaglen PLA.
- 4.11 Mae'r gwahaniaeth mewn proffil rhywedd rhwng PLA ac ELA yn arbennig o amlwg, gyda dynion yn cynrychioli bron i ddwy ran o dair o gyfranogwyr ELA ond ychydig dros hanner y cyfranogwyr PLA.

Tabl 4.2: Proffil o ddysgwyr PLA yn ôl rhywedd

	Pob PLA	Gwryw	Benyw
Ethnigrwydd			
Gwyn	92.4%	91.8%	93.0%
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	2.8%	3.1%	2.5%
Du /Du Prydeinig	2.1%	2.5%	1.6%
Ethnig Cymysg/Lluosog	2.0%	1.9%	2.0%
Cefndir Ethnig Arall	0.8%	0.8%	0.8%
Oedran			
16 i 24	15.3%	15.2%	15.4%
25 i 34	36.8%	37.4%	36.2%
35 i 44	25.3%	25.6%	25.0%
45 i 54	15.4%	14.5%	16.3%
55 i 64	6.6%	6.8%	6.4%
Anabledd neu WLHC			
Oes	5.2%	4.9%	5.3%
Na	81.8%	82.5%	81.1%

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

Tabl 4.3: Proffil dysgwyr ELA yn ôl rhywedd


	Pob PLA	Gwryw	Benyw
Ethnigrwydd			
Gwyn	94.6%	95.4%	93.0%
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	2.6%	2.0%	3.7%
Du /Du Prydeinig	1.6%	1.3%	2.2%
Ethnig Cymysg/Lluosog	0.9%	1.0%	0.7%
Cefndir Ethnig Arall	0.4%	0.3%	0.5%
Oedran			
16 i 24	14.3%	15.1%	12.8%
25 i 34	28.4%	28.1%	29.0%
35 i 44	24.3%	24.0%	24.8%
45 i 54	20.4%	20.0%	20.9%
55 i 64	11.8%	11.8%	11.7%
Anabledd neu WLHC			
Oes	3.0%	3.1%	2.7%
Na	96.8%	96.7%	97.1%

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

- 4.12 Disgrifiodd naw y cant o ddysgwyr eu hunain yn siaradwyr Cymraeg (4 y cant yn rhugl), gyda menywod ychydig yn fwy tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg (10 y cant) na dynion (9 y cant). Er bod cyfrannau cyfartal o'r rhai a gofrestrwyd yn y rhaglen PLA dan arweiniad dysgwyr yn disgrifio eu hunain yn siaradwyr Cymraeg (4.4 y cant o wrywod a 4.4 y cant o fenywod), roedd anghysondeb llawer mwy ymhlith dysgwyr dan arweiniad cyflogwyr yn y ffrwd ELA. Ymysg dysgwyr ELA, disgrifiodd 4.6 y cant o fenywod eu hunain yn siaradwyr Cymraeg o'i gymharu â 2.6 y cant o wrywod.
- 4.13 Datganodd ychydig yn llai na phump y cant o ddysgwyr yn y rhaglen ryw fath o anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith, gyda menywod ychydig yn fwy tebygol o ddatgan rhyw fath o anabledd na dynion (4 y cant). Ymhlith cyfranogwyr PLA dan arweiniad dysgwyr, cynyddodd y gyfran sy'n datgan rhyw fath o anabledd i 5.2 y cant, ac ar gyfer dysgwyr ELA dan arweiniad cyflogwyr gostyngodd i 3 y cant.

4.14 Ymhlith yr holl ddysgwyr, mae gan un o bob deg cyfranogwr unigryw eu cymhwyster uchaf cyn cofrestru wedi'i gofnodi yn y LLWR. Lle cofnodwyd y rhain, mae'r data wedi'u meincnodi yn erbyn dosbarthiad lefelau cymwysterau ar draws y boblogaeth economaidd weithredol gyfan yng Nghymru (yn Ffigur 4.5 isod). Mae'r ffigur yn dangos cyfran uchel o ddysgwyr nad ydynt yn cofnodi unrhyw gymwysterau na chymwysterau cyn-mynediad, tra bod cymwysterau ar NVQ Lefel 2 a NVQ Lefel 3 i'w cymharu ar y cyfan â'r rhai ar gyfer y gweithlu economaidd weithgar ledled Cymru. Pan gaiff ei ddadansoddi yn ôl rhywedd, mae'r siart yn dangos bod menywod fel arfer yn fwy cymwys na dynion, yn enwedig ar NVQ Lefel 4 neu uwch. Dylid bod yn ofalus iawn wrth ddehongli'r data hwn, fodd bynnag, gan eu bod yn cael eu casglu drwy'r LLWR gan ddau goleg AB yn unig: Coleg Gwent a Choleg Gŵyr Abertawe.


Ffigur 4.5: Cymhwyster uchaf ymhlith dysgwyr PLA a'r boblogaeth economaidd weithgar yng Nghymru



Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA ac Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Ionawr-Rhagfyr 2021).

- 4.15 Nid yw gwybodaeth reoli gynhwysfawr am y sector diwydiannol y cyflogwyd dysgwyr ynddo wrth iddynt gofrestru ar y rhaglen neu eu galwedigaeth ar gael. Gofynnwyd am y meysydd pwnc hyn gan golegau AB yn y canllawiau PLA, ond mae'r wybodaeth hon wedi'i chasglu mewn modd anghyson. Gofynnwyd hefyd i gyfranogwyr PLA trwy'r arolwg dysgwyr, a thrwy hynny roi syniad o broffil sectoraidd dysgwyr PLA. Mae ffigur 4.6 isod yn dangos bod bron i draean o'r menywod a ymatebodd i'r arolwg PLA (a chwarter y dysgwyr yn gyffredinol) yn cael eu cyflogi yn y sector iechyd. At hynny, roedd chwarter y gwrywod a arolygwyd yn cael eu cyflogi yn y sector adeiladu ar adeg cofrestru ar y rhaglen.
- 4.16 Gallai amlygrwydd cymharol y rhai o'r sector iechyd gael ei ystyried yn achos pryder; un o ganlyniadau anfwriadol PLA yw'r gallu i hwyluso trosglwyddo unigolion o sector sydd ar hyn o bryd yn dioddef o brinder sgiliau. Archwilir hyn ymhellach yn adran 6, lle caiff y dadansoddiad o newidiadau gyrfaoel yn ôl sector ei adolygu.


Ffigur 4.6: Sector diwydiannol dysgwyr PLA ar adeg cofrestru yn ôl rhywedd



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

- 4.17 Ymhlith dysgwyr PLA, roedd dwy ran o dair (333/503) mewn cyflogaeth llawn amser, roedd 18 y cant (91/503) mewn cyflogaeth ran-amser, a disgrifiodd 10 y cant (52/503) eu hunain yn hunangyflogedig. Roedd dysgwyr benywaidd yn llawer mwy tebygol o fod yn gyflogedig yn rhan-amser wrth gofrestru, tra bod dynion yn llawer mwy tebygol o fod yn hunangyflogedig (gweler Ffigur 4.7 isod).
- 4.18 Disgrifiodd un ar ddeg y cant o ddysgwyr benywaidd sut roeddent ar ffyrlo adeg cofrestru, tra disgrifiodd 10 y cant o'r holl ddysgwyr (11 y cant o fenywod a naw y cant o ddynion) eu hunain naill ai ar gontract dim oriau, staff asiantaeth, neu mewn perygl o gael eu diswyddo. Mae goruchafiaeth gymharol y gweithwyr llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn y rhaglen yn awgrymu bod y rhaglen wedi bod yn llwyddiannus wrth gynnig hyblygrwydd darpariaeth ddysgu i'w galluogi i ymgysylltu tra hefyd yn gweithio mewn rôl llawn amser.

Ffigur 4.7: Statws cyflogaeth adeg cofrestru ar PLA yn ôl rhywedd



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

Astudiaeth achos: O fygythiad colli swydd i yrfa newydd mewn wythnosau

Gwnaeth Laura gais am gwrs drwy'r rhaglen PLA oherwydd ei bod ar fin cael ei diswyddo o'i rôl bresennol ym maes rheoli. Cafodd ei chyfeirio at y rhaglen gan Gymru'n Gweithio, y cysylltodd â nhw am gymorth oherwydd ei bod ar fin colli ei swydd. Ar y pryd, roedd hi ar ffyrlo ac, felly, roedd ganddi amser ychwanegol i ystyried beth ddylai hi ei astudio, yn ogystal â chwblhau'r cwrs. Yn ogystal â chefnogaeth gan Gymru'n Gweithio, derbyniodd arweiniad gan gynghorydd yn y coleg a greodd gynllun hyfforddi ar ei chyfer, a dywedodd ei bod yn ddefnyddiol iawn o ran rhoi cyngor ac arweiniad a'i chyfeirio i'r cyfeiriad cywir. Er bod gan Laura brofiad yn ei rôl bresennol, nid oedd ganddi'r cymhwyster ffurfiol angenrheidiol i ddod o hyd i gyflogaeth newydd yn dilyn y diswyddiad. Gwnaeth gais am Ardystiad Ymarferydd Agile Foundation PRINCE2 ac roedd yn gallu ei gwblhau ar-lein yn ystod ei chyfnod ffyrlo.

“Roedd yn brofiad da iawn ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyllid, gan ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr ar y pryd, ac rwyf wedi ei argymhell i ffrindiau ers hynny.”


Ers cwblhau'r cwrs, mae ganddi bellach yrfa newydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ym maes rheoli, sy'n cynnwys cefnogi tîm ehangach a galluogi eraill.

Priodolodd yr yrfa newydd hon i'r dysgu a wnaethant trwy PLA, a alluogodd iddi fynd i gyflogaeth o fewn wythnosau i ddiwedd y cwrs PRINCE2.

- 4.19 Ar gyfartaledd, roedd dysgwyr ar adeg cofrestru ar eu cwrs wedi bod gyda'u cyflogwr presennol am ychydig dros bum mlynedd. Gofynnwyd i ddysgwyr a arolygwyd pa rai o'r categorïau galwedigaethol safonol oedd yn adlewyrchu orau eu rôl ar adeg eu cofrestru yn y rhaglen PLA. Mae Ffigur 4.8 isod yn cymharu proffil galwedigaethol dysgwyr PLA â phroffil galwedigaethol yr holl weithwyr yng Nghymru. Mae'r siart yn dangos bod staff sydd wedi cofrestru yn ffrwd ELA y rhaglen yn fwy tebygol o fod yn brif weithredwyr neu'n uwch swyddogion na'r rhai yn y rhaglen PLA, tra bod bron i ddwy ran o bump o ddysgwyr dan arweiniad dysgwyr PLA wedi nodi eu bod naill ai mewn galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol neu mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â gofal a hamdden. Gyda'i gilydd, mae'r rolau hyn dan arweiniad dysgwyr bron ddwywaith mor gyffredin ymhlith dysgwyr PLA ag y maent ar draws poblogaeth gyflogedig Cymru. Mae mynychder y galwedigaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r

ffaith eu bod fel arfer yn tynnu enillion ar raddfa is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a thrwy hynny gynyddu'r tebygolrwydd o fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen PLA.


Ffigur 4.8: Dadansoddiad galwedigaethol o ddysgwyr PLA ac ELA o'i gymharu â'r holl weithwyr yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr. N=475 (y rhai a ymatebodd 'dim o'r uchod' wedi eu heithrio).

4.20 Mae Ffigur 4.9 isod yn dangos y categorïau galwedigaethol hunanddatganedig dysgwyr yn ôl rhywedd. Mae'r siart yn dangos sut mae dysgwyr gwrywaidd yn cael eu dominyddu gan y rhai mewn galwedigaethau masnach medrus, tra bod menywod yn gyffredin cael eu cyflogi mewn galwedigaethau gweinyddol, ysgrifenyddol, gofal neu hamdden wrth gofrestru yn y rhaglen PLA.

Ffigur 4.9: Dadansoddiad galwedigaethol o ddysgwyr PLA yn ôl rhywedd




Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

4.21 Gofynnwyd i ymatebwyr arolwg hefyd am eu henillion ar adeg cofrestru. Er bod dros dri chwarter y cyfranogwyr PLA dan arweiniad dysgwyr yn adrodd eu bod yn ennill llai na £25,000 y flwyddyn, nododd naw y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ennill dros £30,000 y flwyddyn ar ôl cofrestru, a fyddai'n awgrymu eu bod yn anghymwys ar gyfer ffrwd y rhaglen dan arweiniad dysgwyr. Er bod cyfradd 'gwall' fach fel arfer o ran anghymhwysedd, mae naw y cant ar lefel uwch y gyfradd honno. Gallai hyn ymwneud â'r ffaith bod cyfyngiadau ar gyflog wedi'u dileu ar gyfer y rhai a oedd ar ffyrlo neu mewn cyflogaeth anniogel⁴⁵ ar adeg cofrestru. Efallai hefyd fod rhai o gyfranogwyr ffrwd ELA y rhaglen, lle nad oedd unrhyw gyfyngiadau cyflog, wedi cael eu cofnodi ar gam fel cyfranogwyr PLA dan arweiniad dysgwyr.

4.22 Mae cymhariaeth o enillion ar y pwynt cofrestru yn ôl rhywedd, yn Ffigur 4.10 isod, yn dangos bod dros hanner y menywod yn ennill llai na £20,000 ar y pwynt cofrestru yn y rhaglen; mae hyn yn debygol o fod yn rhannol gysylltiedig o leiaf â'r ffaith bod menywod yn llawer mwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ran-amser na dynion.

Ffigur 4.10: Bandiau cyflog blynyddol ymhlith dysgwyr ar adeg cofrestru yn ôl rhywedd



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

⁴⁵ Wedi'i ddiffinio fel bod ar ffyrlo, ar ddim oriau, mewn cyflogaeth asiantaeth, mewn perygl o ddiswyddo, neu mewn cyflogaeth a'r economi wedi effeithio'n negyddol arnynt.

- 4.23 Mae'r rhaglen hefyd wedi'i chynllunio i ymgysylltu â dysgwyr annhraddodiadol trwy ddarparu cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu. Ymhlith y rhai a holwyd, roedd ychydig dros draean (37 y cant; 155/418) wedi ymgymryd â rhyw fath o ddysgu o'r blaen o fewn y 12 mis cyn cofrestru yn y rhaglen PLA, a bron i ddwy ran o dair o fewn y tair blynedd diwethaf. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu cyfranogiad mwy gweithredol mewn dysgu ymhlith dysgwyr PLA nag sy'n wir ledled y DU, lle (ar gyfartaledd) roedd 44 y cant o oedolion wedi cymryd rhan mewn dysgu yn ystod y tair blynedd diwethaf.⁴⁶
- 4.24 Er gwaethaf y dysgwyr cymharol weithgar ymhlith y boblogaeth PLA, roedd 35 y cant (147/418) o ddysgwyr wedi cymryd rhan ddiwethaf mewn rhyw fath o ddarpariaeth hyfforddiant o leiaf dair blynedd cyn cofrestru yn y rhaglen PLA. Felly, mae'r rhaglen wedi ymgysylltu ag ystod o gyfranogwyr, y rhai sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant yn rheolaidd a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan.

Teithiau dysgwyr


Ymgysylltu â'r rhaglen

- 4.25 Fel y dangosir yn Ffigur 4.11, deallir bod dau brif lwybr i mewn i'r rhaglen PLA ar gyfer dysgwyr unigol: gallant wneud cais yn uniongyrchol trwy un o'r 13 coleg AB sy'n cymryd rhan neu gellir eu hatgyfeirio trwy Gymru'n Gweithio. Mae rhaglen Cymru'n Gweithio yn darparu pwynt mynediad i Gymru gyfan i gymorth cyflogadwyedd. Mae'n galluogi unigolion i siarad ag ymgynghorwyr hyfforddedig am gyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu wrth sicrhau a chynnal gwaith, addysg neu hyfforddiant. Darperir cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru, Canolfannau Gwaith lleol, a lleoliadau allgymorth cymunedol eraill, yn ogystal â dros y ffôn ac ar-lein. Fel rhan o wasanaeth Cymru'n Gweithio, gall cynghorwyr gynnal arfarniad ac asesiad hyfforddiant o unigolyn, a fyddai'n hysbysu dyluniad cynllun dysgu unigol (a rennir gyda'r unigolyn). Disgwylir y byddai'r cynllun yn darparu'r rhesymeg sylfaenol y tu ôl i'r dewis o ddarpariaeth ddysgu a ariennir y mae unigolyn yn dymuno ei dilyn drwy'r rhaglen PLA.

⁴⁶ [Y Sefydliad Dysgu a Gwaith \(2021\) Arolwg cyfranogiad oedolion mewn dysgu 2021.](#)

4.26 Pan fydd unigolyn yn gwneud cais yn uniongyrchol i goleg AB sy'n cymryd rhan, rôl y coleg, drwy'r broses gofrestru, yw cynnal asesiad annibynnol cyn dysgu er mwyn sicrhau bod unigolyn yn cofrestru mewn cwrs a fydd yn cefnogi cynnydd cyflogaeth yn y sector o'u dewis.

Ffigur 4.11: Llwybrau i'r rhaglen PLA




Ymgysylltu â'r rhaglen

4.27 Pan ofynnwyd iddynt sut y daethant yn ymwybodol o PLA ac, yn benodol, a oeddent wedi cael eu cyfeirio gan Gymru'n Gweithio, cadarnhaodd 10 y cant o'r ymatebwyr (52/502) eu bod, tra na allai pump y cant arall (29/502) gofio sut y daethant yn ymwybodol. Dyma gyfran uwch o atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio nag a adroddir yn nodweddiadol gan golegau AB (a oedd yn amcangyfrif nad oedd mwy na phump y cant o ymholiadau yn atgyfeiriadau hysbys gan Gymru'n Gweithio), ac felly o bosibl yn adlewyrchu natur anffurfiol y llwybr atgyfeirio hwn, ar adegau.

4.28 Gofynnwyd i'r rhai na chawsant eu cyfeirio gan Gymru'n Gweithio sut y clywsant am y rhaglen am y tro cyntaf. Mae Ffigur 4.12 isod yn dangos mai'r llwybr mwyaf poblogaidd oedd drwy eu rheolwr llinell neu oruchwyliwr, yn enwedig felly ymysg menywod. Mae amlygrwydd y cyflogwr wrth godi ymwybyddiaeth o PLA braidd yn syndod. Fodd bynnag, gall ddangos rôl bosibl y cyflogwr wrth arwain unigolyn yn ei yrfa (nododd 20 y cant o ddysgwyr (79/407) fod y penderfyniad yn y pen draw bod y cwrs yn addas iddynt wedi'i wneud gan eu cyflogwr neu ar y cyd â'u cyflogwr), gyda chyflogwyr yn cael mwy o ddylanwad ar ddarpariaeth PLA dan arweiniad dysgwyr nag a ragwelwyd. Yn nodweddiadol, adroddodd gwrywod fwy o amrywiaeth yn y llwybrau y maent yn ennill ymwybyddiaeth ohonynt o'r rhaglen, ac, er enghraifft, adroddodd un rhan o bump o wrywod eu bod wedi clywed am y rhaglen drwy ledaenu'r gair.

Ffigur 4.12: Sut glywsoch chi am y rhaglen am y tro cyntaf?



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.


4.29 Gofynnwyd cwestiwn atodol i ddysgwyr ddeall, ar ôl dod yn ymwybodol o'r rhaglen, beth oedd yr ysgogiad i gofrestru ar PLA. I ddwy ran o dair o ddysgwyr (337/502), disgrifiwyd ennill cymhwyster neu symud ymlaen yn eu gyrfa fel y prif ysgogwr.

4.30 Ymhlith 13 y cant (64/502) o'r ymatebwyr, fodd bynnag, disgrifiwyd ganddynt eu bod wedi cael eu mandadu i gymryd rhan yn y dysgu gan eu cyflogwr neu reolwr llinell,

a thrwy hynny awgrymu nad oedd y rhaglen PLA dan arweiniad dysgwyr o'u safbwynt nhw o leiaf.

- 4.31 Gofynnwyd i'r dysgwyr beth yr oeddent yn gobeithio ei ennill o gymryd rhan yn yr hyfforddiant. Cyfeiriodd bron i dri chwarter at awydd am y cymhwyster penodol sy'n gysylltiedig â'r cwrs, tra cyfeiriodd bron i hanner (47%) at gynnydd yn eu gyrfa bresennol, a phedwar o bob 10 i gefnogi eu symud i yrfa newydd. Trwy ddadansoddiad wedi'i dargedu o ymatebion sy'n gysylltiedig â symud ymlaen yn eu gyrfa, dywedodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr (74 y cant; 370/503) naill ai symud ymlaen yn eu gyrfa bresennol neu symud i yrfa newydd fel un o nodau allweddol cymryd rhan yn y rhaglen. Mae ffigur 4.13 yn dangos tebygrwydd uchel pan ddadansoddir ymatebion yn ôl rhywedd, ar wahân i ddysgu sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl (naill ai'n dysgu amdano neu ymgymryd â dysgu i fynd i'r afael ag ef), roedd menywod fwy na dwywaith yn fwy tebygol na dynion i gyfeirio ato fel dyhead sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant.

Ffigur 4.13: Beth oeddech chi'n gobeithio ei gael o'r hyfforddiant? (yn ôl rhywedd)



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

4.32 Mae pob coleg yn cynnal gwiriad cymhwyster fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer y rhaglen PLA. Er bod y dull penodol yn amrywio o un coleg i'r llall, mae sgwrs fel arfer (naill ai ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb) i drafod eu dyheadau a'u hanghenion hyfforddi. Dim ond un coleg a gyfeiriodd at ddatblygu cynlluniau dysgu unigol ac roedd y rhain fel arfer yn cael eu harwain a'u cyflwyno yng nghamau cynnar cwrs ac yn gyfyngedig i raddau helaeth i ddarpariaeth cyrsiau a gyflenwir dros sawl mis:

“Mae sgwrs gyda'r unigolyn, yn gofyn ble maen nhw eisiau bod yn y flwyddyn nesaf, pa swydd maen nhw'n ei gwneud nawr, a ydyn nhw eisiau symud ymlaen yn y swydd honno neu symud swyddi. Cynllun hyfforddi llawn, ffurfiol? Na, nid yw hynny'n digwydd, ond mae'r trafodaethau hynny'n digwydd. Rydym yn cynnal dadansoddiad angen hyfforddiant, sy'n gynllun ar gyfer gweddill eu hoes.”

(Ymatebydd Coleg AB)

- 4.33 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o golegau addysg bellach at y broses gofrestru ar gyfer PLA fel un hirwyntog a biwrocraataidd, gan roi baich sylweddol ar eu hadnoddau staffio. Mynegodd sawl coleg bryderon y gallai'r gwaith papur fod yn annymunol i ddarpar ddysgwyr. Roedd un pryder yn ymwneud â'r dull cofrestru cyson waeth beth fo hyd/dwyster y cwrs, gyda'r rhai sy'n gwneud cais i gwrs undydd yn gorfod mynd drwy'r un broses ag ymgeisydd i gwrs dwy flynedd.
- 4.34 Er bod pryder ymhlith colegau o ran hyd y broses gofrestru ar gyfer PLA, pan ofynnwyd i ddysgwyr pa mor syml oedd y broses, dywedodd bron i dri chwarter (73 y cant; 363/500) ei bod yn 'syml iawn' a bod 23 y cant arall (117/500) yn “gymharol syml”.
- 4.35 Roedd ychydig o dan un rhan o bump o'r dysgwyr a holwyd yn cofio gweithio gyda chynghorydd i ddatblygu cynllun dysgu unigol. Lle roeddent yn cofio datblygu cynllun dysgu unigol, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg raddio ei ddefnyddioldeb allan o 5 (gyda 5 yn 'ddefnyddiol iawn'), gan arwain at gyfartaledd o 4.5 allan o 5. Ymhellach, ymhlith dwy ran o dair (62/93) o ddysgwyr, dylanwadodd y cynllun ar y cwrs y gwnaethant ddewis cymryd rhan ynddo, gan wneud hynny i raddau helaeth ymhlith 32 y cant (30/93).
- 4.36 Er bod mwyafrif (78 y cant; 316/407) y dysgwyr wedi disgrifio sut y gwnaethant benderfynu yn y pen draw a fyddai'r cwrs yn fwyaf addas ar eu cyfer, nododd 12 y cant (48/407) fod eu cyflogwr wedi pennu addasrwydd y cwrs, tra disgrifiodd 8 y cant arall (31/407) sut yr oedd yn benderfyniad ar y cyd rhyngddynt a'u cyflogwr. Mae amlygrwydd eu cyflogwr wrth benderfynu ar y cwrs y mae unigolyn wedi cofrestru ynddo yn cynnig tystiolaeth bellach o ddylanwad cyflogwr ar gyfranogiad dysgwyr. Efallai ei fod hefyd yn dangos cofnodi anghywir o gyfranogwyr dysgwyr ar

PLA, pan efallai y bydden nhw wedi'u cysylltu'n fwy cywir â ffrwd ELA y rhaglen yn lle hynny.

Addasrwydd y cwrs

- 4.37 Er gwaethaf y prosesau cofrestru helaeth, roedd pryderon o hyd ymhlith rhai colegau addysg bellach ynghylch addasrwydd rhai cyfranogwyr ar gyfer cyrsiau. Nododd golegau feini prawf cymhwyster, ond o ran addasrwydd, roedd y camau a nodwyd yn Ffigur 4.11 yn flaenorol yn yr adran hon yn rhai ymgynghorol yn unig; yn y pen draw, gallai unigolyn ddewis cymryd rhan ym mha gwrs bynnag yr oedd yn dymuno gwneud.
- 4.38 Disgrifiodd y colegau AB peilot sut yr arweiniodd y cynnydd cyflym mewn diddordeb ac ymgysylltiad yn y rhaglen at gyflymu yn y broses gofrestru, gan gyfyngu ar y graddau yr oeddent yn gallu pennu anghenion penodol ymgeiswyr. I ddechrau, adolygwyd ymgeiswyr gan gydlynnydd i sicrhau bod eu cefnogaeth yn cael ei phersonoli, ond gyda'r cynnydd mewn ymgeiswyr, nid oedd hyn yn bosibl mwyach, gan gynyddu'r risg y byddai cyfranogwyr yn dewis cwrs anaddas.
- 4.39 Ymhlith y dysgwyr a adawodd eu cyrsiau'n gynnar, cyfeiriodd tua 10 y cant (11/112) at y cwrs fel un nad oedd yn addas iddyn nhw, tra dywedodd saith y cant (8/112) ei fod yn rhy ddatblygedig iddyn nhw. Mae hyn yn awgrymu efallai nad yw materion sy'n ymwneud ag addasrwydd cwrs wedi bod mor gyffredin ag yr ofnwyd yn gyntaf.
- 4.40 Fodd bynnag, efallai bod y pryderon ynghylch addasrwydd cwrs wedi'u gwaethygu gan bryderon cysylltiedig ynghylch diffyg unrhyw oblygiadau ariannol i ddysgwyr sy'n gadael yn gynnar. Ar ôl cofrestru, mae'r ddarpariaeth yn rhad ac am ddim i unigolyn, gyda chostau dysgwyr ond yn cael eu hysgwyddo o ran amser, teithio a deunyddiau dysgu (yn bennaf unwaith y bydd y cwrs wedi dechrau). Mynegwyd pryderon gan golegau ynghylch gwerth canfyddedig cyrsiau am ddim, er y croesawyd cyflwyno cyfyngiadau ar nifer y cynlluniau y gall unigolyn wneud cais amdanynt. Yn ogystal, disgrifiwyd y baich gweinyddol wrth benderfynu a yw dysgwr wedi gadael cwrs fel un sylweddol.

Ymgysylltu â chyflogwyr yn y ffrwd ELA

- 4.41 Er mwyn cofrestru staff yn elfen ELA y rhaglen, mae'n ofynnol i gyflogwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â cholegau AB i drafod eu gofynion a phenderfynu ai dyma'r rhaglen fwyaf addas ar gyfer diwallu eu hanghenion. Os nad oedd y ddarpariaeth ofynnol ar gael, byddai angen proses gymeradwyo'r cwrs a amlinellir yn yr adran flaenorol.
- 4.42 Siaradodd pob coleg AB am bwysigrwydd perthnasau presennol wrth ddenu ac ymgysylltu â chyflogwyr mewn perthynas â ffrwd ELA y rhaglen (gyda'r rhan fwyaf o golegau yn nodi mai cyflogwyr y mae perthynas yn bodoli â nhw yn barod oedd mwyafrif y cyflogwyr yr oeddent wedi ymgysylltu â nhw). Fodd bynnag, tynnodd colegau sylw at sut roedd PLA wedi helpu i gadarnhau ac ymestyn y perthnasau presennol hynny yn ogystal ag ymestyn y rhwydweithiau hynny i adeiladu rhwydwaith mwy o gleientiaid newydd/ychwanegol.
- 4.43 Adlewyrchwyd pwysigrwydd perthnasau a oedd yn bodoli eisoes yn yr adborth gan gyflogwyr. Yn wir, daeth dros ddwy ran o dair o gyflogwyr a arolygwyd (68 y cant; 44/75) yn ymwybodol o'r rhaglen trwy goleg AB (59 y cant) neu ddarparwr hyfforddiant (9 y cant). Roedd tri chwarter y cyflogwyr (54/72) wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant gyda'r coleg AB y gwnaethant ymgysylltu ag ef drwy'r rhaglen, gyda 39 o'r rhain (72%) yn gwneud hynny ar sawl achlysur.
- 4.44 Pan ofynnwyd iddynt beth a ddenodd cyflogwyr i holi ynghylch y rhaglen, cyfeiriodd bron i hanner (33/72), heb gymhelliant, at yr hyfforddiant am ddim a oedd ar gael:
- “Rwy'n fusnes bach ac mae cael ein hariannu'n llawn wedi ein helpu ni — yn enwedig yn ystod [COVID-19] gyda chwblhau cyrsiau rydyn ni fel arfer yn eu gwneud — ar gyfer adnewyddwyr/diweddariadau neu sgiliau newydd.” (Cyflogwr)
- “A bod yn onest, oherwydd ei fod wedi'i ariannu'n llawn. Ni fyddem wedi gallu rhoi cymaint o beirianwyr ar y cwrs - nid oedd y gyllideb i wneud hynny.” (Cyflogwr)
- 4.45 Cyfeiriodd ychydig dros draean o gyflogwyr (26/72) at yr angen am hyfforddiant neu i uwchsgilio eu gweithwyr:

“Rhoddodd gyfle i ni wneud nifer o gyrsiau na allem eu gwneud yn fewnol. Rhoddodd gymwysterau a chyfleoedd allanol i'r staff i symud ymlaen o fewn y sefydliad.” (Cyflogwr)

- 4.46 Fel rhan o'r broses gofrestru honno, disgwylir i golegau drafod effaith bosibl cymwysterau a gyflwynir trwy ELA i fusnesau cymwys i bennu gwerth ychwanegol y cymorth, yn enwedig mewn perthynas â chreu swyddi newydd neu well ac a allai'r rhain gael eu llenwi gan unigolion presennol neu newydd.
- 4.47 Mae'r cais yn gofyn am wybodaeth am:
- Berfformiad a chynlluniau twf cyflogwyr yn ystod y 12 mis nesaf mewn perthynas â swyddi a grëir.
 - Y rôl y gallai PLA ei chwarae wrth gefnogi creu cyfleoedd gwaith.
 - Nodau/dyheadau'r cyflogwr sy'n gysylltiedig â gwneud cais am PLA.
 - Nifer y gweithwyr y maent yn dymuno eu hyfforddi (a pha gyfran o'r rhain fyddai'n weithwyr newydd neu'n weithwyr presennol).
- 4.48 Unwaith eto, roedd colegau addysg bellach yn tynnu sylw at hyd y broses ar gyfer cymeradwyo cyrsiau ynghyd â pro forma'r cyflogwr a chostau cyrsiau fel rhai cymhleth, llafurus a beichus ar y cyd. Ymhlith cyflogwyr, fodd bynnag, dim ond 5% (3/74) wnaeth gyfeiriadau digymell at y gofynion gweinyddol a/neu oedi wrth gymeradwyo cyrsiau (pan ofynnwyd iddynt am welliannau). I roi hyn yn ei gyd-destun, roedd un rhan o bump o gyflogwyr (17/74) wedi gofyn i'r coleg sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer y cwrs yr oeddent yn dymuno i'w gweithwyr ei wneud; yn y sefyllfaoedd hyn y byddai'r oedi amser wedi bod yn hiraf.
- 4.49 Pan ofynnwyd iddynt ba ddulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i bennu gofynion hyfforddi sefydliadol, cyfeiriodd tri o bob 10 cyflogwr at adolygiadau eu sgiliau eu hunain, eu cynlluniau, neu'u matrices hyfforddi i bennu anghenion sgiliau. Cyfeiriodd saith cyflogwr arall at ganllawiau gan golegau AB neu ddarparwyr hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd chwarter y cyflogwyr a ymatebodd yn fwy adweithiol wrth benderfynu ar y cwrs y byddent yn ymgymryd ag ef, gan adolygu pa gyrsiau oedd ar gael cyn penderfynu pa gyrsiau i gofrestru gweithwyr ynddynt.

- 4.50 Cyfeiriodd chwe chyflogwr arall at y gofyniad cyfreithiol i ymgymryd â chymwysterau ffurfiol penodol fel y dylanwad allweddol ar bennu gofynion hyfforddi sefydliadol. Adroddwyd pryderon cychwynnol gan dîm y rhaglen ynghylch achosion lle gallai cyflogwyr fod wedi bod yn defnyddio ffrwd ELA o PLA ar gyfer cymwysterau sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Arweiniodd hyn at dynhau canllawiau ar gyfer rhaglen 2021/22, a oedd yn nodi, “er enghraifft, yn y sector adeiladu ni ddylid defnyddio PLAs i ddarparu hyfforddiant ar gyfer cymwysterau iechyd a diogelwch sy'n ofynnol yn gyfreithiol; ond gellir eu defnyddio ar gyfer cymwysterau uwch fel NEBOSH a fydd yn gwella rhagolygon gyrfa ac enillion unigolyn”.⁴⁷
- 4.51 Archwiliwyd rôl y coleg AB wrth bennu anghenion hyfforddi ymhellach gyda chyflogwyr. Disgrifiodd dros draean (27/73) nad oedd gan y coleg unrhyw rôl neu ychydig iawn o rôl yn y broses hon; fodd bynnag, roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y cyflogwr yn teimlo ei fod eisoes yn gwybod yn union pa hyfforddiant yr oedd ei eisiau: “roeddem yn gwybod pa gyrsiau oedd ar gael ac yn dewis ar unwaith” (cyflogwr). Fodd bynnag, nododd dros hanner (42/73) berthynas waith agos, gan archwilio anghenion hyfforddi a nodau cyflogwyr a phenderfynu ar addasrwydd cyrsiau:
- “Gan weithio gyda'r coleg, rydym yn creu rhaglen ILM bwrpasol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth ac yn dewis y modiwlau cywir sydd wedi'u teilwra ar gyfer ein diwydiant fel bod yr hyn yr ydym ei eisiau o ran ein sesiynau mewnol a siaradwyr allanol yn cyfateb i'r cwrs coleg, ac mae'r coleg yn bod yn hynod ddefnyddiol ac mae ein perthynas yn gweithio'n dda iawn.” (Cyflogwr)
- “Gwrandawodd y coleg ar yr hyn yr oeddem ei eisiau o ran hyfforddi'r staff yn y feddalwedd newydd. Fe wnaethant addasu un o'u cyrsiau presennol i gwmpasu'r hyn yr oeddem ei eisiau'n benodol. Roeddent hefyd yn cynnig sesiynau galw heibio i helpu aelodau staff â sgiliau TG gwan.” (Cyflogwr)
- 4.52 Disgrifiodd dwy ran o dair o gyflogwyr (45/75) sut roeddent yn gobeithio y byddai'r hyfforddiant yn gwella lefel sgiliau yn y gweithlu, gan gryfhau cynnig y sefydliad a galluogi staff i symud ymlaen. Disgrifiodd bron i draean sut y byddai'r hyfforddiant

⁴⁷ Llywodraeth Cymru (2020) Cyfrifon Dysgu Personol 2020–21 Canllawiau V1.1 Terfynol.

yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch neu safonau diwydiant:

“Roeddwn i eisiau dangos beth oedd diben y cyfarwyddwr newydd - datblygu; dangos i unigolion ein bod ni'n barod i ddatblygu'r tîm; llenwi'r bylchau sgiliau; rhoi ysbrydoliaeth o ran gwneud pethau'n wahanol.” (Cyflogwr)


“Mae buddsoddi a gwerthfawrogi ein peirianwyr yn bwysig ac mae cynyddu eu sgiliau yn golygu y gallwn dderbyn mwy o gontractau sy'n cwmpasu ein hamrywiaeth lawn o wasanaethau.” (Cyflogwr)

- 4.53 O ran cymhwyster ar gyfer ffrwd y cyflogwr, nid yw'r trothwy cyflog canolrifol yn berthnasol, ond mae ei brif ffocws o hyd ar godi cyflogau'r rhai sy'n cymryd rhan.
- 4.54 Mae cyflogwyr y sector cyhoeddus hefyd yn gymwys ar gyfer y rhaglen. O fis Medi 2021, fodd bynnag, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r holl uwchsgilio arfaethedig ar gyfer cyflogwyr sector cyhoeddus gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo cyn ei gyflenwi i asesu'r risg a yw'r gweithgaredd arfaethedig yn gorgyffwrdd ag ymyriadau polisi eraill.
- 4.55 Fodd bynnag, roedd yr heriau a oedd yn gysylltiedig â gwerthuso ceisiadau am gyrsiau yn bresennol ar draws ffrydiau dan arweiniad dysgwyr a chyflogwyr y rhaglen. O ystyried cyfaint y cyrsiau a'r ceisiadau, graddfa adnoddau staff y rhaglen, a rhywfaint o dystiolaeth o ddarpariaeth anghymwys, nid yw'n glir sut y cafodd y ceisiadau am gyllid eu gwerthuso a/neu pa gyfran o'r ceisiadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w hadolygu.

Proffil y cwrs

- 4.56 Mae darpariaeth y cwrs a gofnodwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r LLWR wedi'i fapio yn erbyn meysydd pwnc sector. Cyflwynir dosbarthiad cyrsiau yn ôl maes pwnc sector yn Ffigur 4.14 isod. Mae'r siart yn dangos bod bron i draean o gofrestrïadau cyrsiau ar gyfer cyrsiau sydd wedi'u dynodi i fod mewn sector generig/arall. Gyda'i gilydd, mae bron i 40 y cant o'r cyrsiau naill ai o fewn y sector adeiladu neu'r sector TGCh.


Ffigur 4.14: Cofrestriadau cyrsiau yn ôl maes pwnc sector (PLA ac ELA)



Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA. N=21,403.

4.57 Mae Ffigur 4.15 yn cymharu cofrestriadau dysgwyr personol yn ôl maes pwnc sector a rhywedd, wedi'u meincnodi yn erbyn proffil rhywedd dysgwyr yr holl ddarpariaeth dysgu ôl-16 ledled Cymru. Mae'r siart yn dangos, ar draws y rhan fwyaf o feysydd pwnc y sector, bod menywod yn fwy cyffredin ar gyrsiau PLA nag y maent mewn darpariaeth dysgu ôl-16 yn gyffredinol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y sector adeiladu, lle mae menywod bron bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn bresennol ar gwrs PLA nag y maent fel arfer mewn darpariaeth dysgu ôl-16. Mae'r data felly'n awgrymu rhywfaint o gynnydd mewn cofrestru menywod mewn sawl maes pwnc sector lle mae dynion yn draddodiadol yn dominyddu.

Ffigur 4.15: Cynrychiolaeth fenywaidd ar gyrsiau yn ôl maes pwnc sector – PLA a'r holl ddarpariaeth dysgu ôl-16 yng Nghymru




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli a Dadansoddiad PLA o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Llywodraeth Cymru. Sylfaen: 100 o ddysgwyr PLA.

4.58 Mae dadansoddiad pellach o'r data hwn ar lefel y coleg yn nodi llwyddiannau nodedig o ran ymgysylltu â menywod:

- O fewn y sector adeiladu, roedd dysgwyr benywaidd yng Ngholeg Gwent a'r rhai yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro (CAVC) yn cynrychioli 31 y cant a 27 y cant o gyfanswm y dysgwyr yn y drefn honno.
- Yn y sector peirianeg, menywod oedd 13 y cant o'r holl ddysgwyr a gofrestrodd yng Ngrŵp NPTC.
- Yn y sector TGCh, menywod oedd 73 y cant o'r holl ddysgwyr yng Ngrŵp NPTC a 58 y cant o'r holl ddysgwyr yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

4.59 Mae'r wybodaeth reoli ar lefel cymwysterau cyfatebol darpariaeth y cwrs yn cael ei chadw mewn modd sy'n golygu nad yw'n hawdd ei dadansoddi ar lefel traws-raglen. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r holl ddysgwyr a arolygwyd a oeddent yn gwybod lefel y cyrsiau yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt — roedd bron i ddwy ran o dair (63 y cant; 317/501) yn teimlo eu bod yn gallu ymateb. Mae eu hymatebion yn dangos bod mwyafrif (69 y cant) y cyrsiau yn Lefel 2 neu Lefel 3 FfCChC, tra bod naw y cant o'r cyrsiau yn lefel mynediad neu FfCChC Lefel 1 (gweler Ffigur 4.16 isod).


Ffigur 4.16: Cymhwyster cyfatebol canfyddedig cyrsiau PLA



Ffynhonnell: Dehongliad Wavehill o Wybodaeth Reoli PLA.

4.60 Er mwyn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i werth ychwanegol y rhaglen PLA wrth ddenu unigolion i gymryd rhan mewn dysgu oedolion, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddyfalu ynghylch yr hyn y gallent fod wedi'i wneud o ran eu dysgu yn absenoldeb y rhaglen PLA. Ni fyddai bron i hanner yr ymatebwyr (46 y cant; 231/499) wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant, tra byddai traean wedi sicrhau'r hyfforddiant trwy ddarparwr gwahanol. Roedd y rhai a nododd eu bod mewn cyflogaeth lai diogel⁴⁸ yn llawer mwy tebygol o beidio â bod wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant yn absenoldeb PLA (62 y cant; 50/81). Pan ddadansoddwyd ymatebion yn ôl rhywedd (gweler Ffigur 4.17 isod), mae'n amlwg, yn absenoldeb yr arian, bod menywod yn fwy tebygol o beidio â bod wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant na dynion.

Ffigur 4.17: Beth fyddai dysgwyr wedi ei wneud yn absenoldeb PLA?



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

⁴⁸ Wedi'i ddiffinio fel bod ar ffyrlo, ar ddim oriau, mewn cyflogaeth asiantaeth, mewn perygl o ddiswyddo, neu mewn cyflogaeth a'r economi wedi effeithio'n negyddol arnynt yn ariannol.

5. Canfyddiadau - Profiad Y Dysgwyr/Cyflogwr

Crynodeb

- Cymerodd bron i dri chwarter yr holl ddysgwyr (72 y cant) ac 81 y cant o ddysgwyr benywaidd ran mewn o leiaf rhywfaint o'u hyfforddiant ar-lein.
- Byddai bron i un rhan o bump o ddysgwyr wedi hoffi i'w hyfforddiant gael ei gyflwyno mewn modd gwahanol, a byddai hanner y rhain wedi dewis ei gyflenwi'n bersonol, rhywbeth a gyfyngwyd gan y pandemig.
- Ymgwymerodd bron pob dysgwr (97 y cant) â'u cwrs yn Saesneg, ac roedd 99 y cant ohonynt yn dysgu'n hapus yn y cyfrwng hwnnw.

Cyflwyniad

- 5.1 Mae'r adran hon yn edrych ar brofiad dysgwyr a chyflogwyr a gofrestrodd yn y rhaglen PLA. Mae'n dadansoddi safbwyntiau ar natur a dull y dysgu a dderbynnir.

Dull dysgu

- 5.2 Cymerodd bron i dri chwarter (72 y cant; 361/502) o ddysgwyr ran yn eu hyfforddiant ar-lein, gyda naw y cant arall yn cymryd rhan mewn dysgu cyfunol (cymysgedd o ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb), tra disgrifiodd naw y cant arall gymryd rhan yn y dysgu yn y gweithle.

Tabl 5.1: Dull dysgu yn ôl rhywedd

	Ar-lein	Yn y Coleg	Yn eich Gweithle	Yn y Coleg ac Ar-lein	Rhywle Arall
Gwrywod (N=239)	59%	23%	10%	6%	3%
Benywod (N=278)	73%	12%	5%	8%	2%

Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

Astudiaeth achos: Hyblygrwydd o ran cyfrifoldebau gofalu

Roedd Sara yn gweithio'n llawn amser mewn swydd weinyddol o fewn addysg ac yn ceisio newid gyrfaedd. Darganfu'r rhaglen PLA yn ddamweiniol pan ffoniodd y coleg i gael mynediad at gwrs gwahanol, ond dywedon nhw wrthi fod angen iddi ddilyn cwrs arall yn gyntaf. Roedd y gefnogaeth gan gynghorydd dysgu i ddatblygu cynllun dysgu yn hanfodol, gan ei fod yn ei rhoi ar y llwybr mwyaf priodol i gyflawni ei nod terfynol, sef gweithio ym maes gofal iechyd.

“Rwy'n gofalu am fy mam, ond gan mai dim ond dwy awr oedd y dysgu gyda'r nos ac y gallwn ei gyrchu gartref, roeddwn i'n gallu dysgu a gofalu am fy mam ar yr un pryd.”


Cofrestrodd yn y Dystysgrif VTCT Lefel 3 mewn Anatomeg, Ffisioleg a Phatholeg ar gyfer Therapiau Cyflenwol, a oedd yn gam tuag at addysg bellach. Cyflwynwyd y cwrs ar-lein, a oedd yn golygu y gallai ddechrau o fewn wythnosau i wneud cais. Roedd Sara yn hynod gadarnhaol am hyblygrwydd y cwrs oherwydd ymrwymadau gofalu gartref gyda'i mam a'i phlant hŷn.

“Mae'r PLA wedi gwneud i mi sylweddoli fy mod yn gallu dysgu ar lefel gradd, a chyfarfŷm â phobl a'm hanogodd i fynd ymlaen a cheisio addysg uwch. Agorodd y coleg y drws a rhoddodd fwy o hyder i mi ddweud: 'Gallaf wneud hyn.' Fe weddnewidiodd fy mywyd.”

Mae'r cwrs wedi bod yn drawsnewidiol i Sara ac wedi rhoi'r hyder iddi barhau ar y llwybr i astudio nyrsio. Ers hynny mae hi wedi gadael ei swydd ac yn mynd i addysg uwch llawn amser i astudio nyrsio oedolion o ganlyniad i'r cwrs PLA. Soniodd fod y cwrs PLA yn elfen hanfodol yn y penderfyniad hwn i barhau i ddysgu i lefel gradd yn ogystal â'i hawydd i ddilyn gyrfa mewn gofal iechyd.

5.3 Roedd dros hanner (57 y cant) yn cyrchu'r hyfforddiant yn ystod y dydd, tra bod bron i chwarter yn cyrchu'r dysgu gyda'r nos yn ystod yr wythnos. Yn ddiddorol, roedd y rhai a gwblhaodd y dysgu yn llawer mwy tebygol o'i gyrchu yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos nag oedd y rhai a adawodd yn gynnar, a oedd yn fwy tebygol o gyrchu'r ddarpariaeth dros y penwythnos. Yn dilyn y siart (Ffigur 5.1), mae Tabl 5.2 yn dadansoddi'r data yn ôl rhywedd, sy'n dangos amrywiad ymylol mewn ymatebion.

Ffigur 5.1: Pryd oedd dysgwyr fel arfer yn cyrchu'r cwrs



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

Tabl 5.2: Pryd oedd dysgwyr fel arfer yn cyrchu'r cwrs yn ôl rhywedd

	Gwryw (N=244)	Benyw (N=306)
Yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos	46%	51%
Gyda'r nos yn ystod yr wythnos	21%	23%
Roedd yn hyblyg – gallwn ddewis pryd i gyrchu'r dysgu	23%	21%
Yn ystod penwythnosau	9%	5%
Arall	0.4%	0.3%

Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

Astudiaeth achos: Hyblygrwydd o amgylch hyd y cwrs a darparwr hyfforddiant allanol

Roedd Jack yn gweithio'n llawn amser yn y sector iechyd ac roedd eisoes yn gymwys iawn (yn meddu ar radd meistr). Er mwyn symud ymlaen i fod yn rheolwr prosiect, fodd bynnag, roedd angen cymhwyster penodol arno. Gwnaeth gais am y Agile Foundation PRINCE2, y gwyddai fod ei angen i bontio'r bwlch hwn, a galluogodd PLA iddo ei wneud yn gynt ac am ddim.

Fodd bynnag, roedd Jack yn siomedig yn gyffredinol gyda'r ffordd y cyflenwyd y cwrs, yn enwedig y darparwr hyfforddiant allanol. Dywedodd ei fod yn gweld cynnwys y cwrs yn arwynebol a'i fod yn rhwystredig bod y cwrs wedi'i gyfyngu i dri mis, a'i fod yn teimlo ei fod yn cael ei wthio i gwblhau arholiadau'n gynnar, fel nad oedd yn rhaid iddo dalu am y cwrs. Roedd ei wneud yn ddigidol yn ddefnyddiol i Jack yn ystod COVID-19, gan ei fod yn golygu y gallai astudio yn ei amser ei hun ochr yn ochr â'r cwrs, ond canfu Jack nad oedd digon o hyblygrwydd wedi'i roi gan y darparwr hyfforddiant er mwyn cwblhau'r cwrs yn ei amser ei hun.


“Roedd [darparwr y cwrs] yn hynod ymwithgar. Mae'n debyg nad oedd dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r cwrs hwn, ond fe wnaethant gysylltu â mi bob wythnos, gan ofyn ble roeddwn i wedi cyrraedd gydag ef. Roedd gen i ddwy swydd ar y pryd ac roeddwn yn teimlo dan bwysau. Doedd gen i ddim llawer o amser sbâr, o gofio fy mod wedi gweithio i'r GIG yn ystod [COVID-19].”

Roedd Jack yn gadarnhaol yn gyffredinol am y ddarpariaeth dysgu am ddim a gafodd, gan nodi bod ganddo'r potensial i fod yn ddefnyddiol iawn i bobl sydd eisiau symud ymlaen yn eu gyrfaedd. Yn dilyn y cwrs, cafodd Jack swydd newydd mewn rheoli prosiectau — nododd, er bod y cwrs Agile Foundation PRINCE2 yn ddefnyddiol ar gyfer ei CV yn gyffredinol, nid oedd yn priodoli ei swydd newydd mewn unrhyw ffordd i'r cwrs, gan ei fod wedi'i anelu at ymwybyddiaeth gyffredinol ac ochr gysyniadol rheoli (yn hytrach na'i gymhwyso'n fwy ymarferol).

5.4 Pan ofynnwyd a fyddai wedi bod yn well ganddynt pe bai'r cwrs wedi cael ei gyflwyno'n wahanol, cytunodd bron i un rhan o bump (121/503) o'r ymatebwyr, ac ni fyddai unrhyw wahaniaeth yng nghyfradd yr ymateb wrth ei ddadansoddi yn ôl rhywedd. Ymhlith y rhai a adawodd y ddarpariaeth yn gynnar, cynyddodd 36 y cant (40/112) i hyn. Roedd y rhai a ddisgrifiodd fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu neu

ofal plant ychydig yn fwy tebygol o fod wedi ffafrio cyflwyno'r cwrs mewn modd gwahanol (26 y cant; 46/180). Pan ofynnwyd iddynt sut y byddent eisiau i'r cwrs gael ei gyflwyno'n wahanol, cyfeiriodd ymatebwyr yn fwyaf cyffredin at ddarpariaeth bersonol neu lefel uwch o ryngweithio — y ddwy elfen a fyddai wedi cael eu cyfyngu gan bandemig COVID-19. Fel y dangosir yn Ffigur 5.2 isod, mae'n nodedig bod menywod yn llawer mwy tebygol o fod wedi cyfeirio at fod eisiau mwy o ryngweithio (21 y cant) na dynion (5 y cant), er y dylid bod yn ofalus gyda'r ffigurau hyn, o ystyried maint y sampl.

Ffigur 5.2: Sut fydddech chi wedi hoffi i'r cwrs gael ei gyflenwi? (yn ôl rhywedd)



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.


Dull dysgu ar gyfer ffrwd ELA

5.5 Ymhlith cyflogwyr, er bod 10 o'r 72 o ymatebwyr wedi derbyn y ddarpariaeth hyfforddiant yn y gweithle, fe'i cyflwynwyd yn fwyaf cyffredin ar-lein (47/72) a/neu ar safle'r coleg AB neu'r darparwr hyfforddiant (46/72). Roedd nifer y cyfranogwyr a gofrestrodd pob cyflogwr yn ffrwd ELA y rhaglen PLA yn eang, o un gweithiwr i 150 o weithwyr. Y nifer cyfartalog o weithwyr a gofrestrwyd ar y rhaglen oedd 16, a'r canolrif oedd pump.

Hyd y cwrs

5.6 Gofynnwyd i ddysgwyr a arolygwyd a oedd wedi cwblhau eu dysgu i amcangyfrif yr oriau dysgu yr oeddent wedi'u cyflawni er mwyn cael teimlad o hyd a dwyster y gefnogaeth yr oeddent wedi'i derbyn (Ffigur 5.3). Yn fwyaf cyffredin, roedd dysgwyr yn derbyn rhwng 26 a 50 awr o addysgu; fodd bynnag, roedd traean yn derbyn mwy na 50 awr o gefnogaeth.

Ffigur 5.3: Sawl awr o ddysgu ac addysgu gawsoch chi? (n=311)



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

Darpariaeth yn y Gymraeg

5.7 O fewn set ddata LLWR, disgrifiodd naw y cant o ddysgwyr (1,510/16,241) eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, gyda phedwar y cant (700/16,241) yn rhugl. Mae'r LLWR hefyd yn cofnodi'r cymhwyster iaith Gymraeg uchaf sydd gan ddysgwr, gydag 11 y cant (1,788/16,241) yn adrodd bod ganddynt gymhwyster Lefel 2 FfCChC neu uwch yn yr iaith Gymraeg.

5.8 Adroddodd pob coleg addysg bellach eu bod yn cynnig dysgu drwy'r rhaglen PLA drwy gyfrwng y Gymraeg; fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o golegau sut y bu nifer cyfyngedig (pum coleg addysg bellach) neu dim (pedwar ymatebydd) wedi derbyn y ddarpariaeth Gymraeg. Adlewyrchwyd hyn yn yr adborth gan ddysgwyr, lle adroddodd y mwyafrif helaeth (97 y cant; 487/503) eu bod wedi ymgymryd â'u cwrs yn Saesneg, gyda'r gweddill yn cymryd rhan mewn darpariaeth ddysgu yn cael ei

chyflwyno'n ddwyieithog. Gofynnwyd i ddysgwyr a dderbyniodd yr hyfforddiant yn Saesneg a fyddai wedi bod yn well ganddynt i'r hyfforddiant gael ei gyflwyno mewn iaith wahanol, gyda 99 y cant (479/486) yn cadarnhau eu bod yn hapus gyda'r cwrs yn cael ei gyflwyno yn Saesneg.

- 5.9 Mewn achosion lle gofynnir am ddarpariaeth Gymraeg, mae colegau addysg bellach yn defnyddio siaradwyr Cymraeg ymhlith eu staff i gyflenwi'r ddarpariaeth honno. At hynny, mae colegau addysg bellach yn cyflwyno cyrsiau Cymraeg (anghymwys o dan PLA), gan gyfeirio dysgwyr PLA at y cyfleoedd hyn lle mae awydd i gryfhau'r sgiliau hyn fel rhan o'u dyheadau gyrfaol. Gofynnwyd i ddysgwyr hefyd a oeddent, fel rhan o'u cais, wedi cael cynnig unrhyw hyfforddiant Cymraeg, gydag wyth y cant o ddysgwyr (40/502) yn cofio cael cynnig yr hyfforddiant hwnnw.

6. Deilliannau ac Effeithiau'r Rhaglen

Crynodeb

- Mae gan y rhaglen PLA dan arweiniad dysgwyr gyfradd uwch o rai a adawodd yn gynnar (16 y cant) nag unrhyw ddarpariaeth arall dysgu oedolion (4 y cant). Gall y gyfradd y rhai adawodd yn gynnar fod yn uwch o hyd, gan ei bod yn debygol bod rhai dysgwyr a gofnodir ar hyn o bryd fel rhai sy'n 'parhau â'u dysgu' fod wedi gadael y ddarpariaeth ond nad ydynt eto wedi hysbysu'r coleg AB.
- Mae cyfraddau'r rhai a adawodd yn gynnar yn amrywio'n sylweddol yn ôl coleg AB, gydag ymrwymïadau gwaith, amgylchiadau personol, neu newid rôl swydd yn golygu nad oedd y dysgu bellach yn berthnasol yn brif resymau dros adael y cwrs yn gynnar.
- Cynnydd mewn hunanhyder a hunan-gymhelliant, dyheadau gyrfacol cliriach, bod yn fwy abl i gefnogi cydweithwyr eraill, a gallu gweithio'n fwy annibynnol oedd y deilliannau a nodwyd amlaf o ran cyfranogiad dysgwyr mewn PLA.
- Ymhlith y rhai a oedd wedi cwblhau'r cwrs neu a oedd wedi cwblhau dros hanner y cwrs ac yna wedi gadael yn gynnar, mae 22 y cant bellach mewn gyrfa wahanol, mae 6 y cant mewn swydd newydd yn yr un yrfa, ac mae 10 y cant wedi sicrhau dyrchafiad. Priodolodd dros ddwy ran o dair eu cyfranogiad PLA i sicrhau'r yrfa newydd honno o leiaf i ryw raddau.
- Roedd y rhai a gofrestrodd yn 2020 yn fwy tebygol o fod â rôl newydd neu yrfa newydd na'r rhai a gofrestrodd yn 2021.
- Y rhai a oedd yn gweithio yn y sector manwerthu ar adeg cofrestru oedd y mwyaf tebygol o fod wedi sicrhau gyrfa newydd ac o fewn sector gwahanol.
- Lle'r oedd dysgwr wedi sicrhau gyrfa newydd, dyrchafiad neu swydd newydd, arweiniodd hyn at gynnydd cyfartalog mewn enillion blynyddol o dros £10,000.
- Mae'r gymhareb cost a budd cronus net o fudd cyflog i gost o ddysgu i bob dysgwr PLA yn £1.16 am bob £1 a wariwyd, gyda'r modelu yn awgrymu bod menywod yn cynhyrchu cymhareb cost a budd cryfach na dysgwyr gwrywaidd.

Cyflwyniad

- 6.1 Mae'r adran hon yn dadansoddi'r deilliannau a'r effeithiau sy'n deillio o ddysgu PLA gan ddysgwyr, cyflogwyr a cholegau AB. At hynny, mae'n ystyried yr enillion ariannol a gynhyrchir gan y rhaglen trwy asesiad gwerth am arian amlinellol.

Sefyllfa'r dysgwr

- 6.2 Mae gwybodaeth reoli a gasglwyd drwy'r LLWR yn rhoi manylion am statws y dysgwyr yn y rhaglen PLA. Mae Tabl 6.1 isod yn dangos cyfradd gwblhau llawer uwch yn y rhaglen ELA nag yn y rhaglen PLA dan arweiniad dysgwyr. Yn ogystal, mae'n dangos bod cyfraddau'r rhai sy'n gadael yn gynnar ychydig yn uwch ar gyfer menywod yn ffrydiau ELA a PLA y rhaglen, yn bennaf oherwydd bod menywod yn fwy tebygol o adael y swydd yr oedd y dysgu yn berthnasol iddi (cyfeiriodd 18 y cant o fenywod, o'i gymharu â 12 y cant o wrywod, at hyn fel rheswm dros adael yn gynnar). Mae'r cyfraddau cwblhau ar gyfer holl addysg oedolion yng Nghymru yn 96 y cant (gyda chyfraddau llwyddiant yn 90 y cant)⁴⁹ ac, felly, mae'r rhaglen PLA yn dioddef cyfradd uwch o'r rhai sy'n gadael yn gynnar nag sy'n digwydd fel arfer mewn addysg oedolion.
- 6.3 Mae sawl categori o fewn y LLWR sy'n ceisio nodi'r rhesymau y tu ôl i'r rhai sy'n gadael yn gynnar, sydd, yn eu tro, yn rhoi ymdeimlad o'r hyn sydd wedi bod yn ddylanwadol yn yr amrywiad hwnnw yn y rhai a adawodd yn gynnar. Yn y ffrwd ELA, mae menywod un pwynt canran yn fwy tebygol o gael eu cofnodi fel 'methiant cwrs cyn diwedd y rhaglen ddysgu' a 0.9 pwynt canran yn fwy tebygol o gael eu cofnodi fel 'rhesymau personol eraill yn arwain at roi'r gorau iddi'. Er y gall y gwahaniaeth hwn ymddangos yn ymylol, mae'n fwy na dwbl cyfradd y dynion. Yn y ffrwd dan arweiniad dysgwyr PLA, mae 'rhesymau personol eraill yn arwain at roi'r gorau iddi' yn dangos cynnydd o 1.2 y cant (sy'n cyfateb i gynnydd o 10 y cant) o'i gymharu â gwrywod.

Tabl 6.1: Sefyllfa'r dysgwr


	PLA (n=16,717)			ELA (n=5,496)		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Rhaglen ddysgu yn parhau	38.4%	38.5%	38.4%	30.3%	33.5%	31.4%
Cwblhau rhaglen ddysgu	46.1%	44.6%	45.4%	66.0%	60.6%	64.2%
Gadael y rhaglen ddysgu yn gynnar	15.5%	16.9%	16.2%	3.7%	5.9%	4.4%

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

⁴⁹ Data LLWR o'r flwyddyn academaidd 2018/19 – y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael a rei chyfer.

6.4 Mae cyfraddau cwblhau hefyd wedi'u dadansoddi gan goleg AB, ac mae Ffigur 6.1 isod yn dangos amrywiad sylweddol rhwng colegau. Ymhlith y dysgwyr sydd wedi cofrestru gyda Choleg Cambria, er enghraifft, cofnodir bod 87 y cant (383/441) yn cwblhau'r dysgu, tra cofnodir bod 4 y cant (17/441) yn rhai a adawodd yn gynnar. Yng Ngholeg Gwent, cofnodir bod 15 y cant (617/4, 232) yn cwblhau eu dysgu, tra cofnodir bod 48 y cant (2,027/4, 232) yn rhai a adawodd yn gynnar. Roedd Coleg Gwent yn dibynnu'n drwm ar ddarpariaeth ar-lein drwy ddarparwr trydydd parti, h.y. e-Careers, ac mae hyn yn debygol o fod wedi arwain at gynnydd yng nghyfradd y rhai a adawodd yn gynnar. Mae'n ymddangos bod colegau eraill yn cael eu dominyddu gan ddysgwyr sy'n parhau ar eu cyrsiau. Mae'n debygol bod eu cyfraddau wedi cael eu dylanwadu gan y rhai sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau o bell a'r heriau o sicrhau cadarnhad eu bod wedi cwblhau eu cyrsiau.


Ffigur 6.1: Statws dysgwr yn ôl coleg AB



Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.

6.5 Ceisiodd yr arolwg dysgwyr a dargedwyd at y rhai a adawodd yn gynnar gofnodi'r rhesymau pam y gwnaethant adael eu cwrs yn gynnar. Mae Ffigur 6.2 isod yn awgrymu bod heriau sy'n gysylltiedig â chydbwysu ymrwymiadau amrywiol yn ffactor amlwg o ran pam y gadawodd unigolion yn gynnar, gyda bron i 29 y cant yn cyfeirio at ymrwymiadau gwaith, tra bod un rhan o bump yn cyfeirio at amgylchiadau personol.

Ffigur 6.2: Pam wnaethoch chi adael y cwrs yn gynnar? (yn ôl rhywedd)



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

6.6 Ceisiodd yr arolwg hefyd ganfod y pwynt nodweddiadol lle'r oedd dysgwyr yn gadael eu cwrs trwy ofyn i'r dysgwyr amcangyfrif cyfran y cwrs yr oeddent wedi'i gwblhau. Roedd dros dri chwarter y rhai a adawodd yn gynnar (83 y cant; 90/109) wedi gadael y cwrs gyda llai na 50 y cant wedi'i gwblhau, tra bod bron i hanner (47 y cant; 51/109) wedi gadael y cwrs gyda llai na 25 y cant o'r cwrs wedi'i gwblhau.

Astudiaeth achos: Anhawster i'w gwblhau oherwydd cydbwysu cyfrifoldebau gofalu

Roedd Hannah wedi bod yn ei rôl bresennol am 10 mlynedd pan wnaeth gais i ymgymryd â Diploma Lefel 3 City & Guilds mewn Rheolaeth trwy'r rhaglen PLA. Dywedodd fod y cais yn hawdd ei gwblhau, a chafodd sgwrs ddefnyddiol gyda chynghorydd a roddodd iddi'r holl wybodaeth yr oedd ei hangen arni am y cwrs, beth fyddai'n ei olygu, a sut y byddai'n helpu ei gyrrfa pe bai'n ennill y cymhwyster. Byddai'r cwrs yn hanfodol pe bai hi eisiau cael ei dyrchafu i rôl reoli.

“Rhoddodd PLA ail gyfle i mi gael mynediad at addysg uwch na fyddwn fel arfer wedi gallu manteisio arno oherwydd y gost.”

Ni chwblhaodd Hannah y cwrs oherwydd nad oedd hi'n gallu cydbwysu ei hymrwymiaadau gwaith cyfredol a gofal plant ochr yn ochr â'r cwrs. Cynyddodd ei llwyth gwaith yn y gwaith a gwrthododd ei rheolwr roi unrhyw amser iddi yn ystod oriau gwaith i ymgymryd â'r cwrs. Ar ben hynny, roedd ganddi fwy o gyfrifoldebau gofal plant, a oedd yn golygu bod ganddi lai o amser gartref i ymgymryd â'r cwrs gyda'r nos ac ar benwythnosau.

“Roedd fy nhiwtor yn gefnogol iawn ac yn barod i fod yn hyblyg am derfynau amser, ond roedd llwyth gwaith cyfunol fy swydd a gofal plant yn rhy fawr.”

Roedd Hannah hefyd yn cael trafferth gyda'r cyflenwi ar-lein a dywedodd y byddai'n well ganddi gyflenwi wyneb yn wyneb, gan mai dyna'r ffordd y mae hi wedi arfer dysgu, a byddai'n well ganddi allu siarad a gofyn cwestiynau i'r tiwtor yn uniongyrchol.

6.7 Mae Tabl 6.2 isod yn archwilio cyfraddau cwblhau cyrsiau yn ôl ethnigrwydd. Mae'n dangos bod cyfradd uwch o'r rhai sy'n gadael yn gynnar ymhlith y rhai o darddiad Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig nag ymhlith y rhai o darddiad ethnig arall; fodd bynnag, mae hyn wedi'i yrru'n bennaf gan ddosbarthiad dysgwyr o darddiad Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig mewn colegau AB a brofodd gyfradd uwch o'r rhai yn gadael yn gynnar ar draws eu carfan gyfan. Pan ddadansoddir hyn yn ôl rhywedd, mae'n amlwg bod bron i dri o bob 10 menyw (29 y cant; 65/223) o darddiad Asiaidd neu Asiaidd Prydain wedi gadael y ddarpariaeth yn gynnar o'i gymharu â 24 y cant (73/304) o wrywod. Ymhlith y rhai yr adroddwyd eu bod o gefndir ethnig arall, mae gwrywod yn gyrru'r gyfradd uwch o'r rhai a adawodd yn gynnar (fel y disgrifir isod), gyda 30 y cant (23/76) o ddynion o darddiad ethnig arall yn cael eu cofnodi fel rhai a adawodd yn gynnar o'u darpariaeth ddysgu.

Tabl 6.2: Statws dysgwyr yn ôl tarddiad ethnig

	Cwblhau Rhaglen Ddysgu	Rhaglen Ddysgu yn Parhau	Y rhai a adawodd yn gynnar	N
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	33%	41%	26%	527
Gwyn	46%	39%	15%	14,688
Cefndir Ethnig Arall	44%	34%	22%	144
Ethnig	40%	40%	19%	303
Cymysg/Lluosog Du /Du Prydeinig	41%	43%	16%	393
Gwrthodwyd / Ddim yn hysbys	45%	26%	29%	678
Cyfanswm PLA	45%	38%	16%	16,733

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli PLA.


- 6.8 Dadansoddwyd cyfraddau cwblhau hefyd yn ôl a oedd gan ddysgwyr anabledd neu ryw fath o gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith. Lle caiff data eu casglu, mae cyfraddau'r rhai a adawodd yn gynnar yn uwch ymhlith y grŵp hwn (16 y cant; 139/854) na'r boblogaeth ehangach (9 y cant; 1,274/12,979), gyda'r rhai sydd â rhyw fath o anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith ddwywaith yn fwy tebygol (13 y cant) o gael eu cofnodi fel 'rhesymau personol eraill sy'n arwain at roi'r gorau iddi' (gan gynyddu i 15 y cant (61/413) ymhlith menywod ag anabledd) na'r rhai heb anabledd (6 y cant).
- 6.9 Mae data hefyd yn cael ei gasglu ynghylch a oedd dysgwyr yn ffoadur neu'n weithiwr mudol ac ar statws eu cartref. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer lleiafrif o golegau AB y cesglir y wybodaeth hon, ac nid oes gwahaniaethau amlwg yn eu cyfraddau cwblhau o'i gymharu â'r cyfraddau cwblhau cyffredinol ar gyfer y colegau hynny.

Deilliannau dysgwyr

- 6.10 Gofynnwyd i ddysgwyr ar raddfa o 1-5 pa mor fodlon oeddent â'r dysgu yr oeddent wedi'i dderbyn. Darparodd y rhai a gymerodd ran yn y prif arolwg sgôr gyfartalog gymedrig o 4.6, gyda 75 y cant o ddysgwyr yn graddio eu boddhad fel 5 allan o 5. Ymhlith y rhai a adawodd yn gynnar, y sgôr gyfartalog ar gyfer boddhad oedd 3.6, gyda'r rhai a oedd yn sgorio'r dysgu yn 5 allan o 5 yn gostwng i 38 y cant. Pan ddadansoddwyd cyfraddau boddhad cyfartalog yn ôl coleg AB, roeddent yn amrywio o 4.38 i 4.95.

- 6.11 Lle'r oedd cyfranogwyr wedi ymgymryd ag o leiaf 50 y cant o'u cwrs (ni waeth a oeddent wedi gadael yn gynnar neu'n parhau â'u dysgu), gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau sy'n gysylltiedig â deilliannau posibl eu dysgu. Mae ffigur 6.3 yn dangos bod bron i naw o bob 10 dysgwr wedi teimlo cynnydd yn eu hunanhyder ac wedi priodoli hyn, i ryw raddau o leiaf, i'r hyfforddiant yr oeddent wedi'i dderbyn. At hynny, roedd dros 80 y cant o ddysgwyr yn teimlo bod ganddynt ddyheadau cliriach ar gyfer eu gyrfa a briodolwyd ganddynt i'r hyfforddiant.
- 6.12 Pan gaiff ei ddadansoddi yn ôl rhywedd, mae menywod yn fwy tebygol o ddisgrifio cynnydd yn eu hunanhyder (44 y cant i raddau helaeth a 47 y cant i ryw raddau), tra bod dynion yn fwy tebygol o briodoli'r hyfforddiant yn gryfach gan eu galluogi i weithio'n fwy annibynnol (43 y cant i raddau helaeth).

Ffigur 6.3: I ba raddau y mae'r hyfforddiant a gawsoch trwy PLA wedi arwain at ...? (a rhai a gwblhaodd yn unig; n= 382)



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

6.13 Roedd hanner y dysgwyr (50 y cant; 163/327) yn cytuno â'r datganiad eu bod yn debygol o symud ymlaen i ddysgu pellach yn y 12 mis nesaf, tra bod chwarter pellach o ddysgwyr (27 y cant; 87/327) eisoes wedi symud ymlaen i ddysgu pellach. Ymhlith y rhai a adawodd yn gynnar, mae llai o awydd am ddysgu pellach, gydag 11 y cant eisoes wedi cychwyn ar ddysgu a 22 y cant arall yn bwriadu gwneud hynny o fewn y 12 mis nesaf.

Newid gyrfa

6.14 Ymhlith y dysgwyr hynny a ymatebodd i'r arolwg ac a oedd naill ai wedi cwblhau'r cwrs neu wedi gadael yn gynnar ar ôl cwblhau o leiaf hanner y cwrs, mae 22 y cant o'r rhai a arolygwyd (wedi'u cydbwysu'n gyfartal rhwng dynion a menywod) bellach mewn gyrfa wahanol i'r un yr oeddent ynddi pan wnaethant ddechrau ar ddysgu PLA gyntaf. Roedd gan chwech y cant arall (20/362) swydd newydd yn yr un yrfa, tra bod 10 y cant arall (37/362) wedi sicrhau dyrchafiad, heb fawr o wahaniaeth wrth ddadansoddi yn ôl rhywedd.

6.15 Roedd y rhai a gofrestrodd ar y cwrs yn 2020 yn llawer mwy tebygol o gael rôl newydd neu yrfa newydd (29 y cant; 38/108) na'r rhai a gofrestrodd yn 2021 (16 y cant; 32/196), gyda'r rhai a gofrestrodd ar ffyrlo neu mewn cyflogaeth lai diogel ychydig yn fwy tebygol o fod wedi cychwyn ar yrfa newydd erbyn hyn. Mae'r tebygolrwydd cynyddol o fod mewn gyrfa newydd yn 2020 yn rhoi cipolwg ar yr amserlenni nodweddiadol yn dilyn cofrestru ar y cwrs sy'n gysylltiedig â sicrhau canlyniadau o'r math hwn.

Astudiaeth achos: Y rhai adawodd yn gynnar ond yn dal wedi'u cymell i newid gyrfaoedd

Roedd Dylan yn cael ei gyflogi'n llawn amser mewn diwydiant sydd mewn perygl o effaith negyddol oherwydd COVID-19 a Brexit. Roedd yn ceisio newid gyrfa o letygarwch i gyfrifeg i symud i rôl fwy sefydlog gyda chyflog uwch a chyfleoedd dilyniant. I Dylan, roedd cyllid PLA yn hanfodol oherwydd fel arall byddai cost y cwrs wedi bod yn waharddol. Gwnaeth gais am gwrs AAT Lefel 3 – Diploma Uwch mewn Cyfrifeg.


“Roedd y tiwtor a arweiniodd yr hyfforddiant yn anhygoel. Roedd y darlithoedd yn ddiddorol ac roedd y coleg yn gefnogol iawn. Byddwn wedi cwblhau'r cwrs pe bai fy nghyflogwr wedi bod yn fwy cydweithredol.”

Yn anffodus, canfu Dylan y byddai ei gyflogwr presennol yn aml yn gwrthod ei ryddhau i allu mynychu darlithoedd, a oedd i gyd wedi'u clystyru ar yr un diwrnod. Roedd hyn yn golygu na chwblhaodd Dylan y cwrs oherwydd ymrwymadau gwaith a oedd yn bodoli eisoes. Roedd y coleg yn gefnogol iawn o ran recordio darlithoedd a darparu deunyddiau ychwanegol iddo; er gwaethaf hyn, fodd bynnag, gadawodd Dylan y cwrs tua thri chwarter y ffordd drwodd. "Mae wedi atgyfnerthu fy nymuniad i newid gyrfaoedd. Fy mwriad nawr yw cael cyflogaeth gyda chwmni cyfrifyddu a chael y cymhwyster drwyddynt, gan fod ganddynt well dealltwriaeth o bwysigrwydd y cymhwyster [na fy nghyflogwr presennol]."

Er nad oedd wedi gorffen y cwrs, roedd Dylan yn gadarnhaol iawn am y profiad a dywedodd ei fod wedi gwella ei hunanhyder a'i sgiliau cyfathrebu a'i fod wedi ei ysgogi ymhellach i ddilyn ei yrfa newydd.

- 6.16 Mae Ffigur 6.4 yn dangos dosbarthiad y rhai sydd wedi sicrhau gyrfa newydd yn ôl y sector y cawsant eu cofrestru ynddo. Mae'n dangos bod y tueddiad uchaf ar gyfer newidiadau gyrfa ymhlith y rhai a oedd yn cael eu cyflogi mewn manwerthu ar adeg cofrestru yn y rhaglen PLA, ac mae'r ffigurau hyn yn arbennig o uchel ymhlith cyfranogwyr benywaidd, gyda 56 y cant (9/16) o'r rhai a gyflogwyd mewn manwerthu ar adeg cofrestru wedi newid gyrfaoedd. I'r gwrthwyneb, er ei bod yn ymddangos bod cyfradd y newidiadau gyrfa yn is yn y sector iechyd, gwrywod sy'n gyrru'r gyfradd hon, gyda 47 y cant (8/17) yn cael eu cyflogi yn y sector iechyd ar ôl cofrestru ar ôl newid gyrfaoedd.
- 6.17 Mae'n ymddangos bod y rhai sydd wedi'u cofrestru yn y sector addysg neu adeiladu yn fwy tebygol o fod yn ceisio symud ymlaen yn eu gyrfa bresennol na'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn sectorau eraill. Er bod newid mewn gyrfa yn gymharol gyffredin ymhlith dysgwyr PLA, mewn un o bob saith (14%) o achosion yn unig, arweiniodd hynny at newid yn y sector diwydiannol ar gyfer y dysgwyr hynny. Roedd newid yn y sector gweithredu yn arbennig o gyffredin yn y sectorau hynny lle'r oedd dysgwyr yn fwyaf tebygol o roi gwybod am newid mewn gyrfa. Roedd traean o'r rhai a gofrestrodd yn y sector manwerthu (9/27) a oedd wedi newid gyrfaoedd wedi newid sectorau, tra bod tri o bob 10 o'r rhai yn y sector llety wedi gwneud yr un peth.

Ffigur 6.4: Cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi newid gyrfaedd ers cofrestru mewn dysgu PLA yn ôl sector (sylfaen=18)



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

Astudiaeth achos: Gweithwyr proffesiynol hunangyflogedig yn symud ymlaen i rolau uwch

Roedd Rhys yn hunangyflogedig ac yn gweithio yn y diwydiant adeiladu. Roedd angen iddo wella ei sgiliau a'i CV o fewn ei swydd bresennol i'w alluogi i symud ymlaen i rôl reoli. Gan ei fod yn hunangyflogedig, byddai wedi gorfod ariannu'r cwrs ei hun, gan nad oedd ganddo gyllid DPP ffurfiol na dyraniad amser. Oherwydd cost y cwrs, nododd na fyddai wedi gwneud y cwrs heb y cyllid. Nid oedd ganddo lawer o gymwysterau ymlaen llaw ac nid oedd wedi cael hyfforddiant ers ychydig flynyddoedd; felly, nid oedd yn siŵr beth i'w ddisgwyl wrth ddechrau.

“Nid oes gennyf lawer o gymwysterau ac roedd y math hwn o gwrs yn eithaf brawychus i mi, ond gwnaeth yr hyfforddwr i mi deimlo'n gyfforddus iawn ar y cwrs.”

Cofrestrodd ar Dystysgrif NVQ mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, a fyddai'n rhoi hwb i'w CV. Yn enwedig fel contractwr sy'n aml yn gorfod gwneud cais am gontractau tymor byr a chanolig, nododd y byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y mathau o waith y gallai wneud cais amdano yn ogystal â'i ragolygon cyflog. Bydd yn ei alluogi i weithio'n fwy annibynnol a bod yn fwy abl i gefnogi cydweithwyr eraill, gan y bydd mewn swydd uwch. "Bydd y cymhwyster yn gwella fy CV ac yn fy ngwneud yn fwy deniadol ar gyfer rolau contractio yn y dyfodol gyda chwmnïau adeiladu eraill trwy ychwanegu cymhwyster penodol nad oedd gennyf o'r blaen."

Astudiaeth achos: Yn dilyn breuddwydion gyrfaol ar ôl 20 mlynedd

Roedd Elena yn gweithio yn y diwydiant manwerthu ac wedi bod gyda'r un cyflogwr ers dros 20 mlynedd. Hefyd, nid oedd wedi derbyn unrhyw hyfforddiant am o leiaf bum mlynedd pan ddaeth yn rhan o gwrs drwy'r rhaglen PLA. Roedd hi bob amser wedi bod eisiau helpu pobl ac ymgymryd â chwrs mewn cwnsela, ac argymhellodd y coleg gwrs a llwybr penodol i ddod yn gymwys i alluogi'r newid gyrfa hwn.

"Roeddwn yn barod i dorri cwys newydd. Roedd y cwrs PLA yn gwbl addas i mi, ac roedd y gost yn beth mawr hefyd. Roedd mor hawdd cael mynediad at y cwrs ei hun [...] Nid wyf wedi astudio ers 20 mlynedd ac roedd yn dda iawn — byddwn yn ei argymhell yn fawr."

Dywedodd Elena, trwy gymorth gan gynghorydd dysgu, ei bod wedi gallu trefnu amseriad y cwrs fel ei fod yn cyd-fynd â'i chyflogaeth bresennol. Cyflwynwyd y cwrs ei hun ar y safle yn y coleg, ac roedd Elena yn gadarnhaol am gynnwys a chyflwyniad y cwrs. Mae hi'n gobeithio symud ymlaen i'r cwrs Lefel 3 ac, yn y pen draw, diploma uwch.

6.18 Lle roeddent wedi sicrhau gyrfa newydd, gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau y maent wedi priodoli'r newid hwnnw mewn gyrfa i'r dysgu a gawsant. Priodolodd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr⁵⁰ (68 y cant; 54/80) y gefnogaeth o leiaf i ryw raddau i sicrhau gyrfa newydd, ac o'r grŵp hwn, nododd 32 o ymatebwyr (40 y cant o'r rhai a oedd wedi sicrhau gyrfa newydd) fod y gefnogaeth wedi cyfrannu i raddau helaeth at eu gyrfa newydd:

⁵⁰ Ni ofynnwyd y cwestiwn i'r rhai a oedd wedi cwblhau llai na 50% o'r cwrs cyn gadael yn gynnar.

“Rhoddodd y cwrs y sylfeini i mi ar gyfer diogelwch TG a dangosodd fod gen i ddawn dda a bod newid gyrfa yn bosibl i TG.” (Cyfranogwr PLA)


“Mae gen i dân yn fy mol nawr ac rydw i'n mynd i symud ymlaen i waith cymdeithasol.” (Cyfranogwr PLA)

“Mae wedi rhoi hyder i mi wneud cais am y pethau hyn, tystysgrif sy'n uchel ei pharch yn y maes hwn. Mae wedi rhoi'r hyder i mi ddilyn fy niddordeb a'm brwdfrydedd. Mae'n hollol wych - Mae gen i lawer o ddyled i'r cynllun.”
(Cyfranogwr PLA)

“Mae gen i gymhwyster cydnabyddedig ar fy CV a oedd yn bwysig iawn i ddarparu gyflogwyr, i roi fy hun gam ymlaen i bobl eraill sy'n gwneud cais.” (Cyfranogwr PLA)

- 6.19 Gofynnwyd cyfres o ddatganiadau i'r rhai nad oeddent wedi sicrhau gyrfa newydd i benderfynu a oedd unrhyw newidiadau eraill wedi digwydd oherwydd eu cyfranogiad yn y rhaglen PLA. Mae ffigur 6.5 yn dangos bod dros hanner yr ymatebwyr wedi cyfeirio at gydnabyddiaeth gan eu rheolwr llinell (yn enwedig ymhlith menywod) neu eu cyfoedion, tra bod bron i chwarter wedi sicrhau codiad cyflog. Ar ben hynny, argymhellwyd un o bob chwech ar gyfer dyrchafiad, tra bod un o bob saith wedi sicrhau dyrchafiad.

Ffigur 6.5: O ganlyniad i'r cwrs, a oes unrhyw un o'r newidiadau isod wedi digwydd? (yn ôl rhywedd)



Ffynhonnell: Arolwg PLA Dysgwyr.

Twf enillion

6.20 Pan fydd dysgwr wedi trosglwyddo i yrfa newydd neu wedi sicrhau dyrchafiad neu swydd newydd, gofynnwyd a arweiniodd hynny at gynnydd mewn cyflog. Ymhlith bron i dri chwarter yr ymatebwyr (73 y cant; 102/139), roedd hynny'n wir; fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol a allai oriau uwch yn yr yrfa newydd honno fod wedi arwain at yr enillion cyflog a adroddwyd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hyn fesur graddfa'r cynnydd yn y cyflog yr oeddent wedi'i sicrhau. Pan gyflenwyd hyn (95/102), roedd twf sylweddol ar gyfartaledd mewn enillion o £10,590 y flwyddyn. Mae'r lefel hon o fudd ariannol mewn twf enillion yn cyfateb i £2,125 fesul dysgwr

PLA, gydag ychydig iawn o wahaniaeth rhwng dynion a menywod pan gaiff ei ddadansoddi yn ôl rhywedd.

Gwerth am arian

- 6.21 O ystyried absenoldeb amrywiol wybodaeth reoli, mae asesu gwerth am arian PLA yn arbennig o heriol. I gydnabod hyn, gwnaed cyfres o argymhellion mewn Papur Technegol cysylltiedig ynghylch fframwaith effaith posibl a model gwerth am arian ar gyfer y rhaglen. Gyda'r dystiolaeth bresennol, fodd bynnag, asesiad cymharol gul o fudd enillion yn erbyn cost y gellir ei gynnal.
- 6.22 Cafwyd costau cyrsiau gan bob coleg AB mewn perthynas â'r cyrsiau yr oedd dysgwyr wedi eu cynnal. Mae'r data wedi'u paru â dysgwyr a arolygwyd; fodd bynnag, mae anghysondebau â'r ffordd y cofnodwyd teitlau cyrsiau wedi golygu y gellid paru 156 o'r 211 o gyrsiau unigryw (74 y cant) ymhlith y dysgwyr a arolygwyd.⁵¹ O'r 156 o gyrsiau hynny, roedd rhyw fath o ddata cost fesul dysgwr ar gael (yn seiliedig ar naill ai'r nifer targed neu'r nifer gwirioneddol o ddysgwyr) ar gyfer 70 (45 y cant). Roedd y cyrsiau hynny'n ymwneud â 144 o'r dysgwyr a arolygwyd ac a oedd yn cyfateb i, ar gyfartaledd, gost fesul dysgwr o £1,582, gyda chyrtsiau a wnaed gan ddysgwyr gwrywaidd (£1,762) fel arfer yn costio mwy na chyrtsiau a wnaed gan ddysgwyr benywaidd (£1,494 ar gyfartaledd).
- 6.23 Lle'r oedd dysgwyr wedi adrodd bod y rhaglen PLA wedi dylanwadu i raddau helaeth ar eu gyrfa newydd, roedd y cynnydd cyflog cyfan yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad. Lle adroddwyd i ryw raddau, roedd hanner y cynnydd cyflog wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad. Gofynnwyd yn benodol i ddysgwyr a oeddent wedi sicrhau rôl newydd o ganlyniad i'w cyfranogiad yn y PLA. Pan arweiniodd hyn at gynnydd mewn enillion, priodolwyd y cynnydd cyfan. Pan gaiff yr enillion eu priodoli i'r enillion a enillir, mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o £1,757 y dysgwr. Gweler Tabl 6.3 isod.

Tabl 6.3: Budd cyflog net fesul cost dysgwr

Dysgwyr a Chyrsiau	Nifer	Canran
Dysgwyr a arolygwyd	473	
Cyrsiau unigryw	211	
Cyrsiau unigryw wedi'u cyfateb i ddata'r cwrs	156	74%
Cyrsiau gyda data cost cwrs	70	45%
Dysgwyr a arolygwyd gyda data cost cwrs	144	30%
Costau		
Cost y cwrs fesul dysgwr	£1,582	
Cyfanswm y codiadau cyflog ar draws y dysgwyr a arolygwyd	£1,050,000	
Enghreifftiau o godiadau cyflog	95	20%
Cynnydd cyflog cyfartalog fesul cynnydd a adroddir	£10,598	
Cynnydd cyflog gros cyfartalog fesul dysgwr (pob dysgwr)	£2,127	
Codiad cyflog cyfartalog net – addasu ar gyfer priodoli fesul dysgwr (pob dysgwr)	£1,757	
Cyflog cyfartalog pob dysgwr ar ôl cofrestru	£19,566	
Chwyddiant cyflog blynyddol y sector preifat (Mai 2021 -2022) ⁵²	5.5%	
Cynnydd cyflog cyfartalog yn absenoldeb dysgu	£1,076	
Cynnydd cyflog cyfartalog blynyddol net – addasu ar gyfer baich di-fudd	£681	
Effaith barhaus cynnydd cyflog (tair blynedd) gyda dirywiad o 10% – effaith net gronnu ⁵³	£1,845	
Budd cyflog cronrus net yn erbyn cost dysgu		£1.16:£1

- 6.24 Mae'r asesiad cul hwn o werth am arian yn dangos enillion blynyddol net ar fuddsoddiad o £1.16 am bob £1 a werir. Cafodd y dadansoddiad gwerth am arian ei asesu hefyd yn ôl rhywedd. Er bod yr enillion a enillwyd yn debyg iawn, roedd gan fenywod gyflog cychwynol is ar gyfartaledd ac yn ymgymryd â chyrsiau a oedd ar gyfartaledd yn llai costus o'i gymharu â dynion. Gyda'i gilydd, roedd y budd cyflog cronrus net amcangyfrifedig yn fwy i fenywod (£1.30:£1) na dynion (£0.97:£1).
- 6.25 Mae dyfalbarhad enillion ychwanegol dros amser wedi'i osod i dair blynedd yn unol â meincnodau blaenorol; fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yr elw ychwanegol yn cael ei gynnal y tu hwnt i'r hyn y byddai dadansoddiad o ddata effaith tymor hwy yn ei archwilio. Fodd bynnag, mae'r asesiad yn eithrio ffactorau amrywiol, gan gynnwys buddion dysgu o ran llesiant yn ogystal â buddion i'r Trysorlys o enillion ychwanegol. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod natur ffurfiannol y gwerthusiad a'r

⁵² [Swyddfa Ystadegau Gwladol – Monthly Wages and Salaries Survey – private sector regular pay annual inflation \(March–May 2022\)](#).

⁵³ Am ragor o fanylion am gyfraddau parhaus a dirywiad sy'n gysylltiedig â sgiliau a datblygiad y gweithlu, gweler: PricewaterhouseCoopers (2008) RDA Impact Evaluation National Report, DBERR.

pryderon sylweddol ynghylch yr wybodaeth reoli, mae gwerth dadansoddi'r data hwn yn fanylach ar hyn o bryd yn gyfyngedig.

Astudiaeth achos: Cymwysterau i symud o ran amser i lawn amser

Roedd Tegan yn gweithio'n rhan amser mewn rôl a oedd yn cynnwys pobl ifanc ac oedolion ifanc ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol corfforol, emosiynol a meddyliol. Roedd hyn yn golygu bod angen ystod o hyfforddiant a chyrsgiau gwahanol arni i wella ei gallu i weithio gyda phobl a oedd ag anghenion cymhleth a gwahanol iawn — roedd angen iddi ddysgu gwahanol ffyrdd o gyfathrebu a gweithio gyda nhw i allu eu cefnogi'n effeithiol.

Roedd hi eisiau ymgymryd â'r cwrs PLA i wella ei sgiliau yn ei rôl bresennol. Roedd hi hefyd yn credu y byddai ymgymryd â'r cwrs yn gwella ei datblygiad proffesiynol ac yn ei helpu i drosglwyddo o rôl ran-amser i rôl lawn amser. Cwblhaodd gwrs Lefel 1 mewn Diogelu Oedolion, a nododd y bydd yn cynnig ffordd o symud ymlaen i gyrsiau Lefel 2 a 3 mwy penodol.

Trafododd Tegan ei llwybr hyfforddi gyda chynghorydd yn y coleg, a ddywedodd ei bod yn gyfeillgar iawn a rhoddodd lawer o wybodaeth iddi am y gwahanol gyrsiau a oedd ar gael a pha rai a oedd yn addas iddi, yr hyn y byddent yn ei olygu, a sut y byddent yn cael eu cyflenwi. Roedd hyn yn golygu y gallai ddewis yn haws y cyrsiau a fyddai'n cyd-fynd â'i hamserlen waith ond a fyddai'n werth eu cwblhau o hyd.

“Roedd y cwrs a ariennir gan PLA yn dda ar gyfer fy natblygiad proffesiynol ac yn fy helpu i gael fy swydd llawn amser newydd (sy'n talu'n well). Roeddwn i'n hoffi'r ffaith bod fy nghwrs yn gwbl hyblyg ac yn caniatáu i mi astudio wrth weithio.”


Heb gyllid PLA byddai wedi chwilio am gyrsiau ar-lein am ddim eraill, ond ni fyddent wedi bod o ansawdd mor uchel a manwl â'r cwrs yr ymgwymerodd ag ef trwy PLA, ac ni fyddai'r cymhwyster wedi bod mor ddefnyddiol o ganlyniad. Ers cwblhau'r cwrs, mae hi eisoes wedi symud ymlaen i ddysgu pellach.

Deilliannau cyflogwyr

6.26 Gofynnwyd i gyflogwyr i ba raddau yr oedd hyfforddiant eu gweithwyr drwy ffrwd ELA y rhaglen PLA wedi arwain at gyflawni amcanion amrywiol. Cyflwynir eu hymatebion yn Ffigur 6.6 isod ac maent yn dangos bod y ddarpariaeth ddysgu (yn gyffredinol) wedi helpu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau yn eu sefydliad. Soniodd tua hanner y cyflogwyr am fwy o gynhyrchiant a newid prosesau gweithredol. Fodd

bynnag, nododd lleiafrif greu swyddi newydd neu fwy o broffidioldeb o ganlyniad i ymgysylltiad gweithwyr mewn dysgu.

Ffigur 6.6: I ba raddau y mae cyfranogiad eich gweithwyr yn yr hyfforddiant wedi arwain at y canlynol?



Ffynhonnell: Arolwg o Gyflogwyr PLA. N=75.

Deilliannau coleg AB

6.27 Croesawodd golegau addysg bellach y cyfle a'r hyblygrwydd a ddaeth iddynt yn sgil y rhaglen PLA. Soniodd un coleg am sut roedd y rhaglen wedi "galluogi'r coleg i feithrin perthynas â darparwyr hyfforddiant eraill, ehangu eu cynnig, a thendro am gyfleoedd masnachol eraill". Soniodd golegau eraill hefyd am waith ychwanegol gyda phartneriaid allanol:

"Mae'r cynnig o gymwysterau – rydym wedi bod yn eithaf cyfyngedig mewn rhaglenni blaenorol, ond mae hyn wedi galluogi i ni fodloni meysydd blaenoriaeth a gweithio gyda chontractwyr allanol i gyflawni hynny. Mae'r baich gweinyddol is wedi helpu i roi'r hyblygrwydd hwnnw i ni. Mae wedi bodloni gofynion: digidol, HGV [wedi] bod yn enfawr i ni. Llwyddwyd i gael 150-160 o bobl mewn cyfnod byr o amser. Felly ni fyddai llawer o raglenni wedi rhoi'r trosiant, yr effaith a'r hyblygrwydd cyflym hwnnw i chi oherwydd y strwythur." (Ymatebydd Coleg AB)

7. Crynodeb o Ganfyddiadau ac Argymhellion

Trosolwg

- 7.1 Cynlluniwyd y rhaglen PLA i fod yn fenter dan arweiniad dysgwyr sy'n mynd i'r afael â'r bwch yn y ddarpariaeth gymorth sydd ar gael i oedolion cyflogedig yng Nghymru. Ceisiodd dargedu unigolion ar enillion is na'r cyfartaledd ar y sail y byddai enillion uwch yn creu cynhyrchiant uwch, mwy o gyfoeth, a gwell llesiant ymhlith y boblogaeth economaidd weithgar.
- 7.2 Er bod y rhaglen wedi'i brandio fel 'Cyfrifon Dysgu Personol', nid oes unrhyw gyfrifon personol i unigolion dynnu ohonynt. Mae hyn yn adlewyrchiad o rai o'r heriau a wynebwyd gan fentrau PLA blaenorol, gyda'r cyfrifoldeb yn cael ei osod ar golegau AB a'u partneriaid ar is-gontract i bennu a darparu darpariaeth ddysgu briodol ar gyfer unigolion.
- 7.3 Mae comisiynu colegau AB i gyflawni PLA wedi dod ag arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac angenrheidiol i sefydlu a gweithredu'r rhaglen, o ystyried sioc allanol pandemig COVID-19 a phwysigrwydd cyflwyno'n gyflym o'r peilot. Byddai mabwysiadu dull caffael cystadleuol sy'n galluogi darparwyr dysgu seiliedig ar waith a hyfforddiant arall i wneud cais i'r rhaglen wedi mynnu cryn amser ac adnoddau o'u cymharu, ac nid oedd yr un ohonynt ar gael i Lywodraeth Cymru ar y pryd.
- 7.4 Mae'r rhesymeg y tu ôl i sefydliadau cyllido (yn hytrach nag unigolion) yn parhau i fod braidd yn aneglur, o ystyried bod gweithgaredd twyllodrus y rhaglen PLA wreiddiol ledled y DU yn ymwneud â darparwyr (yn hytrach na dysgwyr). Fodd bynnag, mae cyfyngu ar ddyfarniadau cytundebol i'r 13 coleg AB yn galluogi craffu agosach ar weithgaredd a ariennir drwy'r rhaglen nag a fyddai wedi bod yn wir pe bai nifer llawer uwch o ddarparwyr wedi cael eu comisiynu.
- 7.5 Roedd y rhaglen yng nghanol y cyfnod peilot pan gyrhaeddodd pandemig COVID-19 y DU. Roedd lansio'r cynllun ffyrlo mewn ymateb i'r pandemig, ochr yn ochr â phryderon eang ynghylch cadernid a newid strwythurol posibl yn yr economi, yn golygu bod y rhaglen PLA yn cynnig cyfle i unigolion ddatblygu eu sgiliau.

- 7.6 Yn serendipaidd, felly, roedd yn ymddangos bod y rhaglen yn cyd-fynd yn agos ag anghenion y boblogaeth economaidd weithgar yn dilyn y sioc economaidd-gymdeithasol a sbardunwyd gan bandemig COVID-19, a dechreuwyd trawsnewidiad ac ehangu cyflym, ymatebol o'r rhaglen PLA.
- 7.7 Dylid canmol cynnydd cyflym a sylweddol y rhaglen mewn ymateb i'r galw gan y pandemig ac mae'n enghraifft wych o'r rôl y gall y llywodraeth ei chwarae mewn cyfnod o argyfyngau a achosir gan siociau allanol i'r economi. Tyfodd y rhaglen o £2m yn y flwyddyn beilot yn 2019/20 i £27.4m yn 2021/22 ac o 1,187 o gofrestrïadau ym mlwyddyn academaidd 2019/20 i 7,603 ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Roedd y raddfa hon yn dangos gallu'r rhaglen a'i haddasrwydd i ymateb i'r sefyllfa a gyflwynwyd gan y pandemig.
- 7.8 Wrth ymateb i'r galw hwnnw, ac yng nghanol argyfwng economaidd-gymdeithasol, roedd rhai bylchau o ran prosesau a pherfformiad y rhaglen. Mae diffyg parhaus mewn adnoddau i reoli'r rhaglen a chasglu a dadansoddi gwybodaeth fonitro wedi ei gwneud yn anodd rhoi barn gadarn ynghylch effeithiolrwydd y rhaglen.

Dylunio a gweithredu

- 7.9 Tynnodd y rhaglen PLA ar brofiadau blaenorol o gynlluniau cyfrif dysgu ac ymchwil i nodi model cyflawni addas i fodloni ei nod o gefnogi pobl gyflogedig i ennill sgiliau a chymwysterau lefel uwch. Arweiniodd hyn at nifer o elfennau allweddol yn ei ddyluniad:
- Targedu oedolion cyflogedig yn unig ar sail y dybiaeth bod darpariaeth ddigonol eisoes yn bodoli ar gyfer y rhai a oedd yn ddi-waith.
 - Canolbwyntio ar y rhai sy'n ennill llai na'r cyflog cyfartalog canolrifol, gyda phwyslais clir ar roi hwb i enillion trwy symud ymlaen yn eu gyrfa neu bontio.
 - Cymhwyso model cwrs wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer pob oedolyn cymwys.
 - Cyflenwi darpariaeth trwy golegau addysg bellach, gyda chyllid ymlaen llaw yn cael ei gysylltu â disgwyliad o fwy o hyblygrwydd o ran beth, sut a phryd y darparwyd hyfforddiant.

- 7.10 Mae'r model cyllido a fabwysiadwyd ar gyfer y rhaglen PLA yn gwro'n sylweddol oddi wrth y dull traddodiadol o ariannu colegau addysg bellach. Roedd darparu cyllid ymlaen llaw yn helpu i dynnu'r risg o dreialu cyrsiau newydd a galluogi colegau i ddyrannu cyllid i ddatblygu cyrsiau. Croesawodd sawl coleg addysg bellach y dull hwn o dreialu gweithgareddau newydd; heb werthusiad cyson a thrylwyr o sut y defnyddiwyd hyn wrth ddatblygu cyrsiau, fodd bynnag, mae'n anodd penderfynu ar ei lwyddiant. Roedd y model cyllido hefyd yn galluogi colegau addysg bellach i fod yn fwy ymatebol i ofynion dysgwyr, gan ei fod yn darparu'r gallu i gynnig cwrs heb orfod aros i ddysgwyr digonol ei wneud yn hyfyw yn ariannol. Roedd hyn yn galluogi colegau AB i fod yn fwy arloesol a fwy mentrus yn eu harferion gweithredol.
- 7.11 Un o'r heriau a ddaeth yn sgil y newidiadau yng nghyllid y cwrs oedd y cysondeb yn y ffordd y mae cyfrifiadau cyllid wedi cael eu cymhwyso. Gyda goruchwyliaeth genedlaethol gyfyngedig o gymeradwyaeth ariannu ar gyfer cyrsiau PLA oherwydd nifer y ceisiadau am gyrsiau, mae pryderon eang ymhlith colegau AB ynghylch anghysondebau yn lefel y cyllid a sicrhawyd ar gyfer cyrsiau tebyg wedi dod i'r amlwg. Cynlluniwyd cymhwyso bandiau neu bamedrau cost tynn ar gyfer y rhaglen i sicrhau lefel uwch o gysondeb o ran costio'r cwrs.
- 7.12 Mae hefyd awydd ymhlith colegau AB i dynhau'r cymhwyster o ran cyrsiau sydd ar gael (gydag un coleg yn nodi sut roeddent yn teimlo nad oedd rhai cyrsiau/cymwysterau wedi'u halinio'n ddigonol â hyrwyddo unigolyn yn eu gyrfa), gyda rhai cyrsiau'n cael eu trosglwyddo o'r rhaglen SDF i PLA i alluogi parhad dysgu yn y ddarpariaeth honno. Felly, mae'r adolygiad arfaethedig o gymwysterau yn y rhaglen PLA yn cael ei groesawu'n eang ymhlith colegau addysg bellach:
- “Mae angen eglurder, cysondeb a thryloywder arnom. Rydyn ni i fod yn gweithio fel rhanbarth, ond does neb yn gwybod beth mae pobl eraill yn ei wneud. Oherwydd nad yw yno mewn du a gwyn, rydyn ni'n dyfalu llawer.” (Ymatebydd Coleg AB)

Argymhelliad 1: Byddai rhannu niferoedd dysgu sydd wedi'u cofrestru fesul cwrs gan goleg AB ymhlith colegau AB ac RSP yn rhoi eglurder ynghylch pa gyrsiau sy'n cael eu cyflenwi a lefelau'r galw am y ddarpariaeth honno.

- 7.13 Y gobaith oedd y byddai gweithredu model ariannu gwahanol yn hwyluso mwy o hyblygrwydd yn arfer gweithredol colegau AB i gynnig darpariaeth ddysgu gyda disgwyliad o lefelau cynyddol o gyrsiau ar-lein, gyda'r nos ac ar benwythnosau. Gorfododd pandemig COVID-19 drawsnewid yn gyflym wrth gyflenwi darpariaeth ddysgu yn gynnig o bell, ar-lein. Yn dilyn y pandemig, mae'r model cyflwyno hwnnw wedi'i gadw ar gyfer llawer o gyrsiau. Y tu hwnt i'r newid i ddysgu ar-lein, bu rhywfaint o hyblygrwydd o ran amseriad cyflwyno cyrsiau, er bod hyn wedi'i gyfyngu mewn rhai achosion gan anhyblygrwydd cymharol contractau staffio, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser. At hynny, er bod dysgu ar-lein wedi dod yn fwy cyffredin ymhlith rhai colegau AB, mae'r cyrsiau hynny yn dioddef cyfraddau uwch o ddiffyg cwblhau. Yn ddiddorol, roedd y cyrsiau hynny a gyflwynwyd ar y penwythnos hefyd yn dioddef o gyfraddau uwch o ddiffyg cwblhau, gan dynnu sylw at y ffaith bod angen ystyried sut mae'r model cyflenwi yn cael ei addasu.
- 7.14 Mae yna hefyd ymysg rhai rhanddeiliaid awydd am fwy o ymgysylltiad gan y sector preifat wrth ddarparu hyfforddiant trwy PLA. Mae colegau addysg bellach yn defnyddio darparwyr hyfforddiant y sector preifat i gynnig darpariaeth i raddau amrywiol, ond ymhlith y rhai sy'n hyrwyddo darparwyr hyfforddiant preifat mae ymdeimlad eu bod yn cynnig mwy o hyblygrwydd, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Fodd bynnag, nid yw'r mecanweithiau ar gyfer comisiynu darparwyr hyfforddiant preifat yn glir.
- 7.15 Cryfder penodol y model cyflenwi, fodd bynnag, fu ehangu cymhwyster wrth ddarparu cyrsiau, yn benodol cynnwys cymwysterau gwerthwyr fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid rhaglen. Mae caniatáu darpariaeth o'r math hwn wedi cael effaith sylweddol ar allu colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant i addasu darpariaeth ddysgu i anghenion unigol a chyflogwyr, ac wedi arwain at gynnydd sylweddol yn yr ystod o ddarpariaeth hyfforddiant a gyflwynwyd ar gyfer y rhaglen:
- “Mae wedi galluogi inni ddatblygu pethau newydd, i newid pethau, i roi cynnig arni. Mae PLA wedi caniatáu inni weld a yw'n gweithio.” (Ymatebydd Coleg AB)

“I mi, y gallu i fod yn ymatebol i alw'r farchnad ac unigolion, ond hefyd i gael y cyfle i fuddsoddi yn y cwricwlwm, i fuddsoddi mewn amser staff i allu recriwtio staff os oes eu hangen arnoch, neu i gasglu adnoddau, oherwydd nid ydych wedi'ch cyfyngu yn yr un modd â ffrydiau cyllido eraill.” (Ymatebydd Coleg AB)

- 7.16 Croesawyd cyflwyno rowndiau ymgeisio cystadleuol ar gyfer sectorau blaenoriaeth cenedlaethol yn eang hefyd ymhlith colegau AB a rhanddeiliaid eraill. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y dull yn ymateb cyflym, effeithiol iawn i faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau ar gyfer hyfforddiant HGV, ac i ymateb i gyfleoedd yn y sectorau gwyrdd a digidol. Ymddengys bod PLA yn cynnig mecanwaith arbennig o addas ar gyfer ymateb cyflym a thargedig yn y modd hwn a deallir (a chroesawir) bod cyfleoedd pellach o'r math hwn yn debygol o godi yn y dyfodol agos.
- 7.17 Roedd ehangu'r rhaglen yn rhoi pwysau ar rai prosesau sy'n gysylltiedig â PLA. Ar gyfer colegau addysg bellach, roedd y prosesau cofrestru fel arfer wedi'u symleiddio mewn ymateb i gynnydd yn y galw; fodd bynnag, ymddengys nad oedd hyn wedi cael fawr o effaith ar gyfran y dysgwyr a oedd yn teimlo, o edrych yn ôl, yn anaddas i'w cwrs. Ar gyfer tîm y rhaglen arweiniodd hyn at heriau sy'n gysylltiedig â gwerthuso a chymeradwyo nifer fawr o gyrsiau.
- 7.18 Mae pryderon ynghylch cymeradwyo/dilysu cyrsiau newydd yn parhau, yn enwedig mewn sectorau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, bydd cyflwyno proses ddilysu yn ymestyn y prosesau cymeradwyo ymhellach mewn rhaglen sy'n seiliedig ar ymatebolrwydd a hyblygrwydd.

Argymhelliad 2: Byddai treialu dilysu cyrsiau newydd trwy benodi arbenigwyr sector y gellid eu defnyddio ar sail tynnu i lawr, yn enwedig ar gyfer darpariaeth mewn sectorau blaenoriaeth genedlaethol neu sectorau sy'n dod i'r amlwg, yn rhoi mewnwelediad i werth posibl y dull hwn.

Argymhelliad 3: Bod dull cyllidebu ar sail rhyw yn cael ei fabwysiadu ar gyfer treialu cyrsiau newydd i fynd i'r afael ag unrhyw ragfarn bresennol wrth gyflenwi rhaglenni. Bydd hyn yn sicrhau bod cyrsiau newydd yn ystyried rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd o'r cychwyn cyntaf.

Argymhelliad 4: Bod yr adolygiad o gymwysterau i gadarnhau cymhwyster a chysondeb mewn costau yn cael ei gwblhau fel mater o frys i sicrhau bod momentwm ar gyfer y rhaglen PLA yn cael ei gynnal ac nad yw colegau yn cynnig darpariaeth anghymwys yn anfwriadol.

- 7.19 Mae asesu'r galw tebygol am gyrsiau newydd hefyd wedi profi'n heriol. Defnyddir mecanweithiau amrywiol i adnabod prinder llafur, ond mae'r rhain yn cael eu mabwysiadu'n anghyson ac yn achlysurol. Mae rhai colegau addysg bellach wedi prynu trwyddedau masnachol i gael gwybodaeth am y farchnad lafur; fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyfle i brynu hyn ar lefel genedlaethol (wrth gadw'r gallu i gasglu gwybodaeth leol) i sicrhau arbedion maint. Ochr yn ochr â thystiolaeth gan fforymau cyflogwyr a grwpiau sector, gallai'r dull hwn helpu i sicrhau mwy o gysondeb wrth bennu anghenion a sicrhau bod ffocws croestoriadol wedi'i wreiddio yn y dull ehangach.

Argymhelliad 5: Archwilio gwerth cymharol wrth gyfuno adnoddau i gaffael trwydded fasnachol genedlaethol ar gyfer LMI. Lle bo ar gael, dylid gwahanu LMI hefyd yn ôl rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd er mwyn sicrhau bod y dull cyllidebu ar sail rhyw yn cael ei ymgorffori o'r cychwyn cyntaf.

Cymhwyster

- 7.20 Mae darparu dysgu a ariennir yn llawn yng nghanol pandemig COVID-19 ac yn ystod yr argyfwng costau byw presennol i'r rhai sy'n profi anawsterau gyda'u henillion ond sy'n ceisio symud ymlaen yn eu gyrfa yn cael ei hystyried yn gryfder allweddol y rhaglen.
- 7.21 Mae aseinio trothwy enillion fel un o benderfynyddion allweddol cymhwyster y rhaglen yn rhoi eglurder defnyddiol i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer PLA. Fodd bynnag, mae'r trothwy cyflog yn bodoli fel ffin rhwng cyllid 'popeth neu ddim byd' ar gyfer darpariaeth PLA. O fewn rhai sectorau lle mae modelu'r farchnad lafur yn awgrymu prinder presennol a rhagolygon twf cryf, mae cyfleoedd i unigolion ailsgilio a allai fod eisoes yn ennill yn uwch na'r trothwy ond sydd â rhai o'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol i ymateb yn gyflym i'r cyfleoedd a gyflwynir (gallai plymwyr, er enghraifft, geisio trosglwyddo i'r sector gwyrdd). Mae'n ymddangos bod colli'r cymhelliant cyllido i ailhyfforddi oherwydd y trothwy cyflog, er ei fod yn glir o ran

natur, yn ormodol, a gallai tocio cyfraniad yn unol ag enillion sy'n ystyried yr ymchwil i'r gwersi o ILA⁵⁴ blaenorol gynnig ymateb mwy addas yn y dyfodol.

Argymhelliad 6: Archwilio opsiynau ar gyfer cymhwyso model cyllido wedi'i dapro ar gyfer sectorau neu flaenoriaethau penodol. Dylai'r broses hon hefyd ystyried sut y gallai model wedi'i dapro ar gyfer rhai sectorau neu flaenoriaethau hyrwyddo canllawiau sy'n benodol i gydraddoldeb rhywiol i sicrhau bod y dull cyllidebu ar sail rhyw yn cael ei gadw a'i ymgorffori ym mhob agwedd ar y rhaglen.

- 7.22 Mae pryderon hefyd ynghylch anghymhwysedd y di-waith ar gyfer y rhaglen PLA, gyda nerfuswydd y gallai fod achosion lle mae'r di-waith yn talu i gymryd rhan mewn cwrs y gall y cyflogedig gael mynediad ato am ddim. Disgwylir bod rhaglenni eraill fel ReAct Plus yn bodloni'r galw hwn; o ystyried y model ariannu a fabwysiadwyd mewn PLA, fodd bynnag, byddai hyn yn peryglu bod y cwrs yn cael ei ariannu'n ddwbl. Wedi dweud hynny, nid yw'n glir a oes unrhyw achosion o'r fath wedi codi. Un maes lle mae cymhwyster wedi'i ehangu yw ymhlith gofalwyr llawn amser, a fydd yn cael cynnig lleoedd yn y rhaglen PLA lle mae capasiti ar gyrsiau presennol.

Cyllidebu ar sail rhyw

- 7.23 Ystyriwyd y rhaglen PLA hefyd fel ymyriad addas i dreialu cyllidebu ar sail rhyw. Roedd ei gyflwyniad, yn dilyn cynllun y peilot, yn cyfyngu ar ei rôl wrth lunio'r ymyriad ac yn codi nifer o bryderon pan adlewyrchir arnynt yn erbyn y sectorau blaenoriaeth.
- 7.24 At hynny, fel yr amlinellir yn yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol,⁵⁵ i fod yn effeithiol, mae angen i gyllidebu ar sail rhyw fod yn gadarn (yn seiliedig ar ddata) ac mae angen cyd-ddealltwriaeth o'i nodau a'i amcanion, nad oedd yn mynd i ddigwydd dros un rhaglen a dylid ei ystyried yn broses hwy.

⁵⁴ Consulting in Place (2010) Personal Learning Accounts: Building on Lessons Learnt, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau

⁵⁵ [Chwarae Teg, Adroddiad Cryno Gwneud nid Dweud, Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru \(Cam Dau\), Mehefin 2019.](#)

7.25 Mae'n bwysig cydnabod bod cyllidebu ar sail rhyw yn dipyn o daith. Roedd PLA yn dibynnu ar theori i ddechrau, ond ceisir enghreifftiau mwy ymarferol o sut y gellir defnyddio cyllidebu ar sail rhyw erbyn hyn. Adroddodd rhanddeiliaid fod colli staff Llywodraeth Cymru wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno i'r garfan ehangach o golegau AB hefyd wedi arwain at gollu gwybodaeth ynghylch y dull cyllidebu ar sail rhyw. Pan gyflwynwyd PLA i golegau eraill, ni ystyriwyd bod y dull cyllidebu ar sail rhyw wedi'i ymgorffori'n llawn wrth gyflwyno rhaglenni ac ar brydiau fe'i dryswyd gyda hyrwyddo cyfle cyfartal. O ganlyniad i'r cyfuniad o'r ymateb brys i COVID-19, partneriaid cyflenwi newydd, a diffyg gwybodaeth rhaglen a staff wedi'i chadw am gyllidebu ar sail rhyw, gwelwyd bod y dull gweithredu yn llai o flaenoriaeth.

Argymhelliad 7: Bydd enghreifftiau o gyllidebu ar sail rhyw i bartneriaid cyflenwi ddysgu oddi wrthynt, yn ogystal â data iddynt eu defnyddio a'u holi i helpu i feithrin newid ymddygiad, yn bwysig. Bydd grymuso darparwyr i fwrw ymlaen â'r agenda yn hanfodol er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei deall ac yn cael ei hintegreiddio mewn arferion bob dydd.

7.26 Mae cynnydd o'r math hwn yn amlwg gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r RSP a cholegau AB trwy sesiynau ymgysylltu rhanbarthol. Mewn sesiynau, mae swyddogion wedi rhannu enghreifftiau ymarferol ac maent hefyd yn datblygu cynnig cymorth ar gyllidebu ar sail rhyw yn fewnol i sicrhau bod sail gyson o wybodaeth ar gyllidebu ar sail rhyw yn bodoli ar draws Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 8: Archwilio opsiynau i gryfhau rôl RSP a Chymru'n Gweithio wrth hyrwyddo'r agenda cyllidebu ar sail rhyw. Gallai'r rôl hon gynnwys arwain y defnydd o LMI, wedi'i ddadelfennu yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd, i nodi anghenion croestoriadol yn ôl rhanbarth a/neu sector i sicrhau bod y dull cyllidebu ar sail rhyw wedi'i ymgorffori ar lefel sylfaenol.

ELA

7.27 Roedd y rhaglen PLA angen chwistrelliad o adnoddau i helpu i hwyluso ei ehangu. Er mwyn gwneud hynny, tynnodd ar adnoddau a ddyrannwyd i'r hen raglen SDF. Roedd y rhaglen SDF wedi'i thargedu at gyflogwyr; felly, gellid ystyried ehangu cymhwyster yn y rhaglen PLA i alluogi cyflogwyr i gael mynediad at PLA trwy'r ffrwd ELA fel rhyw fath o gyfaddawd wrth sicrhau'r cyllid hwnnw.

- 7.28 Mae alinio ffrwd yr ELA â'r rhaglen PLA (sydd, yn ei hanfod, yn cael ei harwain gan ddysgwyr) wedi bod yn anodd, gan wanhau'r negeseuon sy'n gysylltiedig â rôl y rhaglen a'i hamcanion. Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos bod rôl cyflogwyr wrth bennu dysgu yn llai clir na hyn, gyda bron i dri o bob 10 dysgwr yn y rhaglen PLA yn cael gwybod am y rhaglen gan eu rheolwr/goruchwyliwr llinell, ac mae un rhan o bump o ddysgwyr yn cael rhywfaint o ddylanwad gan gyflogwyr ar y penderfyniad terfynol ynghylch a allai'r cwrs fod yn addas ar eu cyfer.
- 7.29 Roedd paramedrau ar gyfer cymhwyster cyflogwyr yn eang yn fwriadol, gyda phwyslais ar ddatblygu mwy o gadernid ymhlith cyflogwyr i'r pandemig a heb unrhyw drothwy enillion yn cael ei gymhwyso. Fel y cynnig PLA dan arweiniad dysgwyr, cynhyrchodd y ffrwd ELA gryn alw hefyd; fodd bynnag, gyda meini prawf cymhwyster cyfyngedig, roedd cael mynediad i'r ffrwd ELA a weithredwyd yn gyffredin ar sail y cyntaf i'r felin gyda chyflogwyr mwy, gyda pherthnasau coleg mwy sefydledig yn fwy tebygol o elwa.
- 7.30 Roedd pryderon hefyd y gallai darpariaeth ELA i bob pwrpas dyrru ar draul y dysgwyr unigol y cynnig PLA, yr oedd PLA wedi'i gynllunio i'w dargedu, gyda'r anghysondeb hwn yn bryder i'r rhan fwyaf o golegau addysg bellach:
- "Y peth nad wyf yn ei ddeall yw bod y rhesymeg y tu ôl i'r ddwy ffrwd yn wahanol iawn, ac nid oedd unrhyw fonitro na chymharu gwirioneddol rhwng y ddau. Gallem fod wedi bod yn cyflawni 99 y cant o ELA ac yn esgeuluso'r elfen PLA yn llwyr." (Ymatebydd Coleg AB)
- 7.31 Mynegodd colegau bryderon hefyd ynghylch y model a ariennir yn llawn a'r diffyg cyd-fuddsoddi cysylltiedig mewn darpariaeth hyfforddiant:
- "Mae'r cyd-fuddsoddiad hwnnw [gan gyflogwyr] yn bwysig. Maen nhw'n oedi pethau [wrth] wybod y gallai fod [menter arall] y flwyddyn wedyn." (Ymatebydd Coleg AB)
- 7.32 At hynny, roedd pryderon cysylltiedig ynghylch rhaglen ELA yn ymwneud â'r graddau y cafodd ei halinio â darpariaeth arall. Cyflwynodd y ffrwd ELA debygrwydd sylweddol i'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP), sy'n targedu sgiliau gweithwyr â blaenoriaeth mewn sectorau â blaenoriaeth hefyd. Fodd bynnag, roedd yr FSP yn

gofyn am gyfraniadau cyflogwyr gyda chyfradd ymyrraeth o 50 y cant, a byddai cyflogwyr felly'n naturiol yn dilyn y pecyn cyllido mwy ffafriol a gynigir trwy ELA. At hynny, roedd sawl rhaglen uwchsgilio ar waith wrth lansio'r ELA trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, y mae'r rhan fwyaf ohonynt bellach wedi dod i ben neu a fydd yn dod i ben yn fuan. Mae ELA hefyd wedi rhoi'r gorau i weithredu ers mis Medi 2022, sydd, er eglurder y rhaglen PLA, yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr; fodd bynnag, mae'n codi pryderon i rai colegau o ran y dull arfaethedig o uwchsgilio dan arweiniad cyflogwyr yn y dyfodol.

- 7.33 Gyda'r FSP a ariennir yn rhannol yn parhau, mae'n bwysig sefydlu a chynnal cysondeb mewn perthynas â chyfraniad dan arweiniad cyflogwyr at uwchsgilio a dan arweiniad cyflogwyr. Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r ffocws strategol ar ddatblygu'r gweithlu ac osgoi'r risg o fynd ar drywydd y ddarpariaeth sy'n gofyn am y buddsoddiad lleiaf. Fodd bynnag, gyda dyfodiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin a sianelu'r adnoddau hyn trwy awdurdodau lleol, mae risg o luosogi darpariaethau sgiliau amrywiol dan arweiniad cyflogwyr unwaith eto.

Llywodraethu

- 7.34 Ni adlewyrchwyd yr ehangu yng nghyllid y rhaglen PLA mewn personél i reoli ei weithrediad. Gosododd rhewi recriwtio o fewn Llywodraeth Cymru ar y pwynt ehangu gyfyngiadau sylweddol ar gynyddu'r personél i reoli'r rhaglen. Yn y pen draw, mae'r cwota staffio wedi bod yn annigonol ar gyfer rhaglen o'r raddfa hon, wedi arwain at fylchau mewn cyfathrebu a llywodraethu, ac wedi cyfyngu ar allu'r tîm i werthuso ceisiadau newydd am gyrsiau a chyflogwyr ar gyfer y rhaglen neu fesur cynnydd a llwyddiant.

Cynnydd a pherfformiad

- 7.35 Ers ei ehangu, mae'r rhaglen wedi ei chael yn anodd casglu a dadansoddi'r wybodaeth reoli angenrheidiol i helpu i asesu patrymau perfformiad, ac mae cynnydd wedi bod yn broblemus. Nid yw system gwybodaeth reoli LLWR wedi'i sefydlu ar hyn o bryd i redeg adroddiadau ar y rhaglen; felly, mae cael gwybodaeth berthnasol, amserol ar berfformiad yn gofyn am ddadansoddiad pwrpasol, sy'n ddwys o ran adnoddau.

7.36 Mae'r diffyg data perfformiad wedi bod yn destun rhwystredigaeth i Lywodraeth Cymru ac i bartneriaid allanol, gyda RSP yn arbennig o awyddus i gael golwg ar ddata ar bresenoldeb mewn cyrsiau a gymeradwywyd yn ddiweddar i gynorthwyo i bennu lefelau galw, ac mae colegau AB yn awyddus i gael golwg ar yr holl gyrsiau cymeradwy i ganfod pa ystod o ddarpariaeth sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen a rhoi eu perfformiad a'u cynnydd mewn cyd-destun yn erbyn colegau eraill.

7.37 Mae dadansoddiad o'r wybodaeth reoli fel rhan o'r gwerthusiad wedi galluogi archwilio gwahanol batrymau o bwys:

- Er gwaethaf mynd ar drywydd darpariaeth hyblyg, mae rhywfaint o aliniad â'r amserlen academaidd draddodiadol o hyd.
- Mae amrywiadau daearyddol sylweddol yn y duedd i gofrestru mewn PLA, gyda thrigolion Sir Gaerfyrddin 33 gwaith yn fwy tebygol o gofrestru mewn PLA na'r rhai yn Wrecsam.
- Er bod y ffrwd PLA wedi profi anawsterau gyda chyfraddau cwblhau, mae wedi llwyddo i gofrestru poblogaeth fwy amrywiol na'r ffrwd ELA ac sydd fel arfer yn cael eu denu at ddarpariaeth addysg oedolion ledled Cymru.

Argymhelliad 9: Er mwyn galluogi monitro cynnydd a pherfformiad PLA yn fanylach, mae angen:

- Sefydlu cyfres o adroddiadau pwrpasol sy'n darparu dadansoddiad croestoriadol o broffiliau dysgwyr, cofrestriadau a chwblhau yn ôl cwrs a choleg AB, a sicrhau bod pob un yn cael ei gofnodi'n gyson.
- Sicrhau bod y cymhwyster uchaf cyn dysgu yn dod yn faes gorfodol ar gyfer colegau AB (yn ôl canllawiau LLWR, dim ond ar gyfer darparwyr dysgu seiliedig ar waith y mae'n orfodol).
- Coladu rhestr o gyrsiau cymeradwy a'u lefel FfCChC cyfatebol a'u maes pwnc sector mewn modd cyson a sefydlu'r rhain fel cwymplen neu debyg i sicrhau cysondeb cofnodi.
- Sicrhau bod costau cyrsiau, hyd y cwrs (oriau dysgu a chyfanswm oriau), a nifer y cyfranogwyr yn cael eu cadw a'u dadansoddi mewn modd cyson a bod

niferoedd dysgwyr targed yn cael eu cofnodi a'r modd y pennir niferoedd gwirioneddol dysgwyr fesul cwrs (ac felly'r galw).

- Darparu templedi wedi'u cloi i sicrhau bod sector, galwedigaeth ac enillion dysgwyr yn cael eu casglu yn gyson ar gyfer yr holl gyfranogwyr wrth gofrestru.

7.38 Mae'n ofynnol i golegau AB hefyd ddefnyddio arolwg cyrchfan i gofnodi manylion am ddysgwyr ar y pwynt cwblhau a chwe mis ar ôl cwblhau'r dysgu. Mae dadansoddiad wedi dangos bod newidiadau allweddol o ran sicrhau rolau newydd a gyrfaedd newydd yn tueddu i gymryd dros chwe mis ar ôl i'r dysgwr gwblhau. Ar ben hynny, mae colegau addysg bellach yn defnyddio adnoddau sylweddol wrth geisio cael y wybodaeth hon gan ddysgwyr. Byddai casglu a yw dysgwr yn cwblhau ei ddysgu neu a yw'n gadael yn gynnar (a'r rhesymau pam) wrth gwblhau (neu derfynu) dysgu yn ymddangos yn dystiolaeth ddigonol a rhesymol i'w chasglu. Yna gallai arolwg dysgwyr fod yn rhan o ymarfer arolwg pwrpasol trwy werthusiad effaith neu debyg (mewn modd tebyg i arolwg y rhai a adawodd ESF, er enghraifft).

Argymhelliad 10: Nad yw cyrchfan dysgwyr chwe mis ar ôl cwblhau'r dysgu bellach yn ofyniad i golegau AB ei gasglu.

Deilliannau

7.39 Mae'r rhaglen PLA wedi chwarae rhan allweddol wrth ddenu unigolion i ddarpariaeth ddysgu. Er na ellid disgrifio'r rhan fwyaf o ddysgwyr fel dysgwyr annhraddodiadol, heb raglen PLA ni fyddai bron i hanner (46%) wedi dechrau ar eu dysgu. Roedd dysgwyr benywaidd a'r rhai a nododd eu bod mewn cyflogaeth lai diogel yn fwy tebygol o beidio â bod wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant nag yr oedd gwrywod, a thrwy hynny ddangos bod ychwanegedd yn gryfach ymhlith y grwpiau hynny â nodweddion gwarchoddedig.

7.40 Mae bron i bedwar o bob 10 dysgwr mewn PLA yn cael eu cofnodi fel 'rhaglen ddysgu yn parhau'. Nid yw'n glir pa gyfran o'r dysgwyr hyn a allai fod wedi gadael eu cwrs ac wedi methu â hysbysu'r coleg AB neu'r darparwr hyfforddiant. Mae graddfa'r amrywiad mewn statws dysgwr gan goleg AB yn dangos mater sy'n benodol i weithrediadau coleg AB a systemau casglu data. Felly, mae'n debyg mai

tanamcangyfrif yw'r gyfradd sy'n gadael yn gynnar o 16 y cant; fodd bynnag, mae'n anodd penderfynu pa raddfa.

- 7.41 Mae dadansoddiad croestoriadol o gyfraddau cwblhau ar draws y rhaglen yn dangos cyfraddau gadael yn gynnar uwch ar gyfer rhai ethnigrwydd; wrth ei ddadansoddi fesul coleg, fodd bynnag, nid oes unrhyw amrywiad sylweddol yn amlwg. Felly, y dosbarthiad gan goleg AB (yn hytrach nag unrhyw nodwedd benodol o ddysgwr) sy'n ymddangos fel pe bai'n gyrru unrhyw amrywiadau a nodwyd.
- 7.42 Mae dysgwyr yn nodi mwy o hunanhyder a hunan-gymhelliant, yn ogystal â theimlo'n fwy annibynnol a chyda dyheadau gyrfaoel cliriach. Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn mynd ar drywydd dysgu pellach; fodd bynnag, roeddent eisoes yn cymryd mwy o ran mewn dysgu nag oedd yr oedolyn nodweddiadol cyn cofrestru PLA. Ymhellach, mae'r siart yn dangos, ar draws y rhan fwyaf o feysydd pwnc y sector, bod menywod yn fwy cyffredin ar gyrsiau PLA nag y maent mewn darpariaeth dysgu ôl-16 yn gyffredinol.
- 7.43 Mae bron i 40 y cant (149/381) o ddysgwyr a arolygwyd a oedd wedi cwblhau eu dysgu neu wedi gadael ar ôl cwblhau dros hanner eu cwrs bellach mewn gyrfa wahanol i'r adeg pan wnaethant gofrestru mewn PLA neu wedi sicrhau codiad cyflog o ganlyniad i'w cyfranogiad yn y rhaglen PLA. O'r rhain, mae 85 y cant (127/129) yn priodoli'r newid hwn, i ryw raddau o leiaf, i'r rhaglen PLA. Mae hyn yn cynrychioli traean o'r holl ddysgwyr a oedd wedi cwblhau cwrs neu a adawodd yn gynnar ar ôl cwblhau dros hanner y cwrs. O ystyried y cyd-destun economaidd-gymdeithasol y cyflwynwyd y rhaglen ynddo, byddai'n ymddangos bod y rhain yn ganlyniadau cryf ar gyfer y rhaglen, a chyda chynnydd cyflog o dros £10,000 y flwyddyn fesul dysgwr ar gyfartaledd, maent yn cynrychioli cynnydd enfawr mewn enillion ar gyfer dysgwyr yr effeithir arnynt.

7.44 Fodd bynnag, ymddengys bod y rhaglen yn gymharol ddrud i'w chyflwyno ac er bod data cost cwrs yn anghyflawn neu'n cael ei gwblhau'n anghyson, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu cost sy'n llawer mwy na dysgu rhan-amser i oedolion, sy'n amrywio o £7.06 i £14.12 yr awr.⁵⁶ O ganlyniad, mae arwyddion cynnar bod y rhaglen ar hyn o bryd yn cynrychioli gwerth derbyniol am arian.

⁵⁶ Yn seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru.

Adran Gyfeiriadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru (2017) 'Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach', Swyddog Archwilio Cymru.

[Bhattacharya, A., Coffee, S., Norman, A. \(2020\) \[Adult\] education, education, education, Social Market Foundation](#)

BIS Research Paper Number 63 (2012) Arolwg Cenedlaethol o Ddysgwyr sy'n Oedolion 2010, Yr Adran Arloesi Busnes a Sgiliau.

Centenary Commission on Adult Education (2021) yn WCPP (2021) Supporting the Welsh Lifelong Learning System, WCPP.

[Chwarae Teg \(2019\) Adroddiad Cryno Gwneud nid Dweud, Adroddiad o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru \(Cam Dau\)](#)

Consulting in Place (2010) Personal Learning Accounts: Building on Lessons Learnt, Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau.

Cyngor Ewrop. Gender budgeting: practical implementation, Llawlyfr, Cyngor Ewrop, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Hawliau Dynol a Materion Cyfreithiol, 2009.

DoE (2018) Adult Education Survey 2016: Research Report, Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Downes, R., Lisa von Trapp and Scherie Nicol (2016) 'Gender budgeting in OECD countries'. OECD Journal on Budgeting – Cyfrol 2016/3.

Golley Slater (2001) Cymru'n Gweithio: Cyfrifon Dysgu Personol – Canlyniadau Omnibws – Mehefin 2021.

Hagendyk, D. and Lees, C. (2019) Personal Learning Accounts Pilot, Learning and Work Institute.

Hall, S., Jones, E. and Evans, S. (2021) Adult Participation in Learning Survey 2021, Learning and Work Institute.

[Individual Learning Accounts, Cedefop Panorama Series; 163 Luxembourg: Swyddfa Cyhoeddiadau Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd, 2009](#)

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2016) Power to the People – The Case for Personal Learning Accounts, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, Caerlŷr.

[O'Hagan, A., Klatzer, E. \(eds.\) Gender Budgeting in Europe, 2018.](#)

OECD (2019) Individual Learning Accounts: Panacea or Pandora's Box, OECD.

[Pember, S., et al. \(2021\) Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#)

PricewaterhouseCoopers (2008) RDA Impact Evaluation National Report, Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio.

[Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus \(2002\) Trydydd Adroddiad– Cyfrifon Dysgu Unigol, pwyllgor dethol, trydydd adroddia](#)

[Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus \(2003\) Cyfrifon Dysgu Unigol, pwyllgor dethol, degfed adroddiad](#)

[Stotsky, J. \(2016\) IMF Working Paper, Gender Budgeting: Fiscal Context and Current Outcomes.](#)

[Llywodraeth Cymru \(2007\) Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru: Y Pedwerydd Prif Adroddiad Gwerthuso, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd](#)

Llywodraeth Cymru (2018) Cynllun Cyflogadwyedd, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019) Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2020) Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2020) Cyfrifon Dysgu Personol 2020–21 Canllawiau V1.1 Terfynol.

Llywodraeth Cymru (2021) Cyfrifon Dysgu Personol 2021–22 – Canllawiau.

Llywodraeth Cymru (2022a) Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022b) Cymru gryfach, decach a gwyrddach – Cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Atodiad 1: Damcaniaeth Newid y Rhaglen


Mae'r adran hon yn edrych ar ddyluniad PLA trwy ddamcaniaeth newid y rhaglen. Mae Llyfr Magenta Trysorlys EM yn nodi bod llunio polisiau da yn gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o'r ymyriad a sut y disgwylir iddo gyflawni'r deilliannau disgwylidig. Mae gwerthusiad da hefyd yn gofyn am y ddealltwriaeth hon, ac mae damcaniaeth newid yn ddull sy'n helpu i sicrhau bod pwnc gwerthusiad yn cael ei ddeall yn llawn.⁵⁷

Mae damcaniaeth newid yn esbonio sut y disgwylir i ymyriad weithio (gan nodi'r holl gamau y disgwylir iddynt fod yn rhan o gyflawni'r deilliannau a ddymunir), y rhagdybiaethau a wnaed, ansawdd a chryfder y dystiolaeth gefnogol, a ffactorau cyd-destunol ehangach.⁵⁸ Mae datblygu damcaniaeth newid fel arfer yn cynnwys ystyried y mewnbynnau arfaethedig (pa fuddsoddiad/gweithredoedd fydd yn digwydd) a'r gadwyn achosol sy'n arwain o'r mewnbynnau hyn i'r allbynnau disgwylidig (yr hyn sy'n cael ei ddarparu neu ei gynhyrchu), deilliannau (y canlyniadau cynnar neu dymor canolig), ac, yn y pen draw, effaith (y canlyniadau tymor hir).

⁵⁷ [Trysorlys EM \(2020\) Llyfr y Magenta: Canllawiau'r Llywodraeth Ganolog ar Werthuso.](#)

⁵⁸ Mae nifer o offer y gellir eu defnyddio i archwilio sut y disgwylir i ymyriad weithio, a ddisgrifir yn aml fel 'damcaniaeth rhaglen'. Mae'r rhain yn cynnwys damcaniaeth newid, mapio rhesymeg, fframiau log, mapio buddion, a mapio systemau. Mae'r holl brosesau hyn yn cynnwys mapio achosion ac effeithiau. Gweler Pennod 2 o'r llyfr Magenta.

Ffigur A1: Enghraifft o damcaniaeth newid linol




Ffynhonnell: Y Llyfr Magenta: Canllawiau'r Llywodraeth Ganolog ar Werthuso.


Gan dynnu ar fewnwelediad a gasglwyd o'r cyfweiliadau cwmpasu, gweithdai gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â dylunio, rheoli a darparu'r gwasanaeth, ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid, mae'r Atodiad hwn yn amlinellu damcaniaeth newid ar gyfer PLA.

Mae damcaniaeth newid wedi'i hadeiladu o amgylch rhesymeg gymharol syml (fel y nodir yn Ffigur A2 isod). Fodd bynnag, er bod nodau troswaol y PLA a'r ELA yn debyg, mae meysydd o wahaniaeth sy'n gofyn am ddamcaniaeth newid benodol ar gyfer y ffrwd ELA yn ogystal ag un ar gyfer y rhaglen PLA. Cyflwynir y ddamcaniaeth newid fwy cynhwysfawr ar gyfer elfen dysgwr unigol PLA yn Ffigur A3 drosodd, gyda damcaniaeth newid sy'n gysylltiedig â'r ffrwd cyflogwr yn cael ei gyflwyno yn Ffigur A4 ar y dudalen ddilynol.


Ffigur A2: Rhesymeg ganolog damcaniaeth newid PLA



Ffigur A3: Damcaniaeth newid – Ffrwd PLA dan arweiniad dysgwyr



Ffigur A4: Damcaniaeth newid – ffrwd ELA



Atodiad 2: Canllawiau Trafod

Arolwg Rheoli a Chyflawni – Colegau Cyflwyno CDP

Gofynnwch i bawb

1. A allech amlinellu eich rôl a sut y mae'n berthnasol i'r rhaglen CDP?
 - a. Ers faint ydych chi wedi bod yn y rôl hon?
 - b. A yw natur eich rôl mewn perthynas â'r rhaglen CDP wedi esblygu o gwbl dros amser? Os felly, ym mha ffyrdd?
2. Amlinellwch y dull a ddefnyddiwyd gennych mewn perthynas â dylunio a gweithredu'r rhaglen CDP yn eich Coleg?
3. Lansiwyd ymgyrch genedlaethol ar gyfer y rhaglen ym mis Rhagfyr 2020 a pharhaodd tan fis Mawrth 2021, o'ch safbwynt chi, pa mor effeithiol oedd yr ymgyrch hon o ran codi ymwybyddiaeth a galw am y rhaglen CDP?
4. Pa weithgareddau hyrwyddo wnaethoch? (a allwch chi ddarparu unrhyw enghreifftiau o'r weithgareddau yma)
 - a. Pa mor effeithiol oedd y gweithgaredd hyrwyddo yn eich barn chi?
5. Beth fydddech chi'n ei ddisgrifio fel eich prif ffynhonnell o atgyfeiriadau (i'ch sefydliad)?
 - a. Tua pha gyfran o'ch dysgwyr ar llyn CDP unigol y rhaglen sy'n cael eu cyfeirio gan Gymru'n Gweithio?
6. Tua pha gyfran o'r cyfranogwyr sy'n cymryd rhan (fel rhan o'r broses gofrestru) mewn gwerthusiad ac asesiad o'u hanghenion hyfforddi?
 - a. Sut y gwneir hyn fel arfer (wyneb ac wyneb, ffôn, ar-lein ac ati)
 - b. Tua pha gyfran o ddysgwyr y datblygwyd cynllun hyfforddi/dysgu fel rhan o'u proses ymgeisio?
 - c. Lle datblygwyd cynllun, pa broses a gymerwyd gennych chi/eich cydweithwyr wrth ddatblygu'r cynllun hwnnw?
 - d. Pa ddulliau eraill (os o gwbl) a ddefnyddiwyd i benderfynu ar ddarpariaeth addas ar gyfer Cyfranogwyr CDP?
7. Wrth ddatblygu eich dull o ymdrin â CPD, pa ganllawiau a ddarparwyd ar eich cyfer mewn perthynas â chyllidebu ar sail rhyw?
 - a. Beth yw eich dealltwriaeth chi o gyllidebu ar sail rhyw?
8. Pa enghreifftiau (os o gwbl) o addasiadau a wnaed i alluogi cyfranogwyr â gwahanol rwystrau i ddysgu, i gael mynediad at ddarpariaeth dysgu?

Cyrsiau Newydd

9. Pa brosesau ydych chi'n mynd drwyddynt i nodi cyrsiau newydd ar gyfer y rhaglen CDP?
 - a. Pa ddull a ddefnyddir wrth werthuso'r cyrsiau hyn?

10. Pa ddulliau ydych chi'n eu defnyddio i amcangyfrif cost debygol cyrsiau newydd?

Darparu darpariaeth cyrsiau

11. Sut mae cyrsiau'n cael eu darparu (pa ystod o ddulliau o gyflwyno cyrsiau sydd wedi'u mabwysiadu)

12. Pa addasiadau i'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer dysgu oedolion y mae'r Coleg wedi'u gwneud a pham? (Gyda'r nos/penwythnosau/o bell ac ati)

a. Ym mha ffyrdd y rhoddwyd sylw i wahaniaethau ac anghenion gwahanol grwpiau (gan gynnwys y rhai â nodweddion amddiffynnol)?

i. I ba raddau y mae hyn wedi arwain at newidiadau er mwyn mynd i'r afael yn gadarnhaol ag unrhyw effeithiau anfwriadol a nodwyd neu duedd wrth gyflawni?

13. Pa ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?

14. Ym mha ffyrdd y mae CDPau yn darparu cyfleoedd i unigolion ddilyn hyfforddiant datblygu sgiliau iaith Gymraeg?

15. Tua pha gyfran o'r ddarpariaeth ddysgu a ddarperir drwy'r rhaglen CDP sydd yn cael ei his-gontractio i ddarparwyr trydydd parti

a. Pa gyrsiau nodweddiadol neu sectorau diwydiannol y mae'r ddarpariaeth ddysgu hon yn berthnasol iddynt?

b. Pa ddarparwyr hyfforddiant ydych chi/ eich coleg yn is-gontractio amlaf?

16. Mae cyllid ychwanegol (2% o ddyraniad cyllidebol pob coleg) wedi'i ddyrannu i bob Coleg i'w ddefnyddio fel cyllideb cymorth i fyfyrwyr. Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y defnyddiwyd y gyllideb hon?

17. Gan fyfyrrio ar y model cyflenwi CDP, beth yw ei gryfderau allweddol yn eich barn chi?

18. Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y gellid gwella'r model cyflenwi CDP?

ELA

Roedd ehangu'r meini prawf cymhwysedd sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen CDP hefyd yn golygu bod y rhaglen ar gael i gyflogwyr a oedd yn ceisio uwchsgilio/ailsgilio eu gweithlu i gwrdd â heriau gofynion gweithredu newydd yn ystod ac ar ôl COVID-19. Rydym yn cyfeirio at hyn yn yr ymgynghoriad hwn fel elfen ELA o'r rhaglen.

19. Pa ddulliau a ddefnyddiwyd gennych i hyrwyddo ELA i gyflogwyr?

20. A yw'r cyflogwyr hynny sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ELA yn bennaf:

- Cyflogwyr oedd gan y coleg berthynas flaenorol â hwy
- Cyflogwyr nad oedd y coleg wedi ymgysylltu â nhw o'r blaen
- Cymysgedd o'r ddau

21. Sut wnaethoch chi bennu cymhwysedd cyflogwyr ar gyfer y rhaglen ELA?

22. Gan fyfyrrio ar fodel cyflawni ELA, beth fydd ei gryfderau allweddol yn eich barn chi?

23. Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y gellid gwella model cyflenwi ELA?

Blaenoriaethau'r Sector Cenedlaethol

Bu dau gylch ymgeisio cystadleuol i ddarparu darpariaeth ddysgu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r sector ar y rhaglen CDP

24. Sut ydych chi/eich coleg wedi ymateb i'r cyfleoedd hyn?

25. Pa mor effeithiol ydych chi'n credu yw'r dull yma?

26. A oes meysydd blaenoriaeth eraill y dylid eu hystyried? Os felly pa rai (a pham)?

Mesur Cynnydd

27. Pa ddulliau (os o gwbl) ydych chi'n eu defnyddio i gasglu profiadau dysgwyr ar gyfer y rhaglen?

a. A oes unrhyw adborth/tystiolaeth o bwys?

28. Pa systemau rheoli gwybodaeth ydych chi'n eu defnyddio i gasglu'r wybodaeth amrywiol ar gyfer y rhaglen CDP?

a. Sut (os o gwbl) y gellid gwella gofynion y broses ar gyfer casglu gwybodaeth reoli?

29. Wrth feddwl am bopeth sydd wedi'i drafod heddiw a oes unrhyw argymhellion gennych ar gyfer cyflwyno CDP yn y dyfodol

30. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu?

Gwerthusiad Rhaglen PLA – Cyfweiliadau efo Rhanddeiliaid

1. A allech amlinellu eich rôl a sut mae'n berthnasol i'r rhaglen PLA?

Dechreuodd cyfnod peilot y rhaglen PLA ym mis Medi 2019 mewn dwy ardal yng Nghymru drwy Goleg Gwent a GLLM.

2. Beth oeddech chi'n ei ddeall yw'r rhesymeg dros dargedu dysgwyr o'r sectorau peirianeg, adeiladu a digidol yn y lle cyntaf?

a) Beth (o'ch safbwynt chi) a arweiniodd at ehangu sectorau i gwmpasu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau ariannol?

3. Hyd y gwyddoch, sut fydddech chi'n disgrifio lefelau'r galw yn ystod y cyfnod peilot?

4. Gan fyfyrion ar y cyfnod peilot hwnnw, beth fydddech chi'n ei ddisgrifio fel y pwyntiau dysgu allweddol o'r cyfnod hwnnw?

Arweiniodd cyfnod pontio a chyflwyno'r rhaglen PLA at ehangu cymhwysedd ar gyfer PLA ynghyd ag ehangiad sylweddol ym maint y buddsoddiad yn y rhaglen.

5. A ystyriwyd dulliau gwahanol o ehangu'r meini prawf cymhwysedd?

a) Os felly, am ba resymau y diystyrwyd y rhain?

6. Y cynllun peilot PLA oedd y maes polisi a argymhellwyd i brofi'r ymagwedd at gyllidebu rhyw. Beth ydych chi'n teimlo sydd wedi'i ddysgu o brofi gyllidebu ar sail rhyw trwy PLA?

a) Pa newidiadau (os o gwbl) fydddech chi'n eu gwneud i'r ffordd y caiff gyllidebu ar sail rhyw ei rhoi ar waith ar ymyriadau polisi yn y dyfodol?

Cynnydd a Chyflawniadau'r Rhaglen

Cynlluniwyd y rhaglen PLA gyda'r nodau canlynol, i:

- Bod yn rhaglen hyblyg o hawliau dysgu
- Cael eu personoli ar gyfer dysgu unigol i helpu gweithwyr i symud ymlaen mewn cyflogaeth neu gyflawni eu dyheadau gyrfa
- Bod yn hygyrch i unigolion cymwys, trwy gynnig dewisiadau dysgu i unigolion i'w galluogi i benderfynu sut a phryd y maent yn dysgu
- Diwallu anghenion yr economi sy'n gysylltiedig â ysgogwyr sector allweddol
- Cynnig asesiad annibynnol, cyn dysgu, i sicrhau bod y dysgu cywir yn cael ei ystyried a'i gyflawni

7. Sut ydych chi'n teimlo bod y rhaglen PLA yn dod yn ei blaen yn erbyn pob un o'r nodau hyn?
8. Pa mor effeithiol ydych chi'n teimlo yw'r gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol ar gyfer cofnodi cynnydd ar y rhaglen?
 - a) Pa welliannau y gellid eu gwneud?
9. Mae tystiolaeth trwy ddadansoddiad o'r wybodaeth reoli o amrywiad daearyddol sylweddol yn y graddau y mae oedolion yn ymgysylltu â PLA, beth ydych chi'n meddwl gallai fod yn dylanwadu ar yr amrywiad hwn?
 - a) Pa gynlluniau sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r mater hwn?
10. Gan adlewyrchu ar fodel cyflawni PLA, beth yw ei gryfderau allweddol yn eich barn chi?
11. Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y gellid gwella'r model cyflawni PLA?

Cyfrifon Dysgu Cyflogwyr (ELA)

Roedd ehangu'r meini prawf cymhwysedd sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen PLA hefyd yn golygu bod y rhaglen ar gael i gyflogwyr a oedd yn ceisio uwchsgilio staff mewn ymateb i'r pandemig. Rydym yn cyfeirio at hyn fel llinyn ELA (Arweinir gan Gyflogwyr) y rhaglen.

12. Beth oedd y rhesymeg y tu ôl i gynnwys maes ELA yn y rhaglen?
13. O'ch safbwynt chi, pa mor llwyddiannus fu llinyn ELA y rhaglen?
14. Gan adlewyrchu ar fodel cyflawni ELA, beth yw ei gryfderau allweddol yn eich barn chi?
15. Ym mha ffyrdd (os o gwbl) y gellid gwella'r model cyflawni ELA?

Blaenoriaethau Sector Cenedlaethol

Ymhellach, bu dwy rownd ymgeisio gystadleuol i gyflwyno darpariaeth ddysgu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r sector ar y rhaglen PLA.

16. Pa mor effeithiol oedd y dull hwn yn eich barn chi?
 - a. Pam ydych chi'n dweud hyn?
17. A oes meysydd blaenoriaeth eraill y dylid eu hystyried? Os felly pa rhai (a pham)?

Aliniad Strategol

18. Yn eich barn chi pa mor effeithiol y mae'r rhaglen PLA yn cyd-fynd â darpariaeth arall sy'n ceisio cefnogi oedolion Cymru i godi eu lefelau sgiliau?

- a. Pam ydych chi'n dweud hynny?
- b. A oes ffyrdd y gellid gwella integreiddio?

19. Edrych ymlaen pa newidiadau (os o gwbl) fydddech chi'n eu cynnig i ddyluniad PLA?
20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi?

Arolwg Dysgwyr Cyfrifon Dysgu Personol (PLA)

Cyn i ni symud ymlaen, a allech gadarnhau eich dewis ar gyfer llenwi'r holiadur yn:

Saesneg
Cymraeg

Q1 Ydych chi'n hapus i barhau gyda'r arolwg? Nodwch os gwelwch yn dda y gallwch stopio cwblhau'r holiadur unrhyw bryd os ydych yn penderfynu nad ydych am barhau.

- Ydw
- Nac ydw

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Os ydych chi'n hapus i barhau â'r arolwg? Sylwch y gallwch roi'r gorau i gwblhau'r holiadur... =Nac ydw

Q2 **Diolch am eich amser. I adael yr arolwg hwn, gaewch y tab yma yn eich porwr.**

Q4 A allwn gadarnhau eich bod wedi dechrau cymryd rhan ar gwrs **xxxx** yn **xx/xx/xx** ?

- Oedden
- Nac oedden

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Os Allwn ni gadarnhau eich bod wedi dechrau cymryd rhan ar gwrs **xxxx** yn **xx/xx/xx**? = Nac oedden

Q5 Allwch chi gofio cymryd rhan mewn cwrs gyda choleg **xxx**?

- Ydw
- Nac ydw

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Os Allwch chi gofio cymryd rhan mewn cwrs gyda choleg **xxx**? = Ydw

Q6 A allwch chi ddarparu'r manylion cywir os gwelwch yn dda:

Q87 Mae ein harolwg yn ymwneud yn bennaf â'ch profiad gyda PLA pan wnaethoch chi cwrs $\{e://Field/Course\}$ ond rydym yn gwerthfawrogi y gallech fod wedi cwblhau cwrs fwy nag unwaith drwy'r rhaglen.

Tua faint o gyrsiau ydych chi wedi'u gwneud trwy ddysgu PLA?

Atebwch fel rhif, os ydynt yn ansicr nodwch 1

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Mae ein harolwg yn ymwneud yn bennaf â'ch profiad gyda PLA pan wnaethoch chi cwrs $\{e://Field/Course\}$ ond rydym yn gwerthfawrogi y gallech fod wedi cwblhau cwrs fwy nag unwaith drwy'r rhaglen. A... Mae ateb yn Fwy nag 1

Q88 Pam dewisoch chi wneud mwy nag un cwrs trwy ddysgu PLA?

Cyfwelydd - a oeddent yn gwneud cyfres o fodiwlau fel rhan o gymhwyster mwy? Ai oherwydd bod yr hyfforddiant am ddim? A oedd angen y cyrsiau hyn arnynt fel rhan o'u swydd bresennol?

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Os Allwch chi gofio cymryd rhan mewn cwrs gyda choleg xxx?= Nac ydw

Q7 **Diolch am eich amser. I adael yr arolwg hwn, gaewch y tab yma yn eich porwr.**

Q8 Pan wnaethoch chi ymrwymo yn gyntaf efo dysgu PLA, a oeddech chi yn...?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Cyflogedig llawn amser
- Cyflogedig rhan-amser
- Hunan-gyflogedig
- Ar ffyrlo
- Ar gontract dim oriau
- Staff asiantaeth
- Mewn perygl o gael eich diswyddo
- Cyflogedig ac 'ariannol' yn cael ei effeithio'n negyddol gan yr economi, er enghraifft lle bydd eu cyflog blynyddol disgwylidig y flwyddyn ariannol hon yn llai na £29,534 neu lle mae dyfodol eu cyflogaeth mewn perygl oherwydd gweithio mewn sector sy'n debygol o weld effaith negyddol wrth symud ymlaen oherwydd COVID-19 neu ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.
- Arall (nodwch)

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Os Ar yr adeg y cyrchwyd y dysgu PLA, a oeddech chi...?Ticiwch bob un sy'n berthnasol = Arall (nodwch)

Q9 Dywedwch wrthym beth oedd eich amgylchiadau ar yr adeg pan wnaethoch chi gael mynediad at ddysgu PLA.

Q10 Ym mha sector roedd y sefydliad roeddech yn gweithio iddo ar yr adeg y gwnaethoch chi gael y cymorth o PLA?

- Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota
- Mwyngloddio, chwarela a chyfleustodau
- Gweithgynhyrchu
- Adeiladu
- Crefftau modur
- Cyfanwerthu
- Manwerthu
- Cludiant a Storio
- Gwasanaethau llety a bwyd
- Gwybodaeth a chyfathrebu
- Ariannol ac yswiriant
- Eiddo
- Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol
- Gweinyddu busnes a gwasanaethau cymorth
- Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn
- Addysg
- Iechyd
- Celfyddydau, adloniant a hamdden
- Dim un o'r uchod

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Os Ym mha sector roedd y sefydliad roeddech yn gweithio iddo ar yr adeg y gwnaethoch chi gael cymorth PLA yn gweithredu? = Dim un o'r uchod

Q13 Beth oedd y busnes yr oeddech yn gweithio ynddo yn wneud ar yr adeg y gwnaethoch chi gyrchu dysgu PLA? Pa nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd ganddynt?

Q11 Ticiwch un o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio rôl eich swydd orau ar yr adeg y cawsoch gefnogaeth gan y rhaglen PLA.

- Arferol neu Gyffredinol (ee glanhawyr cyffredinol, staff lletygarwch bwyd a diod, gweithwyr warws a gweithwyr amaethyddol)
- Proses, offer a pheiriannau (e.e. gweithwyr peiriannau, cydosodwyr, wagen fforch godi, gyrwyr trenau a choetsis)
- Gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid (e.e. cynorthwyyr gwerthu, gwasanaeth cwsmeriaid)
- Gofal, Hamdden a galwedigaethau eraill (e.e. gweithwyr meithrinfa, nyrsys milfeddygol, trinwyr gwallt a gofalwyr)
- Crefftau medrus (ee peirianwyr cynnal a chadw a thelathrebu, gweithwyr adeiladu, cigyddion, cogyddion a ffermwyr)
- Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol (e.e. ceidwaid llyfrau, cynorthwyyr llyfrgell, a gweithwyr swyddfa)
- Galwedigaethau proffesiynol technegol a chysylltiol (e.e. technegwyr peirianeg, arbenigwyr cymorth TG a threthiant)
- Galwedigaethau proffesiynol (e.e. gwyddonwyr, penseiri, arbenigwyr TG, ymarferwyr meddygol, cyfreithwyr a newyddiadurwyr)
- Prif Weithredwyr ac uwch swyddogion (e.e. cyfarwyddwyr is-adrannau, rheolwyr cynhyrchu a rheolwyr ymarfer)
- Dim un o'r uchod

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Os Ticiwch un o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio rôl eich swydd orau ar yr adeg y byddwch yn derbyn... = Dim un o'r uchod

Q12 Beth yw teitl eich swydd?

Q14 Ar yr adeg pan wnaethoch chi gael mynediad at y dysgu PLA, tua pha mor hir oeddech chi wedi bod yn gyflogedig gan y cyflogwr hwnnw?

Rhowch ffigur rhif

- Nifer o flynyddoedd _____
- Nifer o fisoedd _____

Q15 Ai dyma'r unig rôl yr oeddech wedi'ch cyflogi ynddi yn y sefydliad hwnnw cyn cael mynediad at ddysgu PLA?

- Nac oedd
- Oedd

Arddangos y Cwestiwn hwn:

Os Ai dyma'r unig rôl yr oeddech wedi'ch cyflogi ynddi yn y sefydliad hwnnw cyn cael mynediad at ddysgu PLA? =Nac oedd

Q16 Pa mor hir oeddech chi yn **eich swydd ddiweddaraf** gyda'r sefydliad cyn cael mynediad at ddysgu PLA?

Rhowch ffigur rhif

- Nifer o flynyddoedd _____
- Nifer o fisoedd _____

Q17 Ar yr adeg pan wnaethoch chi gael mynediad at ddysgu PLA, ym mha un o'r bandiau canlynol oedd eich cyflog blynyddol?

- £0-£10,000
- £10,001-£15,000
- £15,001-£20,000
- £20,001-£25,000
- £25,001-£30,000
- Dros 30,000
- Gwell gennyf beidio â dweud

Q18 Cyn i chi ddilyn y cwrs penodol hwn trwy PLA, a allwch chi gofio faint o amser sydd wedi bod ers i chi gymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant neu hyfforddiant cysylltiedig â gwaith a fyddai'n gwella'ch gyrfa?

- Llai na 6 mis
- 6 mis i 11 mis
- 1 i 2 flynedd
- 3 i 4 blynedd
- 5 mlynedd neu fwy
- Methu cofio
- Amherthnasol

Q19 Cyn cael mynediad at PLA, pa un o'r canlynol oedd eich lefel cymhwyster uchaf?

- Lefel mynediad - ee diploma lefel mynediad / ESOL
- Lefel 1 - ee NVQ lefel 1, graddau DG TGAU
- Lefel 2 - ee NVQ lefel 2, TGAU graddau A*-C
- Lefel 3 - ee lefel A, lefel 3 NVQ
- Lefel 4 - ee tystysgrif addysg uwch, prentisiaeth uwch, HNC
